# Canlyniad ymgynghoriad: Polisi sancsiynau

Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r polisi sancsiynau arfaethedig a'n penderfyniadau ni o ganlyniad

## Cynnwys


1. **Trosolwg** ........ 3
2. **Cyflwyniad** ........ 6
3. **Canlyniad yr ymgynghoriad: Crynodeb o ddadansoddiad o'r ymatebion** ........ 10
4. **Ymatebion i'r cynigion** ........ 20

~~5~~ **Crynodeb o'r penderfyniad** ........ 80

6 **Camau nesaf** ........ 83

7 **Atodiadau** ........ 83

## 1. Trosolwg

Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) ydy'r rheoleiddiwr statudol ar gyfer 15 proffesiwn. Ein diben ydy diogelu, hyrwyddo, a chynnal iechyd a diogelwch y cyhoedd, cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio, a hyrwyddo safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol.

Mae'r polisi sancsiynau yn amlinellu sut dylai Panel Pwyllgor Ymarfer (y 'panel') wneud penderfyniadau teg, cymesur, a chyson wrth osod sancsiynau yn dilyn canfyddiad o amhariad mewn achosion addasrwydd i ymarfer (FTP).

Yn unol â Gorchymyn Proffesiynau Iechyd (2001), mae'n ofynnol i'r HCPC ymgynghori â rhanddeiliaid cyn gwneud newidiadau i'w bolisïau rheoleiddio. Byddwn yn adolygu ein polisïau a'n safonau rheoleiddio o dro i dro er mwyn sicrhau nad ydynt yn dyddio, a'u bod yn parhau'n eglur ac yn gyson â'r ymarfer gorau. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'r ymrwymiad parhaus hwnnw.

Rhwng 29 Mai 2025 a 1 Medi 2025, bu'r HCPC yn ymgynghori ynglŷn â newidiadau a gynigiwyd i'r polisi sancsiynau er mwyn gwella eglurder i baneli wrth iddynt osod sancsiynau, cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau teg a chymesur mewn achosion FTP, adlewyrchu datblygiadau cyfreithiol diweddar ac adborth gan randdeiliaid, cryfhau diogelwch y cyhoedd a chynnal ymddiriedaeth yn y broses rheoleiddio. Yn ogystal, buom yn ceisio canfod barn rhanddeiliaid ynglŷn â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) ar gyfer y polisi arfaethedig.

Gwnaethom roi gwybodaeth i amryw o randdeiliaid ynglŷn â'r ymgynghoriad, ac yn ymgysylltu â nhw, gan gynnwys cyrff proffesiynol, rheoleiddwyr, cynrychiolwyr cyfreithiol, cyflogwyr, undebau, aelodau paneli Gwasanaeth Tribiwnlysoedd y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPTS), defnyddwyr gwasanaethau, ac unigolion cofrestredig. Gwnaethom hysbysebu'r ymgynghoriad hefyd ar ein gwefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Derbyniom 57 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys 15 gan sefydliadau (cyrff proffesiynol, cyrff cyhoeddus, darparwr cyfreithiol, sefydliadau aelodaeth, rheoleiddwyr, undebau ac eraill), a 42 gan unigolion (rhai cofrestredig ac aelodau o'r cyhoedd). Buom yn ystyried y safbwyntiau a'r rhesymau ategol a fynegwyd gan yr ymatebwyr yn ofalus.

Wedi i ni ddadansoddi ac ystyried adborth y rhanddeiliaid, rydym wedi penderfynu rhoi'r polisi sancsiynau newydd ar waith gyda rhai mân-ddiwygiadau. Bydd y polisi diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2026 ac yn dod yn weithredol ym mis Mawrth 2026.

Yn adran 4, rydym yn rhoi crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, yn egluro sut rydym wedi ymdrin â'r adborth hwnnw, ac yn amlinellu'r newidiadau a wnaed i'r polisi sancsiynau o ganlyniad. Mae ein penderfyniadau

terfynol wedi'i amlinellu yn adran 5.Mae'r ddogfen hon yn tynnu sylw at y diwygiadau allweddol a'r effeithiau a fwriedir yn sgil ein hadolygiad a'n dadansoddiad o adborth rhanddeiliaid.

**Newidiadau allweddol a wnaed gennym**

Ers diweddariad diwethaf ein polisi sancsiynau, bu nifer o ddatblygiadau, gan gynnwys newidiadau i'r gyfraith achosion ac adborth gan randdeiliaid. Rydym wedi ystyried y rhain fel rhan o'n hadolygiad. Buom yn ymgysylltu â sefydliadau a grwpiau allweddol megis yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA), Fforwm Partneriaeth FTP yr HCPC,[1] y Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant,[2] a phartneriaid FTP.[3] Mae eu hadborth wedi darparu gwybodaeth a dealltwriaeth gwerthfawr sydd cyfrannu at ddatblygiad ar ein polisïau ac wedi ein helpu i ddatblygu ein Nodiadau Ymarfer HCPTS[4] a'n safonau[5] newydd, ac wedi dylanwadu ar ein cynigion.

Rydym yn ddiolchgar iawn am yr holl ymatebion a gawsom i'n hymgynghoriad. Yn gyffredinol, cafodd cynigion yr ymgynghoriad dderbyniad da, gyda'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn mynegi eu cefnogaeth i'r dull arfaethedig o weithio. Roedd yr adborth a'r awgrymiadau a ddarparwyd gan yr ymatebwyr yn rhoi mewnwelediad ac o ganlyniad, rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol i'r polisi:

- **Gwelliannau strwythurol a golygyddol:** megis ychwanegu esboniad ynglŷn â ble mae'r broses sancsiynau'n eistedd yn y broses Addasrwydd i Ymarfer; ychwanegu croesgyfeiriadau pellach at adrannau eraill o fewn y polisi ac at ganllawiau a nodiadau ymarfer ar wahân; diweddaru cyfeiriadau at y safonau diwygiedig; cydosod yr is-adrannau elfennau lliniarol ac elfennau sy'n gwaethygu pethau dan yr adran cymesuredd; a mân-newidiadau golygyddol er cywirdeb, hygyrchedd a darllenadwyedd.

- **Canllawiau mwy eglur i baneli ystyried ffactorau cyd-destunol:** gan gynnwys ychwanegu cyfarwyddyd pellach i baneli ystyried difrifoldeb, bai a'r holl elfennau lliniarol ac elfennau sy'n gwaethygu pethau drwy gydol eu prosesau gwneud penderfyniadau; cyfarwyddo paneli i roi ystyriaeth benodol i effaith niwroamrywiaeth ar fewnwelediad ac ymddiheuro; ehangu cwmpas y dystiolaeth o gamau cywiro y bydd paneli'n ei hystyried fel elfennau lliniarol; cyfarwyddo paneli i ystyried y rhwystrau posib rhag camau cywiro a allai fod yno i unigolyn cofrestredig; a llywio paneli tuag at ystyried effaith sancsiwn ar unigolyn cofrestredig a'u hamgylchiadau.

[1] Mae Fforwm Partneriaeth FTP yr HCPC yn cynnwys cynrychiolwyr unigolion cofrestredig, cydweithwyr FTP a chynrychiolwyr o gyrff proffesiynol.
[2] Mae'r fforwm EDI yn agored i'n holl grwpiau amrywiol o unigolion cofrestredig a sefydliadau sy'n rhanddeiliaid sydd ag
arbenigedd mewn EDI ac sydd â phrofiad byw.
[3] Mae'r Partneriaid FTP yn cynnwys aelodau o baneli'r pwyllgor ymarfer.
[4] Nodiadau ymarfer | HCPTS
[5] Safonau | Yr HCPC

- **Cryfhau'r ieithwedd ynglŷn â chamymddwyn tuag at gydweithwyr:** gan gynnwys ychwanegu esboniadau ynglŷn a bwlio a pham y caiff bwlio ei ystyried yn achos difrifol; dileu manylion diangen o'r adran ynglŷn â ffiniau proffesiynol a chyfeirio at y Nodyn Ymarfer ar *Ffiniau proffesiynol*; a rhoi cyfarwyddyd penodol i baneli beidio ag ystyried camymddygiad rhywiol yn erbyn cydweithwyr yn llai difrifol.

- **Ychwanegu rhagor o eglurder ac esboniadau:** megis gwneud yr adran ar bwyso a mesur gorchmynion interim sy'n bodoli eisoes yn fwy eglur; egluro pwrpas gwaharddiad tymor byr; dileu'r manylion ynglŷn â gwrandawiadau adolygu a chyfeirio paneli yn hytrach at y Nodyn Ymarfer ar *Adolygu Gorchmynion Sancsiynu Erthygl 30*.

- **Sicrhau cysondeb ar draws y polisi**: ychwanegu paragraffau rhagarweiniol er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder mewn is-adrannau; a chysoni'r ieithwedd rhwng troseddau sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol a throsedau sy'n ymwneud â delweddau anweddus o blant.

Ein nod cyffredinol ydy sicrhau bod penderfyniadau a wneir drwy'r broses Addasrwydd i Ymarfer yn parhau i fod yn dryloyw, yn gymesur, ac yn canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd.

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd amser i ymateb i'r ymgynghoriad. Gallwch chi lawrlwytho'r ddogfen ymgynghori a chopi o'r dogfennau ymateb o'n gwefan ymgynghoriadau.

Crynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio yn unig a geir yn yr adran trosolwg hon. Mae'r penderfyniadau rydym wedi'u gwneud, a'n rhesymeg, yn cael eu hamlinellu isod.

## 2. Cyflwyniad

### Amdanom ni

2.1 Rydym yn rheoleiddiwr gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal a sefydlwyd gan Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001. Ein rôl statudol ydy diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd a diogelwch y cyhoedd, hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio, a hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny.[6] Rydym yn hyrwyddo ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel, gan reoleiddio 15 o broffesiynau iechyd a gofal drwy:

- osod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant ac ymarfer;
- cymeradwyo rhaglenni addysg y mae rhaid i weithwyr proffesiynol eu cwblhau er mwyn cofrestru gyda ni;
- cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sydd yn bodloni'n safonau;
- gweithredu os nad ydy gweithwyr proffesiynol sydd ar ein Cofrestr yn bodloni ein safonau; a
- gweithredu i atal ymarferwyr nad ydynt yn gofrestredig rhag defnyddio teitlau proffesiynol a ddiogelir.

2.2 Ar hyn o bryd, rydym yn rheoleiddio'r 15 proffesiwn iechyd a gofal canlynol:

- Therapyddion celf
- Gwyddonwyr biofeddygol
- Ciropodyddion / podiatryddion
- Gwyddonwyr clinigol
- Deietegwyr
- Cyflenwyr cymhorthion clyw
- Therapyddion galwedigaethol
- Ymarferwyr adrannau llawfeddygol
- Orthoptyddion
- Parafeddygon
- Ffisiotherapyddion
- Ymarferwyr seicoleg
- Prosthetwyr / orthotyddion
- Radiograffwyr
- Therapyddion iaith a lleferydd

[6] Mae Erthygl 3(4) a (4A) Gorchymyn Proffesiynau Iechyd (2001) yn datgan mai amcan cyffredinol HCPC ydy diogelu'r cyhoedd ac mae'n amlinellu sut y dylid gweithredu ar yr amcan hwn.

**Yr ymgynghoriad**

2.3 Mae'r polisi sancsiynau'r HCPC yn gosod yr egwyddorion y dylai paneli eu hystyried wrth benderfynu pa sancsiwn, os o gwbl, y dylid ei osod mewn achosion FTP. Y bwriad yw iddo gynorthwyo paneli i wneud penderfyniadau teg, cyson a thryloyw, gan sicrhau bod canlyniadau rheoleiddiol yn cynnal hyder y cyhoedd a safonau proffesiynol.

2.4 Prif swyddogaeth unrhyw sancsiwn ydy diogelu'r cyhoedd drwy fynd i'r afael â risgiau sy'n cael eu peri gan yr unigolyn cofrestredig neu bryderon ynglŷn â hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

2.5 Mae paneli yn gwneud penderfyniadau annibynnol a rhaid iddynt asesu pob achos yn unigol. Canllaw yw'r polisi sancsiynau yn hytrach na chyfyngiad ar annibyniaeth y panel. Fodd bynnag, os bydd panel yn gwyro oddi wrth y polisi, rhaid iddynt ddarparu rhesymau clir dros wneud hynny.

2.6 Cafodd y polisi sancsiynau ei gyhoeddi gyntaf yn 2004 a chafodd ei ddisodli gan bolisi sancsiynau 2019. Mae'n hanfodol bod y polisi'n cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu datblygiadau mewn safonau cyfreithiol, cyfraith achosion, a disgwyliadau proffesiynol sy'n esblygu.

2.7 Ers yr adolygiad yn 2019, rydym wedi diweddaru ein safonau hyfedredd, a'n safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg, ac wedi cyflwyno Nodiadau Ymarfer HCPTS newydd ynglŷn ag agweddau penodol ar y broses ddyfarnu. Mae angen diweddaru polisi sancsiynau 2019 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn, datblygiadau perthnasol yn y gyfraith achosion, a sicrhau ei fod yn parhau'n eglur ac yn effeithiol.

2.8 Aethom ati wedyn i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar 29 Mai 2025 ynglŷn â newidiadau arfaethedig i'r polisi sancsiynau. Caeodd yr ymgynghoriad ar 1 Medi 2025. Mae'r ddogfen hon yn adrodd am galyniadau'r ymgynghoriad hwnnw, gan grynhoi'r adborth a dderbyniwyd ac amlinellu sut mae'r polisi wedi'i ddiwygio o ganlyniad.

2.9 Derbyniom 57 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys 15 gan sefydliadau (cyrff proffesiynol, cyrff cyhoeddus, sefydliadau aelodaeth, rheoleiddwyr, undebau a darparwr cyfreithiol), a 42 gan unigolion (rhai cofrestredig ac aelodau o'r cyhoedd).

2.10 Er bod amrywiaeth eang o safbwyntiau wedi'u mynegi ar draws y grwpiau o ymatebwyr, roedd cefnogaeth eang i'n cynigion ar y cyfan. Darparodd yr ymatebion fewnwelediadau ystyriol a rhesymegol, ac mae llawer o hynny wedi dylanwadu ar ddatblygiad y polisi terfynol.

2.11 Gwnaethom ymgynghori ar gynigion i:

1. **Adlewyrchu cyfraith achosion diweddar:** er mwyn sicrhau bod gan y paneli ganllawiau mwy eglur mewn perthynas â defnyddio gorchmynion gwahardd dros dro.
2. **Diweddaru canllawiau ynglŷn â gorchmynion interim:** er mwyn gwella tryloywder ac eglurder ynglŷn â'r ffordd y dylai'n paneli ystyried gorchmynion interim cyn gwrandawiad o sylwedd.
3. **Gwneud ein canllawiau am 'ymddiheuriad' yn fwy eglur:** i helpu paneli i asesu amseriad, diffuantrwydd, a pherthnasedd ymddiheuriadau unigolion cofrestredig pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.
4. **Gwneud yr adran 'diarddel' yn fwy eglur:** er mwyn ei gwneud yn eglur bod rhai ymddygiadau mor ddifrifol eu bod yn anghydnaws â pharhau'n gofrestredig.
5. **Ychwanegu cynnwys am asesu difrifoldeb a bai:** er mwyn gwella tryloywder ac atebolrwydd drwy amlinellu'n eglur beth yw'r amgylchiadau gwaethygu a'r amgylchiadau lliniarol y dylai paneli eu hystyried er mwyn helpu i gefnogi penderfyniadau cyson a chymesur.
6. **Ehangu'r canllawiau am wahaniaethu:** er mwyn cadarnhau bod pob math o wahaniaethu yn annerbyniol aa amlinellu ffactorau perthnasol y dylai paneli eu hystyried.
7. **Ehangu'r canllawiau am anonestrwydd:** er mwyn ei gwneud yn haws asesu sut gallai gweithredoedd anonest effeithio ar ymddiriedaeth neu beri niwed, gan arwain at benderfyniadau mwy cyson ar sail mwy o wybodaeth mewn achosion difrifol.
8. **Ychwanegu camymddygiad â chymhelliant rhywiol:** er mwyn darparu canllawiau ychwanegol er mwyn sicrhau bod paneli yn asesu cyflwr meddwl a bwriad yr unigolyn cofrestredig mewn achosion FTP lle gallai'r ymddygiad fod â chymhelliant rhywiol.
9. **Cyflwyno adran newydd am 'ffiniau proffesiynol':** er mwyn sicrhau y caiff pryderon ynglŷn â chynnal perthnasoedd proffesiynol sylw priodol.
10. **Gwneud newidiadau strwythurol a golygyddol:** er mwyn gwneud y ddogfen yn fwy eglur, yn haws i ganfod eich ffordd drwyddi, ac yn haws ei defnyddio.

2.12 Roedd rhanddeiliaid yn croesawu'r ffocws cryfach ar ddiogelu'r cyhoedd, ac eglurder canllwiau diwygiedig sy'n adlewyrchu'r gyfraith achosion gyfredol ac ymrwymiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI). Roeddent yn pwysleisio y dylai sancsiynau gael eu gosod fesul achos , gan ddechrau â'r opsiwn lleiaf cyfyngol a chynyddu'r raddfa yn ôl difrifoldeb y camymddygiad. Gwnaeth rhanddeiliaid hefyd bwysleisio pwysigrwydd cydraddoldeb a chynhwysiant, gan alw am driniaeth deg i unigolion cofrestredig sydd ag anabledd, niwroamrywiaeth, neu gyflyrau iechyd meddwl, a gwnaethant argymell hyfforddiant gorfodol i baneli ynglŷn â rhagfarn ddiarwybod, cymhwysedd diwylliannol, ac addasiadau rhesymol.

2.13 Yn ogystal, roeddent yn awyddus i gael canllawiau mwy eglur a hygyrch, gan gynnwys enghreifftiau ymarferol o achosion i egluro cymesuredd, camau

cywiro, ac asesu ymddiheuriadau neu fewnwelediad, a sicrhau bod y polisi ar gael mewn fformatau hygyrch. Galwodd ymatebwyr hefyd am fonitro canlyniadau'n barhaus yn ôl nodweddion gwarchodedig ac ymgysylltu parhaus ag unigolion cofrestredig a grwpiau lleiafrifoedd, gan annog paneli i ystyried ffactorau cyd-destunol ehangach megis erledigaeth bosib neu bwysau systemig.

2.14 Yn dilyn adborth y rhanddeiliaid, mae ein polisi sancsiynau diwygiedig yn adlewyrchu nifer o'r mewnwelediadau hyn. Ein nod cyffredinol o hyd ydy sicrhau bod penderfyniadau a wneir drwy'r broses Addasrwydd i Ymarfer yn dryloyw, yn deg, ac yn gymesur, ac ar yr un pryd, yn diogelu'r cyhoedd a chynnal hyder yn ein proffesiynau a reoleiddir.

2.15 Fel rhan o'r ymgynghoriad, gwnaethom gyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) drafft ochr yn ochr â'r polisi sancsiynau arfaethedig er mwyn darparu tryloywder ynglŷn ag effeithiau posib ein cynigion ar wahanol grwpiau o randdeiliaid sy'n cael eu rheoleiddio gennym. Buom yn ceisio adborth yn penodol ynglŷn â'r EIA ac unrhyw effeithiau eraill a ganfyddwyd. Mae'r adborth hwnnw wedi dylanwadu ar ein proses o ystyried y polisi terfynol, ac mae'r fersiwn wedi'i diweddaru o'r EIA ar gael yma.

**Gwybodaeth am y ddogfen hon**

2.16 Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r broses ymgynghori, crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd gennym, a'r newidiadau rydym wedi'u gwneud i'r polisi sancsiynau o ganlyniad, yn ogystal â'n penderfyniad terfynol.

2.17 Mae wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- **Adran 3:** Trosolwg ystadegol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dadansoddiad.
- **Adran 4**: Dadansoddiad thematig o ymatebion rhanddeiliaid ac ymateb yr HCPC i'r adborth a dderbyniwyd gennym, yn ogystal â chrynodeb o'r newidiadau rydym wedi'u gwneud i'n EIA.
- **Adran 5**: Crynodeb o'n penderfyniad terfynol a'r newidiadau y byddwn yn eu gwneud i'r polisi sancsiynau.
- **Adran 6**: Amlinelliad o'r camau nesaf ar gyfer ei weithredu.
- **Adran 7:** Atodiadau – copi o'r EIA a'r polisi sancsiynau diwygiedig.

## 3. Canlyniad yr ymgynghoriad: Crynodeb o ddadansoddiad o'r ymatebion

3.1 Rydym wedi dadansoddi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad drwy e-bost ac arolygon a dderbyniwyd gennym.

**Dull cofnodi a dadansoddi**

3.2 Defnyddiodd mwyafrif yr ymatebwyr ein hofferyn arolwg ar-lein i ymateb i'r ymgynghoriad. Gwnaethon nhw ddewis eu hunain a oedd eu hymateb yn un gan unigolyn neu sefydliad, a lle rhoddwyd atebion ganddynt, roeddent wedi dewis eu hymateb i bob cwestiwn gan nodi i ba raddau roeddent yn cytuno (e.e., cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, anghytuno, anghytuno'n gryf). Roedd modd hefyd iddynt roi sylwadau i ni er mwyn egluro eu hymateb i bob cwestiwn.

3.3 Ar gyfer ymatebion a dderbyniwyd drwy e-bost, gwnaethom gofnodi pob ymateb ar ffurf debyg. Mae'r ymatebion hynny wedi'u cynnwys yn yr holl siartiau, darluniau ac ystadegau a roddir yn y papur hwn.

3.4 Wrth benderfynu pa wybodaeth i'w chynnwys yn y ddogfen hon, gwnaethom asesu amlder y sylwadau a wnaed a nodi themâu. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r themâu cyffredin ar draws yr holl ymatebion ac yn nodi pa mor aml y cyflwynwyd dadleuon a sylwadau gan yr ymatebwyr.

**Dadansoddiad ystadegol o'r ymatebwyr**

3.5 Derbyniom 57 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd 15 o'r ymatebion (26%) gan sefydliadau ac roedd 42 o'r ymatebion (74%) gan unigolion. Yn ogystal â'n cwestiynau ynglŷn â'r cynigion, gofynnom ni nifer o gwestiynau i'r ymatebwyr ynglŷn â'u cefndir.

*Ymatebion sefydliadau*

3.6 Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r ymatebion gan sefydliadau. Daeth y nifer fwyaf o ymatebion gan gyrff proffesiynol. Derbyniom ymatebion hefyd gan reoleiddwyr, cyrff cyhoeddus, a darparwyr cyfreithiol.

| Math o randdeiliad | |
|---|---|
| **Ateb a ddewiswyd** | **Cyfanswm Ymatebion** |
| Corff Proffesiynol | 7 |
| Corff Cyhoeddus | 2 |
| Corff Aelodaeth | 1 |
| Cyfreithiwr / Darparwr Cyfreithiol | 1 |
| Rheoleiddwyr | 2 |
| Arall | 2 |

3.7 Ymatebodd y sefydliadau i ddweud eu bod yn bennaf yn weithredol ar draws y Deyrnas Unedig neu yn Lloegr yn unig. Nid oedd unrhyw ymatebwyr sy'n weithredol yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban na Chymru yn unig.

| Ble mae eich sefydliad yn weithredol? | | |
|---|---|---|
| **Ateb a ddewiswyd** | **Canran Ymatebion** | **Cyfanswm Ymatebion** |
| Lloegr | 20% | 3 |
| Ledled y DU | 73% | 11 |
| Rhyngwladol | 7% | 1 |

*Ymatebion unigolion*

3.8 O'r 42 o ymatebion gan unigolion, roedd 35 (83%) gan weithiwr proffesiynol sy'n gofrestredig â'r HCPC. Roedd 7 (17%) o'r ymatebion gan unigolion yn dod o blith grwpiau rhanddeiliaid eraill (gweler paragraff 3.13 am ragor o wybodaeth).

3.9 Isod, rydym wedi cynnwys dadansoddiad o ystadegau ein cofrestriadau ynghyd â dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniom gan weithwyr proffesiynol cofrestredig.

| Gweithwyr proffesiynol cofrestredig | Nifer yr unigolion cofrestredig* | Nifer yr ymatebion | Cyfradd ymateb fesul 1,000 o unigolion cofrestredig |
|---|---|---|---|
| Therapyddion celf | 6,305 | 1 | 0.16 |
| Gwyddonwyr biofeddygol | 30,546 | 6 | 0.20 |
| Ciropodyddion / podiatryddion | 12,123 | 0 | 0 |
| Gwyddonwyr clinigol | 8,312 | 2 | 0.24 |
| Deietegwyr | 13,103 | 0 | 0 |
| Cyflenwyr cymhorthion clyw | 4,940 | 0 | 0 |
| Therapyddion galwedigaethol | 46,637 | 4 | 0.09 |
| Ymarferwyr adrannau llawfeddygol | 17,797 | 1 | 0.06 |
| Orthoptyddion | 1,563 | 0 | 0 |
| Parafeddygon | 41,343 | 12 | 0.29 |
| Ffisiotherapyddion | 81,473 | 4 | 0.05 |
| Ymarferwyr seicoleg | 31,105 | 2 | 0.06 |
| Prosthetwyr / orthotyddion | 1,239 | 0 | 0 |
| Radiograffwyr | 50,417 | 1 | 0.02 |
| Therapyddion iaith a lleferydd | 20,194 | 1 | 0.05 |

*(Data fel yr oedd ym mis Tachwedd 2025)*

3.10 Derbyniom ymatebion gan 10 o’r 15 proffesiwn rydym yn eu rheoleiddio. Roedd niferoedd yr ymatebion ar eu huchaf gan barafeddygon a gwyddonwyr biofeddygol. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion gan unigolion cofrestredig mewn nifer o broffesiynau sy’n ffurfio rhannau llai o’n cofrestr gyfan: ciropodyddion / podiatryddion, cyflenwyr cymhorthion clyw, orthoptyddion, prosthetyddion / orthotyddion. Ar gyfer rhai o’r proffesiynau lle na chafwyd ymatebion gan unigolion, fe gafwyd ymatebion gan gyrff proffesiynol ac undebau llafur oedd yn ymateb ar ran eu haelodau.

3.11 Gofynnom i ymatebwyr oedd yn unigolion cofrestredig ddweud wrthym ble roedd eu man gwaith neu weithgaredd, a dyma’r dadansoddiad:

| Ble mae eich man gwaith neu weithgaredd arferol? | | |
|---|---|---|
| **Ateb a ddewiswyd** | **Canran Ymatebion*** | **Cyfanswm Ymatebion** |
| Lloegr | 77% | 27 |
| Yr Alban | 6% | 2 |
| Cymru | 9% | 3 |
| Ledled y DU | 9% | 3 |

*Mae’r canrannau’n dod i gyfanswm o 101% oherwydd talgrynu.

3.12 Mae mwyafrif yr ymatebwyr i’r ymgynghoriad yn gweithio yn Lloegr gydag ychydig yn gweithio yn yr Alban, Cymru neu ledled y Deyrnas Unedig. Ni wnaeth unrhyw ymatebwyr nodi eu bod yn gweithio yng Ngogledd Iwerddon yn

unig. Roedd canran yr ymatebwyr sy’n weithredol yn Lloegr yn gymesur â phroffil unigolion cofrestredig yr HCPC yn gyffredinol. Roedd gor-gynrychiolaeth o ymatebwyr sy’n weithredol yng Nghymru ac roedd ymatebwyr yn yr Alban wedi’u tangynrhycioli ychydig.

3.13 Fel y nodwyd uchod, roedd 7 o ymatebwyr nad oeddent yn weithiwr proffesiynol sy’n gofrestredig â’r HCPC. Disgrifiodd yr ymatebwyr eu hunain fel perthynas i weithiwr proffesiynol sy’n gofrestredig â’r HCPC (14%), asesydd cyfreithiol (14%), aelod o’r cyhoedd sydd â diddordeb yn y mater (14%), rhywun sy’n defnyddio neu’n derbyn gwasanaethau iechyd neu ofal ar hyn o bryd (14%), unigolyn sydd â phrofiad bywyd (29%), a gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol (14%).

3.14 O’r 7 ymateb yma gan unigolion nad ydynt yn gofrestredig, nododd 6 (86%) bod eu prif breswylfa yn Lloegr ac 1 (14%) yng Nghymru. Ni chyflwynwyd unrhyw ymatebion gan unigolion nad ydynt yn gofrestredig o’r Alban na Gogledd Iwerddon.

3.15 O’r 42 o unigolion a ymatebodd i’r ymgynghoriad (unigolion cofrestredig yr HCPC a grwpiau eraill), dyma’r dadansoddiad fesul nodwedd warchodedig:

| Oedran | Canran Ymatebion* | Cyfanswm Ymatebion |
|---|---|---|
| 20-29 | 10% | 4 |
| 30-39 | 14% | 6 |
| 40-49 | 33% | 14 |
| 50-59 | 17% | 7 |
| 60-69 | 17% | 7 |
| 70 neu hŷn | 5% | 2 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 5% | 2 |

*Mae’r canrannau’n dod i gyfanswm o 101% oherwydd talgrynu.

3.16 Daeth dwy ran o dair (67%) o’r ymatebion gan unigolion i’r ymgynghoriad gan unigolion sydd rhwng 40 a 69 oed. Mae proffil yr ymatebwyr ychydig yn hŷn na’r proffil ar gyfer unigolion cofrestredig yr HCPC, gydag unigolion cofrestredig dan 40 oed wedi’u tangynrychioli yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad.

3.17 Dangosodd ein data cofrestru ym mis Tachwedd 2025 bod unigolion cofrestredig rhwng 20-29 oed yn ffurfio oddeutu 19% o’r Gofrestr, ac unigolion cofrestredig 30-39 oed yn ffurfio oddeutu 31% o’r Gofrestr. Er bod oddeutu 50% o holl unigolion cofrestredig yr HCPC dan 40 oed, dim ond 24% o'r ymatebwyr i’r ymgynghoriad oedd dan 40 oed.

3.18 Nododd ein EIA fod unigolion cofrestredig sy’n hŷn yn fwy tebygol o fod yn destun penderfyniadau dan bolisi sancsiynau'r HCPC. Er nad yw proffil yr ymatebwyr yn adlewyrchiad cywir o’n Cofrestr, mae’n fwy tebygol o gynrychioli

proffil unigolion y mae'r polisi'n effeithio arnynt. Mae ystod yr ymatebwyr yn golygu ein bod yn hyderus ein bod wedi clywed gan amrywiaeth eang o leisiau.

3.19 Mae'r tabl canlynol yn dangos sut atebodd yr ymatebwyr i nodi a oeddent yn ystyried bod ganddynt anabledd eu hunain ai peidio. Gwnaethom ddiffinio anabledd fel 'amhariad corfforol neu feddyliol sydd yn cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau dydd-i-ddydd arferol", gan adlewyrchu geiriad Deddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf Cydraddoldeb') a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (ar gyfer Gogledd Iwerddon).

| Anabledd | Canran Ymatebion | Cyfanswm Ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 21% | 9 |
| Nac ydw | 67% | 28 |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 12% | 5 |

3.20 Derbyniom gyfanswm o 9 (21%) ymateb gan unigolion a nododd bod ganddynt anabledd. Mae'r ganran hon yn sylweddol uwch na'r proffil ar ein Cofrestr gyfan (5%).[7]

3.21 Dangosodd ein EIA bod unigolion cofrestredig sydd ag anabledd wedi'u gorgynrychioli yn y data FTP. Mae canran yr ymatebwyr sydd ag anableddau yn dal yn uwch na chanran yr unigolion cofrestredig sydd ag anableddau sydd ag un neu fwy o bryderon FTP (10%).

3.22 Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o ethnigrwydd yr ymatebwyr. Gwnaethom ddiffinio ethnigrwydd i gynnwys lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, neu genedligrwydd, gan adlewyrchu geiriad y Ddeddf Cydraddoldeb.

| Ethnigrwydd | Canran Ymatebion* | Cyfanswm Ymatebion |
|---|---|---|
| Gwyn | 69% | 29 |
| Cymysg neu fwy nag un grŵp ethnig | 5% | 2 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | 10% | 4 |
| Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig | 7% | 3 |
| Grŵp ethnig arall | 5% | 2 |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 5% | 2 |

*Mae'r canrannau'n dod i gyfanswm o 101% oherwydd talgrynu.

3.23 Roedd ymatebwyr a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn 'Wyn' wedi'u tangynrychioli ychydig, gan eu bod yn ffurfio 69% o'r holl ymatebion gan unigolion, o gymharu â 74% ymhlith ein holl unigolion cofrestredig. Roedd canrannau'r ymatebwyr a nododd eu bod yn ystyried eu hunain yn Asiaidd neu

[7] fitness-to-practise-data---supplementary-analysis-2023-24.pdf

Asiaidd Prydeinig (10%), Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig (7%), Grwpiau ethnig cymysg neu fwy nag un grŵp ethnig (5%) yn weddol debyg i'r proffil ar ein cofrestr. Fodd bynnag, roedd y niferoedd ar gyfer pob categori ethnigrwydd ac eithrio Gwyn yn gymharol fach, felly rydym yn gyndyn i ffurfio casgliadau mewn perthynas â lefelau cynrychiolaeth ar sail nifer yr ymatebion.

3.24 Nododd ein EIA effeithiau niweidiol posib ar sail ethnigrwydd. Er nad yw proffil yr ymatebwyr yn adlewyrchiad manwl o'n cofrestr, mae'n llawer mwy tebygol o gynrychioli proffil unigolion cofrestredig sydd ag un eu fwy o bryderon FTP.

3.25 Gofynnom i'r ymatebwyr a atebodd fel unigolion ynglŷn â'u rhyw a gofnodwyd adeg eu geni. Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'u hatebion:

| Rhyw a gofnodwyd adeg eich geni | Canran Ymatebion | Cyfanswm Ymatebion |
|---|---|---|
| Benyw | 52% | 22 |
| Gwryw | 41% | 17 |
| Rhyngryw | 2% | 1 |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 5% | 2 |

3.26 Roedd canran yr ymatebwyr a nododd mai benyw oedd eu rhyw a gofnodwyd adeg eu geni yn cyfateb yn fras i ganran yr unigolion cofrestredig sydd ag un neu fwy o bryderon FTP sy'n fenywaidd (53%). Er bod proffil yr ymatebwyr sydd yn fenywaidd yn is na'r proffil ar ein Cofrestr (71%), mae ein hymatebion yn fwy tebygol o gynrychioli proffil unigolion y bydd y polisi hwn yn effeithio arnynt.

3.27 Mae'r tabl canlynol yn dangos atebion i'n cwestiwn ynglŷn â hunaniaeth o ran rhywedd (o gymharu â'r rhyw a gofnodwyd adeg eu geni).

| Ydy eich hunaniaeth o ran rhywedd yn cyfateb i'ch rhyw a gofnodwyd adeg eich geni? | Canran Ymatebion | Cyfanswm Ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 91% | 38 |
| Nac ydw | 2% | 1 |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 7% | 3 |

3.28 Mae canran yr ymatebwyr y mae eu hunaniaeth o ran rhywedd yn cyfateb i'w rhyw a gofnodwyd adeg eu geni yn cyfateb yn fras i ganran yr unigolion cofrestredig sydd ag un neu fwy o achosion FTP (90%)[8] a ddim ond ychydig yn is na chanran yr holl unigolion cofrestredig (93%).

[8] fitness-to-practise-data---supplementary-analysis-2023-24.pdf

3.29 Mae’r tabl canlynol yn dangos yr atebion a gawsom wedi i ni ofyn i’r ymatebwyr am eu cyfeiriadedd rhywiol.

| Cyfeiriadedd rhywiol | Canran Ymatebion | Cyfanswm Ymatebion |
|---|---|---|
| Heterorywiol / syth | 69% | 29 |
| Dyn hoyw | 12% | 5 |
| Menyw hoyw / lesbiad | 2% | 1 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 17% | 7 |

3.30 Roedd gan 69% o’r unigolion a ymatebodd i’r ymgynghoriad hunaniaeth heterorywiol/syth, ac mae 85%[9] o’r Gofrestr gyfan wedi nodi’r un hunaniaeth. Roedd ymatebwyr a nododd eu hunaniaeth fel dynion hoyw a’r rhai a nododd eu bod yn fenywod hoyw/lesbiaid wedi’u gorgynrychioli yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad o gymharu â’r Gofrestr gyfan (1% ar gyfer dynion hoyw ac 1% ar gyfer menywod hoyw/lesbiaid). Ni wnaeth unrhyw unigolion ymateb i ddweud bod ganddynt hunaniaeth deurywiol, arywiol, panrywiol, na cwiar.

3.31 Mae’r tabl canlynol yn dangos statws priodasol neu bartneriaeth sifil yr ymatebwyr:

| Statws priodasol neu bartneriaeth sifil | Canran Ymatebion* | Cyfanswm Ymatebion |
|---|---|---|
| Priod | 50% | 21 |
| Wedi Ysgaru | 5% | 2 |
| Heb briodi erioed a heb gofrestru mewn partneriaeth sifil erioed | 29% | 12 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 17% | 7 |

*Mae’r canrannau’n dod i gyfanswm o 101% oherwydd talgrynu.

3.32 Roedd canran yr unigolion a ymatebodd sy’n briod (50%) yn debyg i broffil y Gofrestr gyfan (47%) ond yn uwch na chanran yr unigolion cofrestredig sydd ag un neu fwy o bryderon FTP (40%). Mae canran yr unigolion sydd heb fod yn briod erioed yn debyg i’r ganran yn y Gofrestr gyfan (34%) ac i ganran yr unigolion cofrestredig sydd ag un neu fwy o bryderon FTP (30%). Roedd yr ymatebwyr sydd wedi ysgaru yn cyfateb i broffil y Gofrestr (5%) ond yn tangynrychioli unigolion cofrestredig sydd ag un neu fwy o bryderon FTP (9%) o ryw ychydig.

3.33 Mae’r tabl canlynol yn dangos y rhai oedd yn nodi eu bod yn meddu ar nodweddion gwarchodedig beichiogrwydd a/neu mamolaeth:

[9] fitness-to-practise-data---supplementary-analysis-2023-24.pdf

| Beichiogrwydd a mamolaeth | Canran Ymatebion | Cyfanswm Ymatebion |
|---|---|---|
| Nac ydw | 88% | 37 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 12% | 5 |

3.34 Ni wnaeth unrhyw unigolion ymateb gan nodi eu bod yn meddu ar nodweddion gwarchodedig beichiogrwydd a/neu mamolaeth.

3.35 Oherwydd bod yr ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd, ymgeiswyr y dyfodol ac unigolion cofrestredig, dylem fod yn ofalus cyn dod i gasgliadau ynglŷn â gorgynrychiolaeth a thangynrychiolaeth gan grwpiau penodol. Fodd bynnag, ar sail yr ymatebion i’n cwestiynau demograffig EDI, mae gennym hyder i raddau rhesymol bod ein hymgynghoriad wedi ennyn ymatebion gan amrywiaeth eang o leisiau o amryw o gefndiroedd, ac mae’r cyfan wedi chwarae rhan bwysig wrth i ni ddatblygu ein polisi.

**Crynodeb o’r dadansoddiad meintiol**

3.36 Derbyniom 57 o ymatebion i’r ymgynghoriad. Daeth 42 o’r ymatebion (74%) gan unigolion chafodd 15 (26%) eu cyflwyno ar ran sefydliadau. O’r 42 o ymatebion gan unigolion, roedd 35 (83%) yn weithwyr proffesiynol cofrestredig gyda’r HCPC.

3.37 Mae’r tablau isod yn rhoi rhai ystadegau dangosol ar gyfer yr atebion i gwestiynau'r ymgynghoriad.

**Dadansoddiad o’r ymatebion fesul cwestiwn**

| Cwestiynau ymgynghori | Cytuno’n Gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n Gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| C1. I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r newidiadau arfaethedig ynglŷn â gorchmynion gwahardd dros dro? | 18 (32%) | 23 (40%) | 7 (12%) | 4 (7%) | 4 (7%) | 1 (2%) |
| C2. I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r newidiadau arfaethedig ynglŷn â gorchmynion interim? | 16 (28%) | 29 (51%) | 7 (12%) | 3 (5%) | 2 (4%) | 0 (0%) |
| C3. I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r newidiadau arfaethedig ynglŷn ag ymddiheuriadau? | 18 (32%) | 22 (39%) | 10 (18%) | 2 (4%) | 4 (7%) | 1 (2%) |
| C4. I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r newidiadau arfaethedig ynglŷn â diarddel lle mae’r pryderon mor ddifrifol eu bod yn anghydnaws â pharhau’n gofrestredig? | 20 (35%) | 22 (39%) | 6 (11%) | 6 (11%) | 3 (5%) | 0 (0%) |
| C5. I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r newidiadau arfaethedig ynglŷn ag asesu difrifoldeb a bai? | 15 (26%) | 26 (46%) | 8 (14%) | 4 (7%) | 3 (5%) | 1 (2%) |
| C6. I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r newidiadau arfaethedig ynglŷn â phryderon am wahaniaethu? | 25 (44%) | 17 (30%) | 8 (14%) | 3 (5%) | 4 (7%) | 0 (0%) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| C7. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn ag anonestrwydd? | 14 (25%) | 24 (42%) | 12 (21%) | 5 (9%) | 2 (4%) | 0 (0%) |
| C8. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â chamymddygiad â chymhelliant rhywiol? | 24 (42%) | 20 (35%) | 7 (12%) | 2 (4%) | 4 (7%) | 0 (0%) |
| C9. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â ffiniau proffesiynol? | 20 (35%) | 21 (37%) | 10 (18%) | 2 (4%) | 3 (5%) | 1 (2%) |
| C10. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y newidiadau strwythurol a golygyddol yn eglur? | 12 (21%) | 24 (42%) | 13 (23%) | 3 (5%) | 4 (7%) | 1 (2%) |
| C11. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig i'n polisi sancsiynau yn gyffredinol? | 13 (23%) | 26 (46%) | 10 (18%) | 3 (5%) | 5 (9%) | 0 (0%) |

3.38 Roedd yr ymatebwyr i'r cynigion yn gyffredinol yn gefnogol iawn i'r newidiadau arfaethedig. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cytuno â phob cwestiwn. Y cwestiynau a gafodd y gefnogaeth gryfaf gan yr ymatebwyr oedd y rhai ynglŷn â gorchmynion interim (gyda 28% yn cytuno'n gryf a 51% yn cytuno), camymddygiad â chymhelliant rhywiol (gyda 42% yn cytuno'n gryf a 35% yn cytuno), diarddel (gyda 35% yn cytuno'n gryf a 39% yn cytuno), a chamwahaniaethu (gyda 44% yn cytuno'n gryf a 30% yn cytuno).

3.39 Mynegodd yr ymatebwyr fwyaf o niwtralrwydd wrth ymateb i'r cwestiynau ynglŷn ag ymddiheuro (18%), anonestrwydd (21%), ac eglurder gwelliannau strwythurol a golygyddol (23%). Y cwestiynau lle cafwyd y gwrthwynebiad mwyaf oedd yr adrannau ynglŷn â diarddel (gydag 11% yn anghytuno a 5% yn anghytuno'n gryf), gorchmynion gwahardd dros dro (gyda 7% yn anghytuno a 7% yn anghytuno'n gryf), a'r newidiadau i'r polisi yn gyffredinol (gyda 5% yn anghytuno a 9% yn anghytuno'n gryf).

3.40 Nodwn bod y cwestiwn ynglŷn â newidiadau arfaethedig i'r adran am ddiarddel wedi derbyn cefnogaeth oedd gyda'r cryfaf a gwrthwynebiad oedd gyda'r cryfaf. Nid yw hynny'n annisgwyl, gan mai gorchymyn diarddel ydy'r sancsiwn mwyaf cyfyngol y gall panel ei osod. Felly, roeddem wedi rhagweld y byddai'r adborth ar yr adran hon yn arbennig o gryf ac o bosib wedi'i bolareiddio.

## 4. Ymatebion i'r cynigion

4.1 Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o'r adborth i'r ymgynghoriad a gawsom ar gyfer pob un o'n cynigion ac yn ychwanegu ein hymateb.

4.2 Roedd pob cwestiwn yn orfodol, felly rhoddwyd atebion iddynt gan bob un o'r 57 a ymatebodd. Rydym wedi dadansoddi'r holl ymatebion ac wedi rhoi ein hymateb ni isod.

### Themâu trawsbynciol yn yr ymatebion i'r cynigion

4.3 Ar draws y rhanddeiliaid a chwestiynau'r ymgynghoriad, daeth tair prif thema trawsbynciol i'r amlwg yn ystod ein dadansoddiad o'r adborth. Rydym wedi ymateb i'r elfennau cyffredin hyn yn yr adborth isod:

**Ceisiadau am enghreifftiau**

4.4 Gofynnodd nifer o ymatebwyr i'r polisi sancsiynau gynnwys enghreifftiau er mwyn darlunio mathau penodol o ymddygiad neu ddangos sut y dylai'r paneli roi'r canllawiau newydd ar waith. Ymhlith y ceisiadau, roedd galwadau am enghreifftiau o gamau cywiro llwyddiannus ac aflwyddiannus; senarios cadarnhaol lle mae unigolion cofrestredig wedi defnyddio'r gorchymyn interim i gymryd camau cywiro effeithiol; sut dylai paneli bwyso a mesur ffactorau megis ailadrodd, cymhelliant a niwed i hyder y cyhoedd; camymddygiad â chymhelliant rhywiol; a chamymddygiad tuag at gydweithwyr. Nododd ymatebwyr y byddai'r enghreifftiau hyn yn darparu mwy o gydbwysedd, yn cefnogi paneli wrth iddynt wneud eu penderfyniadau, ac yn hyrwyddo dull tecach a mwy holistaidd o ymwneud â'r prosesau a amlinellir yn y polisi.

#### Ymateb yr HCPC

4.5 Rydym yn gwerthfawrogi'r galwadau am ragor o enghreifftiau a senarios wedi'u seilio ar achosion i ddangos sut y dylai'r paneli weithredu'r polisi yn ymarferol.

4.6 Er ein bod yn croesawu'r awydd i gael rhagor o egdurder, rhaid i bob achos gael ei ystyried ar sail ei ffeithiau ac amgylchiadau penodol ei hun. Ni fyddai'n briodol cynnwys enghreifftiau manwl o achosion o fewn y polisi sancsiynau ei hun, oherwydd y gallai hynny, yn anfwriadol, greu synnwyr o gynsail neu gyfyngu ar ddisgresiwn paneli. Byddai darparu enghreifftiau sy'n gysylltiedig â sancsiynau penodol yn niweidiol o safbwynt ein nodau canolog o sicrhau canlyniadau teg a chymesur sy'n diogelu'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Mae'n hollbwysig o safbwynt y polisi a'n prosesau bod paneli'n dal i fod â disgresiwn i ystyried yr holl ffactorau perthnasol o ran cyd-destun, a'r elfennau lliniarol ac elfennau sy'n gwaethygu pethau wrth benderfynu ar sancsiwn. Yn hytrach, byddwn yn parhau i ddarparu dysgu sy'n seiliedig ar

achosion, diweddariadau cyfreithiol, ac engreifftiau darluniadol i baneli drwy ein nodiadau ymarfer, hyfforddiant, a chyhoeddiadau rheolaidd.

4.7 Rydym yn cydnabod yr adborth oedd yn awgrymu bod y polisi drafft yn canolbwyntio'n bennaf ar senarios negyddol ac yn awgrymu y dylid cynnwys enghreifftiau cadarnhaol er mwyn annog dull mwy holistaidd o weithio wrth ystyried gorchmynion interim. Diben y polisi ydy dangos sut y dylai paneli ymateb mewn modd cymesur i wahanol fathau o bryderon rheoleiddiol yn hytrach na chyflwyno darlun cytbwys o'r holl ganlyniadau posib. Rydym yn credu bod y canllawiau'n taro ar y cydbwysedd iawn drwy ganolbwyntio ar ddifrifoldeb y cam hwn yn y broses FTP ond gan barhau i gydnabod yr elfennau lliniarol y mae'n rhaid i baneli eu hystyried wrth benderfynu ar y sancsiwn mwyaf priodol a chymesur.

**Pryderon ynglŷn ag adroddiadau blinderus neu faleisus**

4.8 Rydym yn cydnabod bod yr ymatebwyr yn bryderus ynglŷn â chamddefnydd o'r broses adrodd FTP ac yn poeni y bydd cwynion blinderus neu faleisus yn cael effaith negyddol ar unigolion cofrestredig, yn enwedig pan fydd adroddiadau o'r fath yn cael eu gwneu mewn modd rhagfarnllyd yn erbyn unigolion cofrestredig rhyngwladol, anabl neu o leiafrifoedd eraill. Mynegodd ymatebwyr bryder penodol ynglŷn â chwynion blinderus sy'n gysylltiedig â gorchmynion interim, anonestrwydd, a chamymddygiad â chymhelliant rhywiol.

4.9 Dadleuodd chwech o ymatebwyr (11%), gan gynnwys unigolion cofrestredig sydd â phrofiad personol o achosion FTP, fod y polisi'n dal i fethu â diogelu gweithwyr proffesiynol yn ddigonol rhag cwynion ffug neu flinderus, nad yw'n gymesur, ac y gall waethygu stigma yn erbyn y rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl neu niwroamrywiaeth. Cyfeiriodd un ymatebydd hefyd at brofiadau o gael eu rhoi dan orchymyn interim o ganlyniad i'r hyn oedd yn gwynion blinderus neu ddi-sail yn eu barn nhw. Mynegodd ymatebydd arall bryder bod rheolwyr neu gyflogwyr yn camddefnyddio'r bygythiad o atgyfeirio i'r HCPC i fygwth staff.

### Ymateb yr HCPC

4.10 Rydym yn cydnabod pryderon ynglŷn â chamddefnydd posib o atgyfeiriadau i'r HCPC a risgiau o ragfarn yn erbyn unigolion cofrestredig rhyngwladol, anabl neu leiafrifol ar ffurf cwynion maleisus neu flinderus. Fodd bynnag, mae'r pryderon hynny y tu hwnt i gwmpas y polisi sancsiynau ac mae'n fwy priodol iddynt gael sylw yn ein prosesau trothwy ac ymchwilio. Ar y cam sancsiynau, bydd y paneli eisoes wedi cadarnhau'r ffeithiau sydd wedi'u profi ac wedi penderfynu bod amharu wedi bod ar addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer. Rydym wedi rhannu'r pryderon hyn a fynegwyd gan randdeiliaid â'n tîm FTP er mwyn dylanwadu ar eu gwaith parhaus mewn perthynas â'r prosesau trothwy ac ymchwilio.

4.11 Mae camau amrywiol yn y broses FTP yn helpu i liniaru ar y risg y mae rhanddeiliaid wedi'u nodi. Drwy gydol y broses, caiff tystiolaeth ei hasesu yn wrthrychol ar bob cam, gan sicrhau cysondeb a thegwch. Ceir craffu ar y dystiolaeth gan banel annibynnol yng nghamau Panel y Pwyllgor Ymchwilio a'r gwrandawiad terfynol. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y Pwyllgor Ymchwilio yn derbyn tystiolaeth gynhwysfawr sydd wedi ei pharatoi'n dda yn gynnar yn ystod y broses. Mae hynny'n darparu mesurau diogelu pwysig rhag atgyfeiriadau di-sail, gan gynnwys y rhai sy'n rhagfarnllyd, ac yn cefnogi asesiad cadarn o achos i'w ateb.

4.12 Er mwyn i achos gyrraedd y cam sancsiynau, rhaid iddo basio'r asesiad trothwy yn gyntaf a chael ei ystyried yn un sydd ag achos i'w ateb gan Banel Pwyllgor Ymchwilio annibynnol. Rhaid wedyn i banel annibynnol benderfynu bod amharu wedi bod ar addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer cyn y gall y panel fynd ymlaen i ystyried a oes angen sancsiwn er mwyn mynd i'r afael â'r risg i ddiogelwch y cyhoedd sy'n deillio o'r amhariad hwnnw. Caiff y paneli eu hatgoffa y dylent asesu cyd-destun, bwriad, a thystiolaeth ategol yn drylwyr drwy gydol cam y gwrandawiad terfynol. Mae'r broses aml-gam hon yn sicrhau na fydd honiadau sy'n gwbl ddi-sail, blinderus, neu faleisus yn mynd ymlaen i'r cam sancsiynau.

4.13 Yn unol â'r adborth ac er mwyn rhoi mwy o hyder i randdeiliaid, rydym wedi ychwanegu nodyn esboniadol byr yn y polisi diwygiedig i'w gwneud yn fwy eglur y bydd yr honiadau wedi'u profi erbyn i'r achos gyrraedd y cam sancsiynau, ac y bydd amhariad wedi'i gadarnhau gan banel annibynnol.

### Cyfeiriadau at gyfraith achosion

4.14 Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr sefydliadol a rhai unigolion bwysigrwydd cyfeirio at gyfraith achosion berthnasol er mwyn sicrhau bod y polisi'n parhau'n gydnaws â safonau cyfreithiol sydd wedi'u sefydlu. Daeth ymatebion a oedd yn gwneud cais am gyfeiriadau at gyfraith achosion i law yn y cwestiynau ynglŷn â gorchmynion interim,[10] gorchmynion gwahardd dros dro,[11] difrifoldeb a bai,[12] ac ymddygiad rhywiol ac ymddygiad â chymhelliant rhywiol.[13]

[10] Cyfeiriodd ymatebwyr at Kamberova v NMC [2016] EWCA Crim 2955, ond mae General Dental Council v Aga [2025] EWCA Civ 68 yn achos mwy diweddar ac yn cadarnhau ein dull o weithio mewn perthynas â gorchmynion interim.
[11] General Medical Council v Bramhall [2021] EWHC (2109) (Admin)
[12] Bolton v The Law Society [1993] Ch 480
[13] Basson v General Medical Council [2018] EWHC 505 (Admin) a General Medical Council v Dr Raied Haris [2020] EWHC 2518 (Admin)

### Ymateb yr HCPC

4.15 Rydym yn nodi'r adborth sy'n gofyn am gyfeiriadau mwy eglur at gyfraith achosion berthnasol er mwyn sicrhau cysondeb ag egwyddorion cyfreithiol sefydledig. Rydym o'r farn bod y polisi sancsiynau eisoes yn gyson â'r gyfraith achosion ddiweddaraf. Lle bo hynny'n berthnasol yn y polisi, rydym wedi gwneud mân-ddiwygiadau i'r iaith er mwyn adlewyrchu'r egwyddorion a'r dulliau o weithio a amlinellir mewn cyfraith achosion yn well.

4.16 Nid ydym, serch hynny, yn cytuno y byddai darparu cyfeiriadau at gyfraith achosion yn gwela eglurder, defnyddioldeb, na chysondeb y polisi. Mae cyfraith achosion yn esblygu'n rheolaidd. Rydym yn credu y gallai ymgorffori cyfeiriadau penodol yn y polisi olygu bod angen adolygiadau ac ymgynghoriadau mynych er mwyn ei gadw'n gyfoes, ac y galllai hynny arafu diweddariadau a chreu ansicrwydd i baneli. Yr hyn sy'n bwysig yn ein barn ni ydy'r egwyddorion sy'n deillio o gyfraith achosion, yn hytrach na chyfeirio at achosion unigol. Lle bo angen, gall asesydd cyfreithiol gynghori paneli ynglŷn â'r gyfraith achosion berthnasol ar gyfer mater penodol, ac fe ddylai hynny ddigwydd. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein nodiadau ymarfer, hyfforddiant, a chyhoeddiadau rheolaidd i ddarparu dysgu sy'n seiliedig ar achosion, cyfraith achosion perthnasol, ac enghreifftiau eglurhaol i'r paneli lle bo hynny'n berthnasol.

4.17 Yn ogystal, gallai cynnwys awdurdod achosion yn uniongyrchol o fewn y polisi, hyd yn oed fel troednodiadau, roi naws mwy technegol a llai hygyrch i'r ddogfen. Rydym wedi mynd ati'n fwriadol i geisio creu polisi y gall unigolion cofrestredig ei ddefnyddio, yn ogystal â phanelwyr a chynrychiolwyr cyfreithiol, gan gydnabod bod oddeutu 65% o'r unigolion cofrestredig heb gynrychiolaeth.

4.18 Mae cadw at ddull gweithio sy'n seiliedig ar egwyddorion yn sicrhau bod y polisi'n parhau'n hyblyg, yn hawdd ei ddefnyddio, ac yn gydnaws â'r gyfraith gyfredol, tra'n caniatáu i aseswyr cyfreithiol roi arweiniad i baneli ynglŷn â'r awdurdodau mwyaf perthnasol a chyfredol.


## Crynodeb o'r adborth ynglŷn â chynigion a'n hymateb ni

**<u>Cynnig 1: Gorchmynion gwahardd dros dro</u>**

4.19 Gwnaethom gynnig i'w gwneud yn fwy eglur pryd mae gorchmynion gwahardd dros dro yn briodol ac y gallai gorchymyn diarddel fod yn angenrheidiol o hyd yn hytrach na gorchymyn gwahardd dros dro, mewn achosion lle mae ei angen er mwyn diogelu'r cyhoedd a chynnal ystyriaethau ehangach mewn perthynas â budd y cyhoedd.

**Cwestiwn 1: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â gorchmynion gwahardd dros dro?**

Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom holi'r ymatebwyr am eu barn ynglŷn â'n cynnig ar gyfer gorchmynion gwahardd dros dro.




4.20 Mynegodd 41 o'r 57 (72%) o'r ymatebwyr eu bod yn dytuno neu'n cytuno'n gryf â'r newidiadau arfaethedig, gan groesawu canllawiau mwy eglur ynglŷn â phryd mae gwaharddiad dros dro yn briodol a'r pwyslais ar gymesuredd a diogelu'r cyhoedd. Roedd llawer yn teimlo y byddai'r newididau yn gwella cysondeb a hyder y cyhoedd, er bod rhai wedi gofyn am ddiffiniadau mwy eglur ac enghreifftiau ymarferol i helpu i gael penderfyniadau cyson a theg.

4.21 Roedd lleiafrif (wyth ymatebydd, 14%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac yn codi pryderon ynglŷn ag eglurder, tegwch, effeithiau anghymesur posib ar unigolion cofrestredig, (gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig), canlyniadau anfwriadol posib a risgiau y gallai gwaharddiada gael eu defnyddio mewn modd rhy gosbedigaethol.

4.22 Rhoddodd saith ymateb niwtral (14%), ac un ymatebydd a nododd nad oedd yn gwybod, sylw i'r angen am eglurder ynglŷn â gorchmynion interim , diffiniadau mwy eglur ac enghreifftiau dangosol.

4.23 Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid o'r farn bod gwaharddiadau dros dro yn arf angenrheidiol ond yn pwysleisio y dulid ei ddefnyddio mewn modd tryloyw, teg, a gyda chyfleoedd ar gyfer camau cywiro lle bo'n briodol.

## Dadansoddiad thematig o'r ymatebion ynglŷn â gorchmynion gwahardd dros dro

### C1 – Gorchymyn gwahardd dros dro: Eglurder a chysondeb

4.24 Roedd o leiaf ddeg ymatebydd yn croesawu'n benodol y geiriad cliriach ynglŷn â phryd mae gwaharddiad dros dro yn briodol. Nododd rhai y byddai'r

newidiadau yn helpu paneli i osod sancsiynau mewn modd mwy cyson a thryloyw, gan gryfhau hyder y cyhoedd.

4.25 Roedd chwe ymatebydd eisiau canllawiau mwy eglur ynglŷn â'r berthynas rhwng gwahardd dros dro a sancsiynau eraill (gan gynnwys amodau ymarfer a gorchmynion interim). Awgrymodd pedwar ymatebydd y dylid ychwanegu geiriad diamwys i sictrhau bod paneli yn egluro pam mai gwahardd dros dro, yn hytrach nag amodau neu ddiarddel, sy'n briodol, ac roedd dau ymatebydd yn awyddus i gael eglurder ynglŷn â sut y caiff cyfnodau gorchmynion interim eu hystyried wrth asesu camau cywiro.

4.26 Roedd tri ymatebydd wedi argymell y dylai'r HCPC gysoni'r strwythur, y derminoleg, a'r rhesymeg gyda'r rhai a ddefnyddir gan reoleiddwyr iechyd eraill (gyda rhai yn cyfeirio at fframweithiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), neu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)/ Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Ymarferwyr Meddygol (MPTS)). Gwnaethon nhw awgrymu hefyd y dylid cael trefn fwy eglur i strwythur y polisi sancsiynau drwy osod gwahardd dros dro cyn diarddel a thrwy groesgyfeirio.

### Ymateb yr HCPC

4.27 Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol gan yr ymatebwyr i'r mynegiant mwy eglur ynlŷn â phryd mae gwaharddiad dros dro yn briodol, yn enwedig y pwyslais ar ymddygiad sy'n ddifrifol ond nad yw'n sylfaenol anghydnaws â pharhau i fod yn gofrestredig. Rydym yn falch bod ymatebwyr wedi cydnabod gwerth yr eglurhad hwn o ran cefnogi proses gwneud penderfyniadau mwy cyson, tryloyw, a chymesur gan baneli.

4.28 Nodwn y ceisiadau gan rai rhanddeiliaid am ragor o eglurder ynglŷn â'r berthynas rhwng gwahardd dros dro a sancsiynau eraill, gan gynnwys amodau ymarfer a diarddel. Rydym yn cytuno y gellid gwella'r adran i gael gwell eglurder a chymesuredd ac rydym wedi diwygio'r adrannau perthnasol. Mae'r polisi yn rhoi cyfarwyddyd eglur i baneli ystyried gwahardd dros dro fel opsiwn cymesur cyn penderfynu bod achos yn galw am ddiarddel ac iddynt fynegi eu rhesymeg yn eglur dros ddewis y sancsiwn mwyaf priodol. Rydym hefyd wedi ystyried ble gellir cryfhau croesgyfeiriadau i wneud y perthnasoedd hyn yn fwy eglur.

4.29 Argymhellodd rhai rhanddeiliaid y dylid cysoni ein terminoleg a'n strwythur gyda rheoleiddwyr eraill megis y GMC neu'r NMC. Ar draws y tirlun rheoleiddio, rhaid i'n polisi adlewyrchu'r cyd-destun penodol rydym yn gweithio ynddo. Mae'r HCPC yn rheoleiddio ystod amrywiol o broffesiynau gyda gwahanol leoliadau ymarfer, disgwyliadau rhanddeiliaid, a fframweithiau rheoleiddio. O'r herwydd, ni fyddai cysondeb llwyr bob amser yn briodol neu'n effeithiol. Fodd bynnag, rydym wedi adolygu'r drefn a'r defnydd o derminoleg yn y polisi er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb â'n prosesau a'n dull gweithio ein hunain.

**C1 – Gorchymyn gwahardd dros dro: Yr angen am ganllawiau mwy eglur ac enghreifftiau**

4.30 Thema a gododd sawl gwaith gydag o leiaf 13 o ymatebwyr (23%) oedd y byddai canllawiau mwy eglur yn gwella cysondeb rhwng paneli, yn cefnogi tegwch, ac yn cryfhau hyder y cyhoedd yn y broses rheoleiddio.

4.31 Tynnodd ychydig o ymatebion sylw at yr angen am ddiffiniadau mwy eglur ar gyfer termau megis 'dirprwyo'n briodol', 'pryder difrifol', 'sylfaenol anghydnaws', a'r 'trothwy' ar gyfer pryd mae pryder yn cyfiawnhau gwaharddiad dros dro; ac am ganllawiau ymarferol ynglŷn â sut mae gwahardd dros dro yn rhyngweithio â chamau cywiro a gorchmynion interim. Ychwanegodd un sefydliad y dylem gynnwys datganiad diamwys i ddweud 'na fydd camymddygiad rhywiol yn addas fel arfer ar gyfer gwaharddiad dros dro -oherwydd mai diarddel yw'r ymateb cymesur i ymddygiad sy'n sylfaenol anghydnaws".

4.32 Roedd o leiaf ddau ymatebydd yn teimlo y byddai'r newidiadau strwythurol a golygyddol arfaethedig yn gwneud y polisi sancsiynau yn fwy hygyrch ac yn haws ei ddehongli. Gwnaeth un ohonynt argymhelliad pellach y dylid gwahanu'r adran ynglŷn â phryd mae gorchymyn gwahardd dros dro yn briodol i baragraff newydd a diwygio paragraff 144 y polisi arfaethedig er mwyn cysoni â chyfraith achosion,[14] gan nodi y byddai hynny'n gwella eglurder ac yn gwneud y ddogfen yn fwy gwrthrychol.

### Ymateb yr HCPC

4.33 Er mwyn ymateb i'r pryderon ynglŷn â therminoleg a strwythur y ddogfen, rydym wedi cynnwys rhagor o groesgyfeiriadau rhwng pynciau perthnasol yn ogystal â cyfeirio yn y polisi sancsiynau at nodiadau ymarfer perthnasol i helpu paneli i gymhwyso'r egwyddorion cywir.

4.34 Ynglŷn â galwadau i ddiffinio 'pryder difrifol' a 'dirprwyo'n briodol', mae adran ar achosion difrifol yn bodoli eisoes ac wedi'i amlinellu ar dudalen 75 y polisi drafft, ac rydym bellach wedi cynnwys croesgyfeiriad amlwg at hyn yn y polisi diwygiedig. Yn yr un modd, mae ein safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg eisoes yn diffinio'r disgwyliadau ynglŷn â dirprwyo, ac rydym wedi cyfeirio at y safonau hyn yn hytrach na chynnwys enghreifftiau rhagnodol o ystyried yr ystod eang o broffesiynau a lleoliadau ymarfer rydym yn eu rheoleiddio.

4.35 Nid ydym yn cytuno y dylem gynnwys y frawddeg benodol a awgrymwyd ynglŷn â chamymddwyn rhywiol gan ei bod yn anghyson â'r gyfraith achosion ddiweddaraf[15] sy'n caniatáu i baneli ddefnyddio eu disgresiwn i benderfynu ar raddfa'r camymddygiad ac i wneud penderfyniadau ar sail rhinweddau'r achos.

---

[14] PSA v NMC a Kadiatu Jalloh (2023) EWHC 3331 (Admin)
[15] Gweler General Medical Council v Bramhall [2025] EWHC 899 (Admin), paragraff 82

Ymhellach, mae hyn y tu hwnt i gwmpas ein pwerau a osodwyd mewn deddfwriaeth.

4.36 Yn olaf, i ymateb i'r adborth, rydym hefyd wedi adolygu strwythur paragraff 144 (paragraffau 169-170 yn y polisi diwygiedig) i wella eglurder i baneli.

**C1 – Gorchymyn gwahardd dros dro: Cydbwyso cymesuredd a chamau cywiro**

4.37 Roedd lleiafrif bach o'r ymatebwyr (tri) yn cwestiynu a ydy paneli'r HCPC yn cymhwyso egwyddor cymesuredd yn gywir bob amser. Roedd un a oedd yn anghytuno yn dadlau bod gwahardd dros dro yn gallu cosbi hyd yn oed cyn y profir euogrwydd neu amhariad. Gwnaethnon nhw bwysleisio effaith gwaharddiad dros dro yn gymdeithasol, yn ariannol ac ar enw da.

4.38 Awgrymodd nifer o ymatebwyr (pump) na ddylai gwahardd dros dro fod yn gosbedigaethol, ond yn hytrach yn gyfle ar gyfer camau cywiro. Rhybuddiodd rhai y gallai gwaharddiadau dros dro gael eu gosod yn ddiangen os bydd camau cyiwro eisoes wedi digwyd (e.e. yn ystod gorchymyn interim), neu lle byddai amodau ymarfer yn ddigonol. Roedd tri ymatebydd yn croesawu cyfeiriadau at fewnwelediad, camau cywiro, a dysgu, gan nodi fod y rhain yn gyson ag ymagwedd adsefydlol tuag at reoleiddio. Er eu bod yn cytuno y dylai paneli bwyso a mesur gwahardd dros dro o gymharu â diarddel, roeddent yn teimlo y gallai'r polisi sancsiynau, fel yr oedd wedi'i ddrafftio ym mharagraff 145, lywio paneli tuag at ddiarddel heb ystyried yn llawn a yw gwaharddiad dros dro yn briodol.

### Ymateb yr HCPC

4.39 Rydym yn cydnabod y pryderon y gallai paneli beidio â chymhwyso egwyddor cymesuredd yn gywir bob amser, ac y gall gwaharddiad dros dro fod ag oblygiadau cymdeithasol, ariannol, ac enw da sylweddol i'r unigolion cofrestredig. Rhaid i baneli roi ystyriaeth ddifrifol i'r effeithiau hyn wrth ystyried a oes angen gwaharddiad dros dro. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod ymagwedd yr HCPC yn gosbedigaethol nac yn anghymesur. Mae'r broses FTP yn bodoli er mwyn diogelu'r cyhoedd, cynnal hyder yn y proffesiynau, a chynnal safonau proffesiynol, nid i gosbi unigolion cofrestredig (gweler paragraff 18 y polisi diwygiedig).

4.40 Ni ddylai gwaharddiad dros dro, nac unrhyw sancsiwn arall, fyth gael ei osod gyda'r bwriad i gosbi. Disgwylir i baneli ystyried a phwyso a mesur yr holl elfennau sy'n gwaethygu pethau a'r elfennau lliniarol, gan gynnwys a oes camau cywiro wedi digwydd, neu a fyddai sancsiwn llai cyfyngol megis amodau ymarfer yn sicrhau diogelwch y cyhoedd yn ddigonol (gweler paragraff 27 y polisi diwygiedig). Lle bydd camau cyiro wedi digwydd yn barod, disgwylir i baneli ystyried yn ofalus a yw gwaharddiad dros dro yn briodol yn yr amgylchiadaui ac yn parhau'n angenrheidiol er diogelu'r cyhoedd.

4.41 Rydym yn anghytuno â'r awgrym y dylai gwaharddiad dros dro fgael ei fframio'n bennaf fel cyfle ar gyfer camau cywiro. Er y gallai gwaharddiad dros dro gynnig cyfle ar gyfer camau cywiro, ei brif ddiben ydy diogelu'r cyhoedd a chynnal hyder yn y proffesiwn lle nad oes modd cyflawni hynny drwy fodd llai cyfyngol. Ymhellach, mae unrhyw gamau cywiro sy'n digwydd yn ystod gwaharddiad dros dro y tu hwnt i gwmpas y polisi hwn ac mae hyn yn cael sylw yn Nodyn Ymarfer HCPTS ar *Adolygu Erthygl 30 Gorchmynion Sancsiynu*.

4.42 Fel ymateb i adborth ynglŷn â pharagraff 145 y polisi drafft, rydym wedi cryfhau'r canllawiau i baneli ynglŷn â gorchmynion gwahardd dros dro drwy ailddrafftio'r adran (gweler paragraff 169-170 yn y polisi diwygiedig).

**C1 – Gorchymyn gwahardd dros dro: Pryderon ynglŷn â thegwch a chamwahaniaethu posib**

4.43 Cododd pedwar ymateb bryderon ehangach nad yw prosesau'r HCPC yn caniatáu'n ddigonol ar gyfer hawliau unigolion cofrestredig, yn enwedig y rhai sydd ag anableddau neu nodweddion gwarchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Dadleuodd tri ymateb y gallai gwahardd dros dro fod o anfantais i unigolion cofrestredig mewn modd anghymesur, er enghraifft drwy niwed i enw da neu effetihiau yn y gweithle mewn lleoliadau prin eu hadnoddau.

4.44 Roedd awgrym hefyd y dylid gwneud canllawiau ynglŷn â gwaharddiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn fwy eglur, yn benodol ymdrin â chamwahaniaethu canfyddedig yn erbyn cyflyrau iechyd meddwl o gymharu â chyflyrrau iechyd corfforol a darparu rheolau eglur ynglŷn â phryd mae rhaid i unigolion cofrestredig hunan-ddatgan materion iechyd. Ychwanegodd rhanddeiliad arall bod angen i'r cynnig adlewyrchu'r amgylchedd gwaith sy'n newid a'r bil cyflogaeth newydd sydd ar y gweill.

### Ymateb yr HCPC

4.45 Rydym yn cymryd pryderon a godir ynglŷn â hawliau pob unigolyn cofrestredig yn ystod y broses FTP o ddifrif, gan gynnwys hawliau'r rhai sydd ag anableddau neu nodweddion gwarchodedig. Ers 2023, rydym wedi bod yn cyhoeddi data[16] ynglŷn â nodweddion gwarchodedig unigolion cofrestredig sy'n ymwneud ag achosion FTP, ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn ystyried ffyrdd o ddadansoddi canlyniadau arlefel uwch er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder. Rydym yn parhau hefyd â gwaith sefydliadol ehangach ar degwch wrth wneud penderfyniadau, gyda chefnogaeth gan brosiectau ymchwil a gwella sydd ar droed.

4.46 Mae paneli eisoes yn ystyried amgylchiadau penodol unigolyn cofrestredig gan gynnwys cyd-destun y gweithle, profiad bywyd, a chyflyrau iechyd fel rhan o'u

[16] Data ac adroddiadau addasrwydd i ymarfer | Yr HCPC

hasesiad o liniaru a chamau cywiro. Mae'r polisi sancsiynau a'r nodiadau ymarfer yn atgyfnerthu'r disgwyliad hwn, ac rydym wedi sicrhau y caiff hyn ei adlewyrchu'n eglur yn y polisi sancsiynau diwygiedig (er enghraifft, gweler paragraff 82 y polisi diwygiedig).

4.47 O safbwynt y pryderon y gallai paneli drin cyflyrau iechyd meddwl yn wahanol i gyflyrau iechyd corfforol, rydym wedi cynnwys paragraff 82 i atgyfnerthu'r disgwyliad y dylai paneli ystyried yr holl ffactorau iechyd perthnasol wrth benderfynu ar sancsiynau a chymhwyso elfennau lliniarol ac elfennau sy'n gwaethygu pethau yn gyson.

**C1 – Gorchymyn gwahardd dros dro: Diogelwch y cyhoedd a diogelu**

4.48 Pwysleisiodd 14 a oedd yn rhoi cefnogaeth gref i'r newidiadau fod canllawiau mwy eglur ynglŷn â gwahardd dros dro yn cryfhau diogelu ac yn diogelu hyder y cyhoedd, yn enwedig mewn achosion sy'n ymwneud â methiannau diogelu, anonestrwydd, neu gamymddygiad.

4.49 Roedd ambell ymateb (pump), fodd bynnag, yn rhybuddio y gallai cymhwyso gorchmynion gwahardd dros dro mewn modd gor-llym neu wedi'i ddiffinio'n wael erydu tegwch ac ymddiriedaeth, gydag un ymatebydd yn disgrifio'r ymagwedd fel un 'rhy ddraconaidd'. Roedd un arall o'r farn bod yr HCPC yn gorymestyn y tu hwnt i'w gylch gorchwyl rheoleiddio, gan ddadlau bod y broses yn ymyrryd â materion cyflogaeth ac yn tewi gweithwyr proffesiynol.

4.50 Roedd un ymatebydd yn cytuno â'r cynnig ond yn mynegi pryderon ynglŷn a gallu'r HCPC i weithredu'r newidiadau'n effeithiol, o ystyried heriau parhaus gyda phrydlondeb. Roedden nhw'n pwysleisio bod rhaid cael hyfforddiant i baneli a bod yn barod yn weithredol i gyd-fynd â'r newidiadau polisi er mwyn osgoi eu cymhwyso'n anghyson.

### Ymateb yr HCPC

4.51 Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gref gan ymatebwyr a oedd yn cytuno bod canllawiau mwy eglur ynglŷn â gwahardd dros dro yn cryfhau diogelwch y cyhoedd a hyder yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio.

4.52 Rydym yn nodi adborth rhanddeiliaid sy'n disgrifio'r ymagwedd fel un rhy llym, wedi'i diffinio'n wael, neu 'ddraconaidd', ac rydym hefyd yn nodi'r pryderon y gallai'r HCPC fod yn gorymestyn y tu hwnt i'w gylch gorchwyl rheoleiddio neu'n wynebu heriau gweithredol wrth weithredu'r newidiadau o fewn y llinell amser bresennol. Er nad yw'r holl adborth yn uniongyrchol gysylltiedig â chynnwys y polisi, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ei weithredu'n effeithiol.

4.53 Nid ydym yn credu bod y newid arfaethedig i orchmynion gwahardd dros dro yn cyflwyno cymhlethdod ychwanegol. Yn hytrach, mae'n rhoi gwell eglurder a


strwythur. Nid yw'r adolygiad yn golygu newid i safbwynt polisi, yn hytrach mae'n fynegiant o egwyddorion presennol. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi hyn drwy hyfforddiant i baneli, sicrhau ansawdd, a gwelliannau parhaus yn y prosesau rheoli achosion. Er mwyn mynd i'r afael ymhellach â'r pryder ynglŷn â bod yn rhy llym neu ddraconaidd, mae'r polisi bellach yn cynnwys esboniad ychwanegol sy'n amlinellu sut y bwriedir iddo hyrwyddo penderfyniadau teg, cymesur, a chyson sy'n cydbwyso diogelu'r cyhoedd â thegwch i unigolion cofrestredig.

**Cynnig 2: Gorchmynion interim**

4.54 Gwnaethom gynnig y dylid ei gwneud yn eglur sut dylai paneli ystyried gwybodaeth bod unigolyn cofrestredig wedi bod yn destun gorchymyn interim cyn y gwrandawiad terfynol wrth iddynt benderfynu ar ganlyniad terfynol.[17]

**Cwestiwn 2: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â gorchmynion interim?**

4.55 Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom holi'r ymatebwyr am eu barn ynglŷn â'n cynnig ar gyfer gorchmynion interim.




4.56 Roedd mwyafrif o 45 ymatebydd allan o 57 (79%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â gorchmynion interim, gydag ymatebwyr yn gwerthfawrogi gwell eglurder, cymesuredd, a chysondeb yn y modd y caiff y gorchmynion hyn eu gosod a'u hystyried mewn perthynas â sancsiynau.

4.57 Cydnabuwyd bod gorchmynion interim yn erfyn diogelu pwysig, ond pwysleisiodd ymatebwyr y dylai paneli ystyried pob achos yn unigol, gan gynnwys ystyriaeth i gamau cywiro, mewnwelediad, a chyd-destun. Fodd bynnag, roedd saith (12%) o ymatebwyr yn niwtral, a phump (9%) naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, gan godi pryderon ynglŷn â thegwch,

[17] GDC v Aga [2025] EWCA Civ 68. Mae'r achos hwn yn amlinellu na ddylai paneli ystyried 'amser a dreuliwyd' dan orchymyn interim wrth benderfynu ar hyd sancsiwn o sylwedd.

cymesuredd, a rhagfarn bosib yn y broses FTP, yn ogystal ag effaith gorchmynion interim yn y byd go iawn ar fywoliaeth a llesiant unigolion cofrestredig.

## Dadansoddiad thematig o'r ymatebion ynglŷn â gorchmynion interim

### C2 – Gorchmynion interim: Eglurder a chanllawiau

4.58 Roedd llawer o ymatebwyr (14) yn croesawu'r mynegiant mwy eglur ynglŷn a sut mae gorchmynion interim yn wahanol i sancsiynau, a'r pwyslais ar gymesuredd fesul achos. Roedd pedwar ymateb yn amlygu bod y drafft nawr yn gwahaniaethu'n eglur rhwng diben warchodol gorchmynion interim a diben sancsiynol penderfyniadau ar ôl gwrandawiadau.

4.59 Giofynnodd tri ymatebydd am ganllawiau ychwanegol ynglŷn â sut y dylai paneli bwyso a mesur cyfnodau gorchmynion interim wrth osod sancsiwn ac ynglŷn â'r egwyddorion sy'n sail i'r berthynas rhwng gorchmynion interim a sancsiynau sylweddol.

## Ymateb yr HCPC

4.60 Rydym yn coresawu'r gefnogaeth gref gan ymatebwyr i'r gwahaniaethu mwy eglur rhwng gorchmynion interim a sancsiynau. Diben gorchmynion interim ydy diogelu'r cyhoedd yn ystod ymchwiliad, tra caiff sancsiynau eu gosod ar ôl canfyddiad o amhariad yn unig. Rydym yn cytuno bod cynnal y gwahaniaethu hwn yn cefnogi cymesuredd, cysondeb a hyder y cyhoedd yn y broses FTP, ac rydym wedi ychwanegu iaith i ddiffinio diben gorchmynion interim yn fwy eglur a sut maent yn berthnasol i'r broses sancsiynau ym mharagraff 34 y polisi diwygiedig.

4.61 Er ein bod yn gwerthfawrogi'r awydd am fwy o eglurder, mae gorchmynion interim yn fesurau hynod benodol fesul achos a ddefnyddir i reoli risg barhaus yn hytrach nag i osod sancsiynau. Mae'r egwyddorion a ddarperir yn y polisi sancsiynau yn canolbwyntio'n fwriadol ar sefyllfaoedd lle mae pryderon wedi codi, gan adlewyrchu natur ddifrifol y broses ac mai dim ond pan fydd rhwybeth wedi mynd o'i le ac y gall fod risg i ddiogelwch y cyhoedd y caiff sancsiynau eu gosod.

### C2 – Gorchmynion interim: Tegwch a diogelu'r cyhoedd

4.62 Roedd o leiaf naw ymatebydd cefnogol yn gweld y cynnig fel cam cadarnhaol ar gyfer cysondeb a thryloywder, gan sictrhau bod paneli yn deall mai diben diogelu sydd i orchmynion interim ac nid swyddogaeth gosbedigaethol. Roeddent yn cytuno bod y polisi diwygiedig yn cryfhau diogelwch y cyhoedd ac yn osgoi tynnu amser yn fympwyol neu'n anghyson o sancsiynau sylweddol. Roedd pump ymatebydd yn teimlo hefyd y bydd y strwythur mwy eglur yn helpu i gynnal hyder y cyhoedd mewn canlyniadau rheoleiddio.

4.63 Pwysleisiodd rhai ymatebwr (chwech) bwysigrwydd rhoi manylion pellach i baneli, megis asesiad unigol, gan nodi bod rhaid i bod achos ystyried amgylchiadau penodol yr unigolyn cofrestredig, eu hymddygiad, a’r camau cywiro yn ystod y cyfnod interim. Ychwanegodd eraill y dylid ystyried diffyg cydymffurfio â gorchmynion interim, ac y dylid rhoi cydnabyddiaeth gadarnhaol i gydymffurfio neu gamau cywiro rhagweithiol. Fodd bynnag, roedd o leiaf dri ymatebydd yn teimlo y dylid cynnwys ‘amser a dreuliwyd’ yng nghyfanswm y sancsiwn a roddir dan gyfnod o waharddiad dros dro.

4.64 Pwysleisiodd o leiaf bedwar ymatebydd bod gorchmynion interim yn hollbwysig ar gyfer diogelu’r cyhoedd tra bydd ymchwiliadau yn mynd rhagddynt, yn enwedig mewn achosion risg uchel megis diogelu plant neu gamymddygiad proffesiynol difrifol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebion yn teimlo mai dim ond pan mae eu gwir angen y dylid gosod gorchmynion interim, ac roedd un ymatebydd eisiau cydnabyddiaeth yn y polisi sancsiynau fod defnydd diangen neu gynamserol o orchmynion interim yn gallu peri niwed enw da, emosiynol, ac ariannol i unigolion cofrestredig.

4.65 Pwysleisiodd rhai bwysigrwydd ystyried mewnwelediad, camau cywiro, ac ymgysylltiad unigolion cofrestredig wrth benderfynu a ddylid gosod gorchymyn interim. I’r gwrthwyneb, roedd rhai yn teimlo nad yw gorchmynion interim yn cael eu gosod yn ddigon buan mewn achosion diogelu neu anonestrwydd difrifol, gan gyfeirio at enghreifftiau lle’r honnir bod oedi cyn cymryd camau interim wedi arwain at niwed neu risg pellach i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

### Ymateb yr HCPC

4.66 Rydym yn croesawu’r gefnogaeth i’n hymagwedd o sicrhau bod paneli’n deall gorchmynion interim ac yn osgoi penderfyniadau mympwyol neu anghyson.

4.67 Rydym yn cytuno bod rhaid i baneli fabwysiadu ymagwedd unigol, gan ystyried amgylchiadau pob unigolyn cofrestredig ac unrhyw gamau cywiro yn ystod y cyfnod interim. Mae'r polisi’n llywio paneli tuag at ystyried y ffeithiau ac amgylchiadau perthnasol sy’n gysylltiedig â’r gorchymyn interim yn ofalus wrth benderfynu ar sancsiwn cymesur.

4.68 Fel ymateb i’r adborth y dylai ‘amser a dreuliwyd’ dan orchymyn gwahardd interim gael ei gredydu neu ei ystyried wrth benderfynu ar gyfanswm hyd y cyfnod o waharddiad dan orchymyn sylweddol, rydym o’r farn bod ein hymagwedd bresennol yn gyson â’r egwyddorion a gadarnhawyd gan gyfraith achosion ddiweddar.[18] Mae’r polisi diwygiedig yn datgan y byddai’n anghywir i banel fynd ati’n syml i dynnu’r amser y bu unigolyn cofrestredig dan gyfyngiadau neu waharddiad yn flaenorol dan orchymyn interim o’r sancsiwn o

[18] General Dental Council v Aga [2025] EWCA Civ 68

sylwedd oherwydd y gallai gwneud hynny osod cleifion dan risg o gael niwed (gweler paragraff 36).

4.69 Rydym yn cytuno bod gorchmynion interim yn chwarae rôl hollbwysig yn diogelu'r cyhoedd tra bydd ymchwiliadau yn mynd rhagddynt, yn enwedig mewn achosion risg uchel megis y rhai sy'n ymwneud â diogelu neu gamymddygiad difrifol. Mae'r polisi'n atgyfnerthu y dylid defnyddio gorchmynion interim lle bo angen i reoli risg ac i gynnal hyder y cyhoedd, gan sicrhau mai diogelwch y cyhoedd sy'n parhau yn brif ystyriaeth.

4.70 Yn yr un modd, rydym yn cydnabod safbwyntiau ynglŷn ag effaith gorchmynion interim ar unigolion cofrestredig, gan gynnwys goblygiadau ariannol ac o ran enw da. Dim ond pan fydd eu gwir angen er mwyn diogelu'r cyhoedd neu gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau y dylid gosod gorchmynion interim, ac rydym yn credu bod y polisi yn gwneud hynny'n eglur.

4.71 Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynglŷn ag oedi cyn gosod gorchmynion interim mewn achosion difrifol. Er bod yr adborth hwnnwy tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad, rydym wedi ymrwymo i gefnogi paneli drwy hyfforddiant i baneli, sicrhau ansawdd, a gwelliannau parhaus yn y prosesau rheoli achosion.

**C2 – Gorchmynion interim: Cysondeb cyfreithiol a diffiniadau**

4.72 Dadleuodd ymatebydd niwtral nad oedd gan y broses ddiffiniadau cyfreithiol eglur ar gyfer rhai termau penodol megis camymddygiad rhywiol ac felly ei bod yn creu'r risg o ganlyniadau annheg a chamwahaniaethol yn enwedig tuag at unigolion cofrestredig anabl a phwysleisiodd yr angen am eglurder.

4.73 Roedd un ymateb yn arwydd o ddiffyg ymddiriedaeth difrifol yn system gyfreithiol a rheoleiddiol y DU, gan gysyllltu eu hanghytundeb â'r cynigion â materion sosio-wleidyddol ehangach, megis Brexit, anghyfiawnder canfyddedig, neu ragfarn.

4.74 Ychwanegodd un ymatebydd y dylai'r polisi sancsiynau ei gwneud yn eglur nad oes rhaid bod gan unigolyn cofrestredig gyflogwr rhag blaen er mwyn i amodau interim fod yn briodol, gan gyfeirio at yr egwyddorion o gyfraith achosion.[19]

## Ymateb yr HCPC

4.75 Nodwn bryderon a godwyd ynghylch yr angen am ddiffiniadau cliriach o dermau fel 'camymddygiad rhywiol'. Er nad yw hyn yn cyd-fynd â'r cynnig ar gyfer gorchmynion interim, rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig darparu eglurder lle bo modd. Cyfeirir at gyfraith achosion berthnasol sy'n diffinio camymddygiad rhywiol yn Nodyn Ymarfer HCPTS ar *Gwneud penderfyniad ynglŷn â chyflwr*

[19] Perry v NMC [2012] EWHC 2275 (Admin)

*meddwl unigolyn cofrestredig*. Byddwn yn ystyried a ellir darparu canllawiau ychwanegol i baneli ac rydym wedi diweddaru'r polisi trwy groesgyfeirio at y nodiadau ymarfer a ddylai gynorthwyo paneli i sicrhau cysondeb a thegwch.

4.76 Nodwn y pryderon a godwyd ynghylch materion sosio-wleidyddol ehangach a diffyg ymddiriedaeth yn system gyfreithiol a rheoleiddio'r DU. Er bod y materion hyn y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein prosesau FTP yn parhau'n dryloyw, yn gymesur, ac yn canolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd. Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau wedi'u cynllunio i gynnal tegwch i unigolion cofrestredig a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau rheoleiddiedig ar yr un pryd.

4.77 Nodwn y cyfeiriad at gyfraith achosion a'r awgrym y dylai'r polisi egluro nad oes angen cyflogwr rhag blaen ar unigolyn cofrestredig er mwyn i amodau interim fod yn briodol. Er ein bod yn cydnabod y gall absenoldeb cyflogwr greu heriau weithiau, mae'r mater hwn y tu hwnt i gylch gorchwyl y polisi sancsiynau. Ymdrinir â'r pwynt a godwyd mewn modd mwy priodol yn *Nodyn Ymarfer Gorchmynion Interim HCPTS,* y byddwn yn ei adolygu i sicrhau cysondeb ac eglurder ar y mater hwn.

Commented [AS1]: assume this will be ready for March 2026 as well?

Commented [EA2R1]: This Interim Order PN already exist. We've amended sentence to reflect that the practice note already exist

**C2 – Gorchmynion interim: Cydraddoldeb a nodweddion gwarchodedig**

4.78 Cododd tri ymatebydd bryderon ynghylch y potensial i orchmynion interim gael effaith anghymesur ar unigolion cofrestredig sy'n agored i niwed neu'n anabl gan alw am ganllawiau cliriach i helpu i atal camwahaniaethu neu ragfarn yn y modd y caifff gorchmynion interim eu cymhwyso.

4.79 Mynegodd pedwar ymatebydd bryderon difrifol ynghylch rhagfarn ac annhegwch o fewn y broses FTP. Dadleuodd tri ymateb, gan gynnwys un cyflwyniad manwl, nad yw dull yr HCPC o weithio gyda gorchmynion interim yn amddiffyn cofrestryddion anabl neu'r rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl yn ddigonol, ac y gall hynny arwain at ganlyniadau anghymesur. Nododd un ymatebydd anghysondebau canfyddedig yn y ffordd y mae gorchmynion interim yn cael eu cymhwyso rhwng achosion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a'r rhai sy'n ymwneud â chyflyrau iechyd corfforol.

### Ymateb yr HCPC

4.80 Rydym yn cydnabod ac yn cymryd o ddifrif y sylwadau ynghylch rhagfarn, annhegwch, ac effaith anghymesur bosibl gorchmynion interim ar unigolion cofrestredig sydd ag anableddau neu nodweddion gwarchodedig. Er nad ydym wedi canfod unrhyw dystiolaeth o annhegwch yn y defnydd o orchmynion interim, rydym yn parhau'n ymrwymedig i welliant parhaus a byddwn yn parhau i adolygu ein prosesau er mwyn sicrhau bod tegwch, cymesuredd a chydraddoldeb o ran triniaeth yn cael eu cynnal drwy gydol y broses FTP.

4.81 Mae'r HCPC yn cyhoeddi data EDI blynyddol ar unigolion cofrestredig sy'n destun gweithdrefnau FTP ac mae'n gwneud gwaith pellach i ymchwilio i ganlyniadau yn ôl nodweddion gwarchodedig. Efallai y byddwn hefyd yn ymchwilio ymhellach i ddemograffeg unigolion cofrestredig sy'n destun gorchmynion interim, gan gynnwys newidiadau dros amser, fel rhan o'n gwaith monitro parhaus. Fodd bynnag, nid ydym ar hyn o bryd yn casglu data ar effaith gorchmynion interim ar fywoliaeth na iechyd meddwl unigolion cofrestredig ac felly nid ydym yn gallu asesu hyn yn uniongyrchol.

**C2 – Gorchmynion interim: Tryloywder ac atebolrwydd**

4.82 Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd tryloywder yn y ffordd y mae paneli'n gwneud penderfyniadau ar orchmynion interim. Ymhlith yr ymatebion roedd un gan unigolyn cofrestredig a alwodd hefyd am gyfathrebu cliriach gydag unigolion cofrestredig a chyflogwyr pan gaiff gorchmynion interim eu gosod, eu hadolygu neu eu newid.

4.83 Pwysleisiodd un ymatebydd fod cyfathrebu amserol ac uniongyrchol rhwng yr HCPC a chyflogwyr yn hanfodol er mwyn cynnal diogelwch ac atebolrwydd. Fe wnaethant adrodd bod cyflogwyr weithiau'n cael eu gadael yn y tywyllwch ac yn gorfod dibynnu ar unigolion cofrestredig i ddatgelu'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â gorchmynion interim. Roeddent yn teimlo y byddai diweddariadau uniongyrchol gan yr HCPC yn helpu i sicrhau y gall cyflogwyr gymryd camau priodol a gwybodus mewn ymateb i newidiadau.

4.84 Galwodd un sefydliad am fwy o dryloywder wrth ddefnyddio gorchmynion interim a chraffu cryfach ar eu heffaith ar fywoliaeth ac iechyd meddwl unigolion cofrestredig, yn enwedig pan roddir gorchmynion interim ond nad oes sancsiwn yn dilyn.

4.85 Roedd nifer fach o ymatebwyr (dau unigolyn cofrestredig) a oedd yn anghytuno â'r dull arfaethedig o weithio o'r farn bod gorchmynion interim yn rhy hawdd i'w gosod, yn rhy gosbedigaethol, ac weithiau heb ddigon o dystiolaeth o risg.

### Ymateb yr HCPC

4.86 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd tryloywder a chyfathrebu drwy gydol y broses gorchmynion interim. Credwn fod rhywfaint o ddryswch ymhlith ymatebwyr ynghylch gorchmynion interim. Mae dau fath o orchymyn interim yn cael eu crybwyll yn y polisi sancsiynau: 1) gorchmynion interim presennol y gellir eu rhoi ar waith ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod cyn i'r gwrandawiad terfynol ddod i ben, a 2) gorchmynion interim a roddir ar waith i gwmpasu'r cyfnod apelio unwaith y bydd sancsiwn wedi'i osod.

4.87 Roedd ein newidiadau arfaethedig yn egluro y gall paneli ystyried a yw unigolyn cofrestredig wedi bod yn destun gorchymyn interim fel ffactor perthnasol yn eu

proses gwneud penderfyniadau. Mae'r polisi diwygiedig yn tywys paneli i bwyso a mesur gorchmynion interim a roddir ar waith cyn i wrandawiad terfynol ddod i ben wrth benderfynu beth, os o gwbl, sy’n sancsiwn cymesur.

4.88 Rhoddodd rhai ymatebwyr adborth ar sut mae gorchmynion interim yn cael eu gosod cyn i wrandawiad terfynol ddod i ben. Mae sut mae'r gorchmynion interim hyn yn cael eu gosod y tu hwnt i gylch gorchwyl y polisi hwn.

4.89 Mae gorchmynion interim i gwmpasu'r cyfnod apelio o fewn cylch gorchwyl y polisi hwn. Rhaid i baneli egluro’n glir y rhesymau dros osod, adolygu neu amrywio gorchymyn interim, a rhaid cyfleu’r penderfyniadau hyn yn brydlon. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu'n glir ym mharagraff 20 y polisi diwygiedig.

4.90 Mewn ymateb i'r dryswch ynghylch y gwahanol fathau o orchmynion interim y cyfeirir atynt yn y polisi sancsiynau, rydym wedi golygu is-benawdau'r ddwy adran gorchmynion interim ar wahân i egluro pa fath o orchymyn sy'n cael ei drafod. Mae paragraff 183 hefyd yn nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng y ddau fath o orchymyn interim.

4.91 Nodwn sylwadau yn galw am i'r canllawiau amlinellu beth sy'n digwydd pan fydd gorchmynion interim yn cael eu torri neu pan na chydymffurfir â nhw. Nid yw hyn o fewn cylch gorchwyl y polisi sancsiynau, gan fod materion o'r fath yn weithdrefnol ac yn cael eu llywodraethu gan ein rheolau FTP ar wahân a osodir mewn deddfwriaeth. Fodd bynnag, rydym yn fodlon bod y canllawiau ym mharagraffau 32-36 yn ymdrin yn ddigonol â'r ystyriaeth o orchmynion interim gan baneli yng nghyfnodau dilynol yr achos.

4.92 Lle awgrymodd ymatebwyr y dylai'r HCPC hysbysu cyflogwyr yn uniongyrchol am ganlyniadau neu newidiadau i orchmynion interim yn hytrach na dibynnu ar unigolion cofrestredig i wneud hynny, credwn fod hyn y tu hwnt i gylch gorchwyl yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, mae ein proses FTP eisoes yn darparu ar gyfer hysbysu cyflogwyr, lle bo modd, yn dilyn gosod, amrywio neu ddirymu gorchymyn interim. Mae gan unigolion cofrestredig ddyletswydd broffesiynol hefyd i hysbysu eu cyflogwr am unrhyw benderfyniadau FTP sy'n effeithio arnynt, ac mae'r cyd-gyfrifoldeb hwn yn helpu i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

4.93 Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch effaith gorchmynion interim ar fywoliaeth a llesiant unigolion cofrestredig, yn enwedig mewn achosion lle nad oes sancsiwn yn dilyn yn y pen draw. Fel y nodwyd uchod ym mharagraffau 4.80-4.83, dim ond gorchmynion interim i gwmpasu'r cyfnod apelio sydd o fewn cylch gorchwyl y polisi sancsiynau. Mesurau diogelu yw gorchmynion interim ac maent yn cael eu gosod dim ond lle bo angen er mwyn rheoli risg barhaus neu gynnal hyder y cyhoedd. Felly, rydym yn cytuno bod tryloywder a chymesuredd yn hanfodol, ac mae'n ofynnol i baneli ddarparu cyfiawnhad clir a rhesymegol ar gyfer gorchmynion interim a osodir i gwmpasu'r

cyfnod apelio. O ystyried difrifoldeb effeithiau unrhyw sancsiynau a osodir, mae'r polisi diwygiedig yn adlewyrchu'r gofyniad i baneli ddarparu rhesymau clir dros unrhyw benderfyniadau (gweler paragraff 20).

4.94 Rydym yn cydnabod pryderon rhanddeiliaid y gallai gorchmynion interim fod yn rhy hawdd eu gosod. Nid ydym yn cytuno bod hyn yn adlewyrchu pwrpas y broses. Mesurau diogelu yn unig ydy gorchmynion interim, i'w gosod dim ond lle mae digon o dystiolaeth i ddangos risg wirioneddol a pharhaus i'r cyhoedd, hyder y cyhoedd, neu fuddiannau ehangach y cyhoedd. Wrth osod gorchmynion interim, rhaid i baneli annibynnol ddarparu rhesymeg glir, gan bwyso a mesur y risg i'r cyhoedd ac egluro eu penderfyniad.

**C2 – Gorchmynion interim: Amseroldeb ac effeithlonrwydd gweithdrefnol**

4.95 Cododd nifer fach o ymatebwyr (dau) bryderon ynghylch oedi ac adnewyddu gorchmynion interim dro ar ôl tro, a oedd yn eu barn nhw'n gallu gadael unigolion cofrestredig mewn ansicrwydd am gyfnodau hirfaith. Galwodd un ar i'r HCPC ddatrys achosion risg uchel yn gyflymach, gan awgrymu y dylai rhai euogfarnau troseddol arwain yn awtomatig at orchymyn diarddel, a thrwy hynny osgoi achosion hirfaith a lleihau oedi diangen wrth ddwyn achosion o'r fath hyd at eu terfyn.

4.96 Awgrymodd un unigolyn y dylid cyfyngu gorchmynion interim i achosion diogelu yn unig neu eu diystyru pan nad oes tystiolaeth gan y cyflogwr.

### Ymateb yr HCPC

4.97 Rydym hefyd yn cydnabod pryderon ynghylch amseroldeb ac adnewyddu gorchmynion interim. Er bod y sylwadau hyn y tu hwnt i gwmpas uniongyrchol yr ymgynghoriad, maent serch hynny'n dangos gwaelodlin isel o ran hyder ymhlith rhai unigolion cofrestredig yn nhegwch prosesau rheoleiddio. Byddwn yn parhau i adolygu amseroldeb fel rhan o'n gwaith gwella FTP ehangach i sicrhau rheoli risg cymesur a phrydlon. Mae cyflwyno proses ddiarddel awtomatig y tu hwnt i'n cylch gorchwyl rheoleiddio fel y'i sefydlwyd gan ddeddfwriaeth.


4.98 Mae awgrymiadau y dylid cyfyngu gorchmynion interim i achosion diogelu yn unig neu eu gwrthod pan nad oes tystiolaeth gan gyflogwyr y tu hwnt i'n pwerau deddfwriaethol. Caiff ceisiadau am orchmynion interim eu hasesu'n annibynnol gan baneli ar adeg y cais, a rhoddir cyfle i unigolion cofrestredig ymateb yn llawn i bob cais. Ar ben hynny, mae gosod gorchmynion interim yn ystod y cyfnod ymchwilio y tu hwnt i gylch gorchwyl yr ymgynghoriad.

**Cynnig 3: Ymddiheuriadau**

4.99 Yn unol â'n hadnoddau diwygiedig ynglŷn â dyletswydd gonestrwydd (bod yn agored ac yn onest pan fydd pethau'n mynd o chwith), fe gynigiom y byddem yn ei gwneud yn eglur, er y gall ymddiheuriad ddangos mewnwelediad a chael ei ystyried, na ddylid ei weld yn awtomatig fel derbyn y cyflawnwyd camwedd. Yn yr un modd, ni ddylai peidio ag ymddiheuro arwain at ganlyniad mwy cyfyngol o reidrwydd. Fe wnaethon ni hefyd gynnig defnyddio is-benawdau i gyfeirio at fewnwelediad, edifeirwch ac ymddiheuro er mwyn darparu mwy o eglurder i'r paneli.

**Cwestiwn 3. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn ag ymddiheuriadau?**

4.100 Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom holi'r ymatebwyr am eu barn ynglŷn â'n cynnig ar gyfer ymddiheuriadau.




4.101 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (40, 71%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r newidiadau arfaethedig i ymddiheuriadau. Nid oedd nifer llai (11, 19%) yn cytuno nac yn anghytuno neu nid oeddent yn gwybod, gan geisio eglurder neu enghreifftiau pellach yn bennaf. Ac roedd chwech (10%) o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac yn codi pryderon ynghylch tegwch, gwahaniaethau diwylliannol ac arwyddocâd cyfreithiol ymddiheuriadau.

4.102 Roiedd o leiaf 46 (81%) o'r ymatebwyr yn croesawu'r eglurhad na fydd ymddiheuriad ynddo'i hun yn cael ei drin fel cyfaddefiad o euogrwydd. Roeddent yn ystyried bod hyn yn annog gweithio'n agored, gonestrwydd, a chydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd. Nododd rhai ymatebwyr sefydliadol fod yr ymagwedd hon yn gyson â'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg diwygiedig.

## Dadansoddiad thematig o’r ymatebion ynglŷn ag ymddiheuriadau

**C3 – Ymddiheuriad: Gwahaniaethu ac asesu ymddiheuriadau, mewnwelediad ac edifeirwch**

4.103 Cefnogodd pum sefydliad a dau unigolyn cofrestredig gynnig y HCPC i wahaniaethu rhwng ymddiheuriad, mewnwelediad ac edifeirwch er mwyn gwella cysondeb a thegwch paneli. Nododd rhai y byddai hyn yn lleihau ofn ymhlith unigolion cofrestredig ynghylch ymddiheuro.

4.104 Thema a gododd dro ar ôl tro ymhlith o leiaf bum ymatebydd oedd y gallai unigolion cofrestredig niwroamrywiol fynegi edifeirwch neu ymddiheuriad mewn ffyrdd anghonfensiynol ac y gellid eu barnu'n annheg. Gwnaed galwadau am arweiniad a hyfforddiant i'r paneli ar adnabod mynegiadau amgen o fewnwelediad. Yn ogystal, anogodd pump o ymatebwyr yr HCPC i sicrhau bod didwylledd ac ansawdd ymddiheuriadau yn cael eu hasesu, yn hytrach na datganiadau fformiwlaidd. Ychwanegodd un sefydliad na ddylid trin diffyg ymddiheuriad yn awtomatig fel diffyg mewnwelediad ac y dylai paneli ystyried y rhesymau pam na fyddai ymddiheuriad wedi'i roi yn gynt.

4.105 Cododd pedwar ymatebydd bryderon y gallai gwahaniaethau diwylliannol a rhagfarn systemig arwain at ddehongli ymddiheuriadau neu ddiffyg ymddiheuriad yn annheg.

## Ymateb yr HCPC

4.106 Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gan ymatebwyr i wahaniaethu rhwng ymddiheuriad, mewnwelediad ac edifeirwch, gan nodi y gall gwahaniaethau cliriach helpu i wella cysondeb a thegwch yn y paneli.

4.107 Rydym yn cydnabod pryderon ynghylch dehongli ymddiheuriadau, yn enwedig mewn perthynas â gwahaniaethau diwylliannol, niwroamrywiaeth, ac amrywiol arddulliau cyfathrebu. Disgwylir i baneli ystyried didwylledd ac ansawdd unrhyw ymddiheuriad, yn hytrach na datganiadau fformiwlaidd, a byddwn yn atgyfnerthu hyn drwy ganllawiau a hyfforddiant wedi'i dargedu i gefnogi asesu teg a chymesur. Lle na ddarperir ymddiheuriad, disgwylir i baneli ystyried y rhesymau pam y gallai hynny fod a phwyso a mesur mewnwelediad ac edifeirwch yr unigolyn cofrestredig, fel yr amlinellir yn y polisi diwygiedig (gweler paragraff 63).

4.108 Rydym hefyd yn cydnabod y gall unigolion cofrestredig niwroamrywiol fynegi edifeirwch neu ymddiheuriad yn wahanol i gofrestreion niwronodweddiadol a gellid eu barnu'n annheg os na ddeellir mynegiadau amgen o fewnwelediad. Bydd canllawiau a hyfforddiant i’r paneli yn pwysleisio cydnabod amrywiol ffyrdd y gellir dangos mewnwelediad ac adferiad. Mae pryderon ynghylch galluoedd paneli i asesu ymddiheuriad ac edifeirwch mewn achosion lle mae

gwahaniaethau diwylliannol neu ystyriaethau niwroamrywiaeth wedi'u cydnabod a'u trafod ym mharagraff 63 y polisi.

4.109 Yn dilyn adborth, byddwn yn ystyried creu canllawiau ar wahân neu nodiadau ymarfer ar ymddiheuriadau a mynegiadau o edifeirwch. Bydd hyn yn darparu eglurder ychwanegol i baneli ac yn cefnogi unigolion cofrestredig waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi'u cynrychioli.

4.110 Rydym yn cymryd o ddifrif y pwyntiau a godwyd ynghylch gwahaniaethau diwylliannol a rhagfarn systemig a allai effeithio ar sut mae ymddiheuriadau'n cael eu dehongli. Rydym eisoes yn cyhoeddi [dadansoddiad o ddata FTP](#) yn ôl rhai nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys ethnigrwydd. Er nad oes gennym ddata ar hyn o bryd i gefnogi na gwrthod honiadau o driniaeth anghymesur ar y sail hon, byddwn yn parhau i fonitro canlyniadau ac adolygu canllawiau i liniaru rhagfarn bosibl a chefnogi triniaeth deg. Byddwn yn parhau i geisio cyfleoedd i ehangu ein dadansoddiad er mwyn rhoi mwy o fewnwelediadau i degwch a chyfiawnder yn ein proses FTP.

**C3 – Ymddiheuriad: Eglurder a chysondeb**

4.111 Roedd o leiaf pump o ymatebwyr yn anghytuno â'r syniad bod yn rhaid i unigolion cofrestredig ymddiheuro, gan rybuddio y gallai roi pwysau ar unigolion diniwed neu sydd wedi'u cyfyngu'n gyfreithiol i ymddiheuro am bethau nad ydyn nhw wedi'u gwneud. Nododd rhai y gallai fod yn fwy priodol i gyflogwr ymddiheuro ar ran yr unigolyn cofrestredig mewn rhai sefyllfaoedd, yn enwedig mewn cyd-destunau sefydliadol neu systemig.

4.112 Tynnodd o leiaf ddau sefydliad sylw at y ffaith, er bod testun yr ymgynghoriad yn nodi 'na ddylid trin absenoldeb ymddiheuriad fel amgylchiad sy'n gwaethygu pethau, nad oedd y geiriad hwn wedi'i adlewyrchu'n glir yn yr adran bolisi, ac yn benodol ym mharagraffau 54 a 55. Fe wnaethant argymell cynnwys yr ymadrodd hwn yn benodol i osgoi camddealltwriaeth.

4.113 Nododd un unigolyn cofrestredig fod paragraff 54 y polisi arfaethedig fel petai'n gwrth-ddweud, gan ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion cofrestredig ymddiheuro yn unol â'r safonau tra hefyd yn rhestru amgylchiadau lle gallai ymddiheuriad beidio â chael ei roi. Yn ogystal, mynegodd ymatebydd arall bryder ynghylch sut y gallai panel ddehongli'r term 'mynd o'i le'.

### Ymateb yr HCPC

4.114 Nodwn yr argymhelliad i gynnwys yn benodol 'na ddylid trin diffyg ymddiheuriad fel ffactor gwaethygol'. Nid ydym yn cytuno â chynnwys hyn fel rheol benodol. Mae'r polisi'n rhoi'r disgresiwn i baneli asesu amgylchiadau pob achos a phenderfynu sut i bwyso a mesur absenoldeb ymddiheuriad. Fodd

bynnag, rydym wedi ychwanegu eglurhad y bydd amseriad a natur unrhyw ymddiheuriad yn cael eu llywio gan gyd-destun ac y dylai paneli ystyried pam y gallai ymddiheuriad fod heb ei roi neu pam y gallai fod oedi cyn rhoi ymddiheuriad (gweler paragraff 63 y polisi diwygiedig).

4.115 Rydym hefyd yn cydnabod pryderon na ddylai unigolion cofrestredig deimlo dan bwysau i ymddiheuro am fethiannau nad ydynt wedi'u cyflawni neu lle mae cyfyngiadau cyfreithiol yn berthnasol. Mae p'un a yw cyflogwr neu sefydliad yn ymddiheuro ai peidio y tu hwnt i gylch gorchwyl yr HCPC. Fodd bynnag, mae gan unigolion cofrestredig ddyletswydd broffesiynol i ymddiheuro i ddefnyddwyr gwasanaethau a/neu eu gofalwyr pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le gyda'r gofal, y driniaeth neu wasanaethau eraill y maent wedi'u derbyn. Caiff y ddyletswydd hon ei datgan yn y safonau ymddygiad, perfformiad, a moeseg 8.2. Yn unol â chyfraith y D.U., nid yw ymddiheuriad yn gyfystyr â chyfaddef euogrwydd. Bydd y polisi'n parhau i bwysleisio bod rhaid i baneli ystyried cymesuredd, tegwch, a defnyddio crebwyll sy'n benodol i'r cyd-destun.

4.116 Nodwn sylwadau rhanddeiliaid ynghylch dryswch posib ym mharagraff 54 y polisi arfaethedig, sy'n cyfeirio at y disgwyliad i unigolyn cofrestredig ymddiheuro o dan y safonau a'r rhesymau pam y gallai unigolyn cofrestredig beidio ag ymddiheuro. Rydym yn ystyried ei bod yn bwysig tynnu sylw at resymau cyfreithlon dros beidio â chydymffurfio, fel nad yw unigolion cofrestredig yn cael eu rhwystro rhag cynnig ymddiheuriad lle bo'n briodol. Rydym hefyd yn cydnabod cwestiynau a godwyd ynghylch pam y dylai unigolyn cofrestredig ddangos mewnwelediad neu edifeirwch os nad ydynt wir ar fai neu os ydynt yn arfer eu hawliau cyfreithiol. Mae'r materion hyn yn cael eu trafod drwy'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg (safon 8.1 ac 8.2) a pharagraff 52-53 y polisi, gan sicrhau bod paneli'n asesu pob achos yn gymesur ac yn ei gyd-destun.

4.117 Yn yr un modd, o ran pryderon ynghylch sut y gallai panel ddehongli 'mynd o'i le' ym mharagraff 54 y polisi arfaethedig, rydym wedi mynd i'r afael â hyn drwy gysylltu â'r adnoddau dyletswydd gonestrwydd, gan roi mwy o eglurder ar ymagwedd y panel (gweler paragraff 51).

**C3 – Ymddiheuriad: Gweithredu ac ymarferoldeb**

4.118 Pwysleisiodd o leiaf dri ymatebydd y byddai canllawiau ar wahân yn gwella cysondeb, tegwch ac eglurder yn y ffordd y mae paneli yn asesu ymddiheuriadau a mynegiadau o edifeirwch. Ar wahân, argymhellodd sefydliad fwy o fanylder mewn arddangosiadau dilys o fewnwelediad achamau cywiro, gan gynnwys logiau ymarfer myfyriol, adolygiadau dysgu, neu weithgareddau DPP. Fe wnaethant bwysleisio y dylai paneli gydnabod arddangosiadau amgen o fewnwelediad achamau cywiro y tu hwnt i ymddiheuriad ffurfiol.

4.119 Roedd un ymatebydd yn amheus ynghylch gallu'r HCPC i gyflawni asesiadau diwylliannol a chyd-destunol cymhleth, gan gyfeirio at oedi ac anghysonderau cyfredol wrth wneud penderfyniadau.

### Ymateb yr HCPC

4.120 Nodwn yr awgrymiadau ar gyfer enghreifftiau mwy cynnil o arddangosiadau dilys o fewnwelediad a chamau cywiro, megis logiau ymarfer myfyriol, adolygiadau dysgu, neu weithgareddau DPP. Mae'r rhain wedi'u cynnwys eisoes yn y Polisi. Ym mharagraff 67 y polisi diwygiedig, rydym wedi cynnwys mân olygiadau eglurhaol i wella dealltwriaeth a sicrhau y gall paneli gydnabod ystod eang o dystiolaeth o gamau cywiro yn gyson.


4.121 Yn olaf, rydym yn cydnabod bod rhai ymatebwyr yn amheus ynghylch ein capasiti i weithredu asesiadau diwylliannol a chyd-destunol yn gyson. Er bod hyn y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad, byddwn yn parhau i fonitro ein prosesau a sicrhau bod paneli yn derbyn hyfforddiant perthnasol.

### Cynnig 4: Diarddel

4.122 Mewn ymateb i adborth gan y PSA, rydym wedi cynnig geiriad mwy eglur i egluro pryd y gellir defnyddio gorchmynion diarddel. Y nod oedd atal unrhyw gamddealltwriaeth bosib gan y gellid dehongli bod cyfeirio at ddiarddel fel 'y dewis olaf un' yn ei gwneud yn ofynnol i baneli ystyried yr holl sancsiynau eraill yn gyntaf. Eglurodd ein cynnig, yn yr achosion mwyaf difrifol, ei bod yn bosib mai diarddel ydy'r canlyniad priodol o'r cychwyn cyntaf, er mwyn sicrhau bod paneli'n cymhwyso'r polisi'n gyson ac yn unol â'i fwriad.

**Cwestiwn 4: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â diarddel lle mae'r pryderon mor ddifrifol eu bod yn anghydnaws â pharhau'n gofrestredig?**

4.123 Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr am eu barn ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â diarddel lle mae'r pryderon mor ddifrifol eu bod yn anghydnaws â pharhau'n gofrestredig.




4.124 Roedd llawer o ymatebwyr (42, 74%) yn croesawu geiriad cliriach yn egluro ei bod yn bosib mai diarddel yw’r unig sancsiwn cymesur yn yr achosion mwyaf difrifol. Cafodd y cynnig i gael gwared ar y term 'sancsiwn olaf un' ei ystyried yn un cadarnhaol hefyd gan ei fod yn lleihau amwysedd ac yn sicrhau y gall paneli weithredu'n bendant pan fo angen. Cytunodd sawl un fod yr eglurder hwn yn cefnogi diogelwch y cyhoedd, uniondeb proffesiynol, a chysondeb wrth wneud penderfyniadau.

4.125 Mynegodd yr ymatebion niwtral bryder yn bennaf ynghylch camddefnyddio’r broses, tegwch, a'r angen am feini prawf neu ganllawiau mwy manwl, tra bod naw (16%) o'r ymatebion a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn rhannu pryder y gallai diarddel gael ei gamgymhwyso, y dylai barhau i fod yn brin, neu fod angen gofal eithriadol yn ei gylch. Fe wnaethant hefyd bwysleisio'r risg o ganlyniadau annheg i gwynion blinderus neu ffug, gorymestyn, neu gamau gweithredu anghymesur.

### Dadansoddiad thematig o’r ymatebion ynglŷn â diarddel

**C4 – Diarddel: Fframio fel ‘y cam olaf un’**

4.126 Nododd unigolyn cofrestredig a oedd yn anghytuno y dylai diarddel barhau i fod yn ganlyniad gwirioneddol eithriadol a ddefnyddir dim ond pan nad oes modd cyflawni camau cywiro. Dadleuasant ymhellach y dylai diarddel parhaol ddilyn ymchwiliad trylwyr, ffeithiau profedig, a chyfle teg i unioni'r broblem, nid dehongliad rheoleiddiol o ddifrifoldeb ac y gallai paneli ddehongli 'anghydnaws â pharhau’n gofrestredig’ yn rhy eang, gan arwain at sancsiynau cyfyngol.

### Ymateb yr HCPC

4.127 Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch y canfyddiad bod gormod o barodrwydd i ddiarddel. Fe wnaethom fynegi yn ein hymgynghoriad fod y

newidiadau'n cael eu cynnig o ganlyniad uniongyrchol i adborth gan y PSA. Nid yw'r cynnig ei hun yn cyflwyno newid mewn polisi ond mae'n rhoi eglurhad i baneli i'w galluogi i wneud penderfyniadau cymesur a chyson. Rydym yn pwysleisio bod diarddel wedi'i gadw ar gyfer achosion lle na fyddai unrhyw sancsiwn arall yn ddigonol i amddiffyn y cyhoedd, hyder y cyhoedd yn y proffesiwn a hyder y cyhoedd yn y broses reoleiddio a bod ymddygiad yr unigolyn cofrestredig yn sylfaenol anghydnaws â pharhau’n gofrestredig.

4.128 Cyfarwyddir paneli i ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, cyfleoedd i unioni’r sefyllfa, a chymesuredd cyn penderfynu bod diarddel yn briodol. Mae paneli’n ystyried sancsiynau mewn trefn esgynnol, gan ddechrau gyda’r sancsiwn lleiaf cyfyngol, er mwyn penderfynu beth sydd fwyaf priodol ac angenrheidiol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd a chynnal hyder yn y proffesiwn. Ar bob lefel, rhaid i baneli ddarparu rhesymau pam nad yw'r sancsiwn llai cyfyngol yn ddigonol. Rydym wedi diwygio'r adran ar ddiarddel er mwyn sicrhau bod gan baneli'r lefel briodol o fanylder i allu gwneud penderfyniadau cadarn a chyson.

### C4 – Diarddel: Pryderon tegwch a chydraddoldeb

4.129 Tynnodd o leiaf chwech o ymatebwyr sylw at bryderon ynghylch tegwch, cydraddoldeb neu ragfarn bosibl. Ychwanegodd ymatebydd sefydliadol y dylai penderfyniadau diarddel ystyried pwysau fel gwahaniaethu, gorfodaeth, a thystiolaeth o fyfyrio neu newid.

4.130 Anogodd unigolyn cofrestredig yr HCPC i sicrhau bod penderfyniadau diarddel yn cydymffurfio â chyfraith cydraddoldeb a chyflogaeth, ac i flaenoriaethu cefnogaeth ac adsefydlu cyn cael gwared ar bobl.

4.131 Nododd sefydliad arall yr effaith sylweddol a gaiff diarddel ar unigolion cofrestredig a phwysigrwydd rhoi pwysau cywir ar ffactorau perthnasol. Fe wnaethant bwysleisio na ddylai sancsiynau fod wedi’u bwriadu i gosbi unigolion cofrestredig.

### Ymateb yr HCPC

4.132 Mae pob partner FTP yn derbyn hyfforddiant EDI fel rhan o'u proses recriwtio a sefydlu. Mae hyn yn cynnwys cynnwys ar anabledd, ymwybyddiaeth o ragfarn, ac ystyried niwroamrywiaeth a ffactorau diwylliannol mewn ffordd sy'n sensitif, yn gymesur ac yn cyd-fynd â diogelu'r cyhoedd. Rydym hefyd yn darparu hyfforddiant diweddaru rheolaidd i gadeiryddion paneli ac aseswyr cyfreithiol. Byddwn yn parhau i gyhoeddi dadansoddiad o ganlyniadau FTP yn flynyddol yn ôl rhai nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys ethnigrwydd. Byddwn yn ystyried ehangu cwmpas y dadansoddiadau a'r hyfforddiant hyn yn y dyfodol i ddiogelu tegwch a chydraddoldeb ymhellach.

4.133 Er ein bod yn gwerthfawrogi'r adborth ynghylch sicrhau bod penderfyniadau diarddel yn cydymffurfio â chyfraith cydraddoldeb a chyflogaeth, mae hyn y tu hwnt i gwmpas adolygiad o'r polisi sancsiynau. Fodd bynnag, rydym yn hyderus bod ein polisi yn cyd-fynd â chyfraith y DU yn gyffredinol.

4.134 Rydym yn croesawu'r pwyslais ar bwyso a mesur ffactorau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r achos yn briodol ac nad yw sancsiynau wedi'u bwriadu i fod yn gosbedigaethol. Rydym o'r farn bod y ddau bwynt hyn yn cael sylw yn y polisi.

**C4 – Diarddel: Amwysedd yn y geiriad**

4.135 Cwestiynodd pedwar sefydliad pam mai dim ond ar gyfer penderfyniadau diarddel y pwysleisiwyd rhesymu manwl, gan nodi y dylai pob sancsiwn gael ei resymu'n llawn. Nodasant y dylai pob penderfyniad panel, nid dim ond gorchmynion diarddel, ddarparu cyfiawnhadau clir a manwl.

4.136 Awgrymodd un sefydliad ddiwygiad bach o'r polisi i ddarllen 'Gall gorchymyn diarddel fod yn briodol' yn hytrach na “bydd yn briodol” ...', er mwyn osgoi rhagdybio y bydd pob gweithred ddifrifol, barhaus, fwriadol neu ddi-hid yn arwain at ddiarddel.

4.137 Argymhellodd un ymatebydd gryfhau paragraff 157 i adlewyrchu cyfraith achosion a chanllawiau’r PSA, gan sicrhau bod paneli’n egluro’n iawn pam fod pob sancsiwn a osodwyd yn gymesur ac roedd yn gefnogol i ychwanegu meini prawf a chanllawiau penodol i helpu paneli i asesu cymesuredd. Awgrymodd un arall y dylid dileu paragraff 157 yn gyfan gwbl, gan y gallai awgrymu bod angen llai o gyfiawnhad ar gyfer sancsiynau llai.

### Ymateb yr HCPC

4.138 Rydym yn cytuno bod angen esboniadau clir a rhesymegol ar gyfer pob sancsiwn, ac rydym yn credu bod hyn eisoes wedi'i gynnwys yn y canllawiau. Disgwylir i baneli ddogfennu eu penderfyniadau’n gynhwysfawr, gan sicrhau tryloywder a chysondeb ar draws pob math o sancsiynau. Bwriedir i’r polisi sancsiynau gael ei ddarllen yn ei gyfanrwydd yn hytrach nag mewn adrannau ar wahân. Felly, bydd paneli wedi darllen yr adran *‘Rhesymau dros benderfyniad i osod sancsiwn'* (gweler paragraff 20), sy'n eu cyfarwyddo i roi rhesymau dros eu penderfyniadau ym mhob cam, cyn yr adran ar ddiarddel.

4.139 Nodwn yr awgrym i ddiwygio'r geiriad yn yr adran hon i 'gall fod yn briodol'; fodd bynnag, rydym yn fodlon bod y geiriad presennol yn adlewyrchu'n gywir y dull gweithredu a fwriedir gennym. Mae'r polisi'n ei gwneud yn glir, er y bydd diarddel yn briodol fel arfer mewn achosion o'r fath, y bydd paneli'n parhau i ystyried amgylchiadau unigol pob achos cyn dod i benderfyniad.

4.140 O ran paragraff 157 y polisi arfaethedig, nodwn yr argymhelliad i gryfhau'r geiriad i adlewyrchu cyfraith achosion a chanllawiau'r PSA. Bwriad y paragraff yw sicrhau bod paneli'n darparu rhesymeg gymesur, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer pob sancsiwn. Er bod hyn yn cael ei drafod yn gyffredinol ym mharagraff 20, rydym yn pwysleisio'r pwynt hwn ar gyfer penderfyniadau i osod gorchymyn diarddel fel y sancsiwn mwyaf difrifol sydd ar gael i baneli. Bwriad paragraff 157 yn y polisi drafft yw sicrhau rhesymeg glir dros y sancsiynau mwyaf difrifol, gan gynnwys pam nad oedd sancsiynau eraill yn briodol. Mae'r polisi diwygiedig yn glir ym mharagraffau 141 a 142 bod y gofyniad am resymu manwl yn berthnasol i bob lefel sancsiwn, nid sancsiynau diarddel yn unig.

**C4 – Diarddel: Argymhellion ar gyfer gwelliannau**

4.141 Croesawodd un sefydliad gynnwys enghreifftiau a hyperddolenni i arwain paneli ynghylch pryd y gallai fod cyfiawnhad dros ddiarddel ond awgrymodd welliannau bach i'r geiriad er mwyn cywirdeb (e.e., 'cynnwys ar gronfa ddata troseddwyr rhyw').

4.142 Yn yr un modd, gofynnodd sefydliad gwahanol am ddisgrifiadau'n seiliedig ar achosion o'r hyn a ystyrir yn ymddygiad 'sylfaenol anghydnaws', er mwyn helpu i sicrhau cysondeb. Ymhellach, awgrymasant ffurfio grŵp ymgynghorol neu gyhoeddi canllawiau i fireinio diffiniadau ac enghreifftiau dros amser. Gofynnodd un arall am ganllawiau ar gyfer paneli ar gyfer camymddwyn a ailadroddir neu a ddylanwadwyd gan ffactorau systemig, diwylliannol neu sefydliadol.

4.143 Gwnaeth ymatebydd arall a oedd yn cytuno â'r cynnig amlygu'r angen am brosesau apelio cadarn, monitro rheolaidd ar benderfyniadau diarddel, a hyfforddiant i baneli er mwyn cynnal cysondeb a thegwch.

4.144 Cwestiynodd unigolyn cofrestredig cefnogol arall a oedd yr HCPC wedi ystyried 'Gorchymyn atal marwolaethau yn y dyfodol' y Crwner'[20] fel rhan o ganllawiau'r polisi sancsiynau i baneli.

4.145 Nododd un sefydliad fod y polisi'n manylu na all unigolion cofrestredig wneud cais i ailymuno â'r Gofrestr o fewn pum mlynedd i gael eu diarddel ac ychwanegodd, er mwyn hyder y cyhoedd, y gallai fod yn briodol ystyried canllawiau ynghylch pryd na fyddai ailymuno â'r gofrestr yn cael ei ystyried o dan unrhyw amgylchiadau. Nododd o leiaf dri ymatebydd y dylai'r trothwy ar gyfer diarddel hefyd adlewyrchu dihidrwydd, anonestrwydd, neu fethiant i ddiogelu sy'n creu risg ragweladwy o niwed yn y dyfodol.

[20] Cododd yr un ymatebydd gwestiwn tebyg ynghylch gorchmynion Atal Marwolaethau yn y Dyfodol y Crwner o dan yr adran ar Ddifrifoldeb a Bai. Mae ein hymateb i'r sylw hwn gan randdeiliad yn parhau heb ei newid ac fe'i nodir ym mharagraff 4.142.

## Ymateb yr HCPC

4.146 Rydym yn croesawu cefnogaeth i gynnwys enghreifftiau a hyperddolenni i arwain paneli.

4.147 Rydym yn cytuno bod prosesau apelio cadarn, monitro parhaus ar benderfyniadau diarddel, a hyfforddiant paneli wedi'i dargedu yn hanfodol er mwyn cynnal tegwch a chysondeb. Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad FTP blynyddol sy'n cynnwys manylion canlyniadau terfynol gwrandawiadau. Byddwn yn parhau i adolygu ein prosesau FTP ac yn darparu hyfforddiant rheolaidd i baneli. Bydd y mesurau hyn yn parhau i gael eu blaenoriaethu er mwyn diogelu'r cyhoedd a sicrhau triniaeth deg i unigolion cofrestredig.

4.148 Nid ydym wedi ystyried gorchmynion Atal Marwolaethau yn y Dyfodol y Crwner ac nid ydym yn credu ei bod yn briodol nac yn angenrheidiol gwneud hynny mewn polisi sancsiynau. Darperir y gorchmynion hyn at ddiben gwahanol ac maent wedi'u cyd-destunoli drylwyr.

4.149 O ran darparu canllawiau pellach yn y polisi ynghylch gwahardd unigolion cofrestredig rhag ailymuno â'r Gofrestr ar ôl gorchymyn diarddel, nid yw'r pwerau gennym o dan ein deddfwriaeth i ddarparu canllawiau o'r fath.


4.150 Mewn ymateb i'r trothwy ar gyfer diarddel yn adlewyrchu dihidrwydd, anonestrwydd, neu fethiant i ddiogelu, credwn fod hyn eisoes wedi cael sylw digonol yn adran 'achosion difrifol' y polisi (gweler paragraffau 85-139).

## <u>Cynnig 5: Difrifoldeb a bai</u>

4.151 Fe gynigiom ychwanegu canllawiau mwy eglur i helpu paneli i asesu pa mor ddifrifol yw camymddygiad unigolyn cofrestredig. Mae hyn yn cynnwys darparu eglurder pellach wrth edrych ar y risg o niwed, pa mor gyfrifol oedd yr unigolyn cofrestredig, ac unrhyw niwed a achoswyd. Disgwylir i baneli ddilyn dull strwythuredig ac egluro eu rhesymeg yn glir, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n deg, yn gyson ac wedi'u seilio ar dystiolaeth dda.

**Cwestiwn 5: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn ag asesu difrifoldeb a bai?**

4.152 Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom holi'r ymatebwyr am eu barn ynglŷn â'n cynnig ar gyfer asesu difrifoldeb a bai.




4.153 Roedd y rhan fwyaf (41, 72%) o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â chyflwyno canllawiau cliriach ar asesu difrifoldeb a bai. Nid oedd ychydig o'r ymatebwyr (naw, 16%) yn cytuno nac yn anghytuno neu nid oeddent yn gwybod, gan gyfeirio'n aml at ansicrwydd ynghylch gweithredu neu ddiffyg enghreifftiau pendant tra bod lleiafrif o'r ymatebwyr (saith, 12%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, gan godi pryderon ynghylch tegwch, rhagfarn, terminoleg, a gorymestyn posib.

### Dadansoddiad thematig o asesu difrifoldeb a bai ymatebion

**C5 – Difrifoldeb a bai: Strwythur a gweithredu**

4.154 Roedd o leiaf bedwar ymatebydd o'r farn fod yr asesiad strwythuredig yn gwella hyder yn y broses reoleiddio ac yn amddiffyn unigolion cofrestedig rhag canlyniadau anghymesur. Fodd bynnag, roedd dau sefydliad o'r farn bod cynllun y polisi yn ddryslyd, gydag adrannau difrifoldeb a bai yn ymddangos ar wahân i ffactorau lliniarol. Cytunodd sefydliad arall â'r cynnig ond awgrymodd y dylid nodi ar ba gamau yn y broses gwneud penderfyniadau y dylid asesu difrifoldeb (e.e., camymddygiad, sancsiwn).

4.155 Nododd un sefydliad ei fod yn ffafrio'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan y GMC ar gyfer canllawiau'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Ymarferwyr Meddygol (MPTS), sy'n asesu difrifoldeb yn seiliedig ar risgiau parhaus a berir gyda dim ond tystiolaeth o effaith a thystebau cymeriad yn cael eu hystyried yn ychwanegol at hynny.

### Ymateb yr HCPC

4.156 Rydym yn croesawu adborth sy'n nodi bod y fframwaith asesu strwythuredig yn gwella hyder yn y broses o wneud penderfyniadau rheoleiddiol ac yn cefnogi canlyniadau cymesur i unigolion cofrestredig.

4.157 Rydym yn cydnabod bod rhai rhanddeiliaid o'r farn bod y cynllun yn ddryslyd, gyda’r adrannau difrifoldeb a bai yn ymddangos ar wahân i ffactorau gwaethygol a lliniarol. Rydym yn cytuno â'r awgrym y dylai ffactorau gwaethygol a lliniarol ddod o dan yr adran ar gymesuredd ac rydym wedi diwygio'r polisi felly. Rydym wedi adolygu'r cyflwyniad ac wedi ychwanegu croesgyfeiriadau ychwanegol lle bo'n berthnasol i egluro sut mae'r adrannau hyn yn cydberthyn.

4.158 Byddwn yn parhau i roi canllawiau i baneli i asesu difrifoldeb a bai fesul achos, gan ystyried ffactorau cyd-destunol. Rydym hefyd wedi ychwanegu nodiadau atgoffa i baneli ystyried ffactorau lliniarol a gwaethygol ar y cyd â bai a difrifoldeb er mwyn darparu eglurder ynglŷn â sut y dylid cymhwyso'r asesiadau hyn drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau.

4.159 Rydym hefyd yn nodi awgrymiadau ynglŷn a nodi pryd y dylid asesu difrifoldeb (e.e., yn y cyfnodau penderfynu ar gamymddygiad, sancsiynau) ac wedi diwygio paragraff 34 y polisi drafft (gweler paragraff 37 yn y polisi diwygiedig) i bwysleisio pwysigrwydd asesu difrifoldeb drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ac i sicrhau bod paneli'n defnyddio dull cyson.

4.160 Nid ydym yn cytuno â'r sylw sy'n awgrymu y dylai paneli ganolbwyntio ar risg barhaus yn hytrach na difrifoldeb ym mhob cam. Rydym yn cytuno bod ffocws ar risg yn bwysig ac yn gyson â'n hymagwedd ni. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried ei bod yn rhesymol cyfyngu paneli i un asesiad. Dylai paneli allu ailystyried ac ailasesu difrifoldeb a risg wrth i achos fynd rhagddo, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n parhau’n deg, yn gymesur ac yn gyson â'r holl dystiolaeth sydd ger eu bron. Rydym o'r farn bod ein hymagwedd ni'n darparu'r hyblygrwydd hwn ac yn cynnal ffocws clir ar ddiogelu'r cyhoedd.

**C5 – Difrifoldeb a bai: Ffactorau ychwanegol ac enghreifftiau**

4.161 Awgrymodd un sefydliad y dylid cynnwys ffactorau gwaethygol ychwanegol, megis poblogaethau sy’n agored i niwed (myfyrwyr, hyfforddeion); camymddygiad digidol (ymddygiad rhywiol ar-lein); ac ymddygiad dialgar neu ymddygiad sy’n rheoli. Yn yr un modd, argymhellodd sefydliad gwahanol welliannau sy'n canolbwyntio ar EDI. Gofynnodd un arall hefyd am roi pwyslais ar bwyso a mesur ffactorau’n briodol, gan sicrhau bod budd y cyhoedd yn cael blaenoriaeth heb orbwysleisio ffactorau lliniarol.

4.162 Awgrymodd un unigolyn nad yw’n gofrestredig y dylid cynnwys ffactorau’n benodol ar gyfer asesu difrifoldeb a bai, megis yr effaith ar unigolion agored i niwed (e.e. plant), camddefnyddio awdurdod, anwybyddu tystiolaeth, cwynion niferus, a diffyg mewnwelediad.

4.163 Awgrymodd unigolyn cofrestredig arall y dylai'r canllawiau ar asesu difrifoldeb a bai fod yn fwy cyson â'r egwyddorion a nodir yng nghanllawiau'r Cyngor

Dedfrydu gan ystyried ffactorau fel pa mor uchel yw swydd yr unigolyn cofrestredig wrth ystyried ffactorau gwaethygol.

4.164 Croesawodd un sefydliad y gwahaniaethu o ran bai rhwng niwed uniongyrchol i iechyd corfforol neu feddyliol a niwed sy'n deillio o chwalfa ymddiriedaeth yn effeithio ar ddiogelwch cleifion.

### Ymateb yr HCPC

4.165 Rydym yn cydnabod awgrymiadau y dylid ymgorffori ffactorau gwaethygol ychwanegol, gan gynnwys risgiau i boblogaethau agored i niwed (myfyrwyr, hyfforddeion), camymddygiad digidol, ac ymddygiad dialgar neu ymddygiad sy'n rheoli. Anogir paneli i ystyried cyd-destun llawn goblygiadau niwed a diogelu'r cyhoedd, ac mae'r polisi eisoes yn rhoi digon o sylw i'r ffactorau hyn. Fodd bynnag, byddwn yn cyfeirio at y Nodyn Ymarfer *Gwneud penderfyniad ar gyflwr meddwl unigolyn cofrestredig* i roi gwybodaeth ddefnyddiol i baneli megis ystyriaethau gwaethygol perthnasol. Rydym wedi diwygio'r polisi i adlewyrchu hyn.

4.166 O ran cysoni egwyddorion y polisi hwn â'r rhai yng nghanllawiau'r Cyngor Dedfrydu, nid ydym yn cytuno bod hyn yn briodol. Mae'r canllawiau dedfrydu wedi'u hysgrifennu ar gyfer cyd-destun gwahanol iawn. Rydym yn fodlon bod y polisi'n amddiffyn y cyhoedd yn ddigonol heb wneud y newidiadau a awgrymir gan yr adborth hwn.

4.167 Rydym yn cytuno bod ffactorau fel effaith ar unigolion agored i niwed, camddefnyddio awdurdod, cwynion niferus, a diffyg mewnwelediad yn bwysig i baneli eu hystyried er mwyn sicrhau penderfyniadau cyson, sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r ffactorau hyn wedi'u trafod yn fanwl yn yr adran ar ffactorau gwaethygol (paragraffau 70-84 y polisi diwygiedig).

### C5 – Difrifoldeb a bai: Tegwch ac atebolrwydd

4.168 Pwysleisiodd un sefydliad y dylai'r HCPC ystyried risg i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau, a hyder y cyhoedd yn bennaf, yn hytrach na beio cosbedigaethol.

4.169 Ychwanegodd tri sefydliad y dylai paneli ystyried cymhelliant, rhagfwriad, pwysau systemig, a ffactorau amgylcheddol wrth asesu bai. Roedd awgrymiadau y dylai'r canllawiau gydnabod nodweddion diwylliannol, niwroamrywiol, neu warchodedig ac osgoi rhagdybiaethau yn seiliedig ar emosiwn, distawrwydd, neu fynegiadau ansafonol o edifeirwch. Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn gweld y canllawiau fel rhai sy'n cefnogi penderfyniadau rhesymegol gan baneli, yn seiliedig ar dystiolaeth, tynnodd rhai sylw at yr angen am hyfforddiant i baneli er mwyn atal rhagfarn a chynnal cysondeb.

### Ymateb yr HCPC

4.170 Rydym yn cydnabod yr argymhellion defnyddiol uy dylid atgoffa paneli i ystyried effeithiau gwahaniaethau diwylliannol a niwroamrywiaeth ar fynegiant unigolyn cofrestredig o fewnwelediad, ymddiheuriad ac edifeirwch, ac rydym wedi addasu'r adrannau ar fewnwelediad, ymddiheuro ac edifeirwch yn unol â hynny. Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno bod y rhain yn ystyriaethau perthnasol wrth asesu difrifoldeb a bai.

4.171 Mae'r HCPC yn pwysleisio mai'r brif ystyriaeth wrth asesu difrifoldeb a bai yw'r risg i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau, a hyder y cyhoedd. Yn y cam hwn o'r broses FTP, byddai paneli eisoes wedi ystyried cymhelliant, rhagfwriad, pwysau systemig, a ffactorau amgylcheddol, ac wedi ystyried nodweddion diwylliannol, niwroamrywiol, neu warchodedig. Pan fydd y polisi sancsiynau yn cael ei ddefnyddio gan baneli, byddai'r ffactorau hyn eisoes wedi cael eu hystyried yn eu proses gwneud penderfyniadau. Felly, nid ydym yn cytuno bod angen i ni wneud unrhyw newidiadau pellach i'r polisi. Fodd bynnag, gallwn barhau i adolygu ein nodiadau ymarfer a fydd yn cael eu defnyddio gan baneli yng nghyfnodau cynharach y broses FTP, i ddarparu canllawiau ychwanegol i baneli lle bo angen.

**C5 – Difrifoldeb a bai: Eglurder a chysondeb**

4.172 Codwyd pryderon gan ddau sefydliad ynghylch eglurder ac integreiddio'r adrannau, gyda rhai'n nodi y gallai gwahanu difrifoldeb oddi wrth fai neu hepgor canllawiau ar gyd-destun greu dryswch.

4.173 Awgrymodd o leiaf dri sefydliad welliannau ar gysylltiadau clir rhwng difrifoldeb, bai, a sancsiynau cymesur; dogfennu ffactorau gwaethygol a lliniarol yn benodol a'u pwyso a'u mesur yn briodol; a chysoni iaith ag iaith rheoleiddwyr eraill er mwyn osgoi cymysgu'r term 'bai' â chael eu beio.

4.174 Argymhellodd un sefydliad ymhellach y dylid ei gwneud yn eglur y dylid asesu difrifoldeb yn y cam camymddygiad a'r cam sancsiynu, gan ychwanegu croesgyfeiriad at baragraffau 33 a 155.

### Ymateb yr HCPC

4.175 Rydym yn cydnabod y gallai gwahanu difrifoldeb oddi wrth fai greu dryswch os caiff cyd-destun ei hepgor. Mae'r polisi wedi'i ddiwygio i wella eglurder a sicrhau y gall paneli weld yn glir y cydberthnasau rhwng difrifoldeb, bai a ffactorau lliniarol a gwaethygol fel ystyriaethau allweddol wrth benderfynu ar sancsiynau cymesur.

4.176 Cynghorir paneli yn y polisi (gweler paragraff 37) i ddogfennu ffactorau gwaethygol a lliniarol yn benodol, eu pwyso a'u mesur yn briodol, a chysylltu'r

ystyriaethau hyn â'r dewis o sancsiwn. Bydd hyn yn hyrwyddo tryloywder, cysondeb a hyder y cyhoedd yn y broses. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant i baneli er mwyn atal rhagfarn a chynnal cysondeb. Bydd rhaglenni datblygu paneli a hyfforddiant diweddaru parhaus yn cynnwys ymarferion ymarferol ac enghreifftiau o achosion i gefnogi proesau gwneud penderfyniadau teg a chymesur.

4.177 O ran yr adborth yn gofyn i ni osgoi cymysgu euogrwydd â bai, nid ydym yn cytuno â'r awgrym hwn. Ar y cam hwn yn y broses FTP, mae amhariad ar ymarfer eisoes wedi'i ganfod, a rhaid i'r panel ystyried graddfa bai yr unigolyn cofrestredig yn yr achos er mwyn pennu sancsiwn priodol. Credwn y bydd ein hymagwedd presennol yn amddiffyn y cyhoedd yn effeithiol ac yn cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn tra bydd hefyd yn sicrhau proses deg a chymesur i unigolion cofrestredig.

4.178 Rydym yn cytuno y dylid ystyried difrifoldeb yn ystod y cam sancsiynu a'i gario drwy gydol y broses, gan sicrhau bod y sancsiwn yn adlewyrchu difrifoldeb yr ymddygiad yn briodol. Rydym wedi cryfhau'r geiriad yn y polisi diwygiedig i wneud hyn yn gliriach (gweler paragraff 37).


## Cynnig 6: Camwahaniaethu

4.179 Fe gynigiom ehangu ein canllawiau ar gamwahaniaethu i egluro bod pob ffurf yn annerbyniol. Bydd y canllawiau diwygiedig yn helpu paneli i ddeall beth sy'n cyfrif fel camwahaniaethu, pwy y gall effeithio arnynt, a sut y dylid mynd i'r afael â hyn wrth wneud penderfyniadau.

4.180 Yn dilyn diwygiadau diweddar i'n Nodyn Ymarfer HCPTS ar *Gwneud penderfyniadau ar gyflwr meddwl unigolyn cofrestredig*, fe gynigiom hefyd y dylid darparu canllawiau cliriach ar sut y dylai paneli ymdrin ag achosion lle honnir bod gweithredoedd unigolyn cofrestredig yn seiliedig ar gamwahaniaethu. Yn ogystal, cynigiom egluro bod yr egwyddorion a amlinellir yn y nodyn ymarfer yn berthnasol i unrhyw honiadau o ymddygiad gwahaniaethol lle mae cyflwr meddwl unigolyn cofrestredig dan sylw.

**Cwestiwn 6: I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r newidiadau arfaethedig ynglŷn â phryderon am wahaniaethu?**

4.181 Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom holi’r ymatebwyr am eu barn ynglŷn â’n cynnig ar gyfer camwahaniaethu.




4.182 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (42 o 57, 74%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r newidiadau arfaethedig, gan groesawu'r ffocws cryfach ar fynd i'r afael â gwahaniaethu a'r canllawiau cliriach a ddarperir i baneli. Roedd lleiafrif bach (saith, 12%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, gan fynegi pryderon ynghylch tegwch, cwmpas neu orymestyn. Nid oedd rhai ymatebwyr (wyth, 14%) yn cytuno nac yn anghytuno, gan geisio mwy o eglurder ar ddiffiniadau, enghreifftiau ymarferol, neu berthnasedd rhai paragraffau i'r cam sancsiynau yn aml.

## Dadansoddiad thematig o'r ymatebion ynglŷn â chamwahaniaethu

### C6 – Gwahaniaethu: Enghreifftiau a diffiniadau

4.183 Roedd o leiaf wyth o ymatebwyr yn gwerthfawrogi cynnwys diffiniadau ac enghreifftiau o ymddygiad gwahaniaethol (ym mharagraffau 85–87 o'r polisi drafft), gan ddweud bod y rhain yn gwneud disgwyliadau'n gliriach. Fodd bynnag, awgrymodd un fireinio ymhellach, er enghraifft egluro beth sy'n cyfrif fel 'achos cyfiawn' wrth wrthod darparu gwasanaeth, neu gyfeirio'n benodol at wrthwynebiadau crefyddol, diwylliannol neu gydwybodol yn unol â chanllawiau sancsiynau'r GMC.

4.184 Fodd bynnag, dadleuodd dau sefydliad arall nad oes angen paragraffau 82–87 yn ystod y cam sancsiynau, gan awgrymu bod yr wybodaeth hon yn perthyn i rywle arall mewn canllawiau rheoleiddio. Roeddent yn teimlo mai paragraff 88 yn unig oedd yn cynnwys y deunydd ymarferol sydd ei angen ar gyfer paneli, a bod y paragraffau cynharach yn ychwanegu fawr ddim sydd o werth gweithredol.

4.185 Roedd o leiaf bedwar ymatebydd hefyd yn ofni y gallai hyn gymylu'r ffin rhwng camymddygiad proffesiynol a chred bersonol gyfreithlon a gwnaethant awgrymu y dylai'r HCPC ddarparu mwy o fesurau amddiffyn ar gyfer cred bersonol. Pwysleisiodd un unigolyn cofrestredig sy'n cefnogi'r cynnig fod yn

rhaid i degwch fod yn berthnasol y ddwy ffordd - amddiffyn y rhai sy'n wynebu gwahaniaethu ac osgoi camddefnyddio honiadau at ddibenion personol neu faleisus. Fe wnaethant alw ymhellach am asesiad yn seiliedig ar dystiolaeth o honiadau camwahaniaethu a mesurau diogelu yn erbyn atgyfeiriadau blinderus.

4.186 Anogodd dau sefydliad yr HCPC i gynnwys enwau penodol ar fathau o wahaniaethu gan gynnwys Islamoffobia a gwahaniaethu anuniongyrchol a systemig, yn ogystal â niwed croestoriadol (e.e., lle mae gwahaniaethu yn gorgyffwrdd â deinameg pŵer neu aflonyddu).

4.187 Roedd un sefydliad eisiau sicrwydd bod cyfeiriadau at 'bob math o wahaniaethu' yn gyson â chyfraith cydraddoldeb a nodweddion gwarchodedig y DU, gan rybuddio y gallai ieithwedd rhy eang arwain at ddehongliadau anghyson neu oddrychol.

### Ymateb yr HCPC

4.188 Rydym yn croesawu cefnogaeth i gynnwys diffiniadau ac enghreifftiau o ymddygiad gwahaniaethol ym mharagraffau 82–87 y polisi drafft (paragraffau 97-102 yn y polisi diwygiedig), sy'n rhoi eglurder i baneli ynglŷn â disgwyliadau a gwneud penderfyniadau.

4.189 Rydym yn cytuno ag awgrymiadau y dylid egluro termau fel 'achos cyfiawn' ymhellach mewn perthynas â gwrthod darparu gwasanaeth, a chydnabod gwrthwynebiadau cydwybodol, crefyddol neu ddiwylliannol. Er nad ydym wedi cyfeirio'n benodol at wrthwynebiadau cydwybodol, crefyddol neu ddiwylliannol, rydym wedi cryfhau eglurder yr adran hon drwy ddileu'r term 'achos cyfiawn' a'i ddisodli â geiriad sy'n ei gwneud hi'n glir na ddylai unigolyn cofrestredig wrthod yn annheg ddarparu gwasanaeth neu dderbyn person fel cleient oherwydd pwy ydynt, neu oherwydd rhywun y maent yn gysylltiedig â nhw ym mharagraff 102 y polisi diwygiedig. Byddwn hefyd yn ystyried datblygu nodyn ymarfer i roi rhagor o arweiniad i baneli.

4.190 O ran cysoni â'r polisi â'r egwyddorion yn sancsiynau’r GMC, credwn fod ein dulliau o ymdrin â'n polisïau yn eithaf gwahanol o ystyried ein dulliau gwahanol o ymdrin â phrosesau FTP.

4.191 Nodwn bryderon gan leiafrif o ymatebion y gallai paragraffau 82–87 y polisi drafft fod yn fwy priodol mewn mannau eraill mewn canllawiau rheoleiddio. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod cadw'r diffiniadau hyn yn y polisi sancsiynau yn ystod y cam sancsiynau yn helpu i ddarparu cyd-destun ar gyfer paneli ac yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cyson, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

4.192 Rydym yn cytuno bod rhaid amddiffyn credoau personol a mynegiadau cyfreithlon o feddwl a chredoau yn y broses reoleiddio, ond rydym yn hyderus

nad yw'r polisi'n ceisio llesteirio credoau personol na mynegiadau cyfreithlon o'r credoau hynny. Mae'r polisi'n glir bod yn rhaid i unigolion cofrestredig gymryd camau i sicrhau nad yw eu gwerthoedd personol, eu rhagfarnau a'u credoau yn eu harwain i wahaniaethu yn erbyn eraill neu'n effeithio'n andwyol ar y gofal, y driniaeth neu'r gwasanaethau eraill a ddarparant. Ymhellach, yn y cam hwn o'r broses FTP, bydd canfyddiad eisoes wedi'i wneud bod addasrwydd unigolyn cofrestredig i ymarfer eisoes wedi'i amharu. Felly, nid ydym yn cytuno bod angen gwneud diwygiadau pellach i'r polisi diwygiedig ar sail ar yr adborth hwn. Byddwn hefyd yn ystyried datblygu nodyn ymarfer i roi rhagor o arweiniad i baneli.

4.193 Rydym yn nodi'r argymhelliad i gynnwys enghreifftiau o wahaniaethu anuniongyrchol, systemig, a chroestoriadol. Bydd y polisi'n parhau i bwysleisio y gall camwahaniaethu ddigwydd mewn ffurfiau amlwg, cynnil, neu strwythurol, gan gynnwys lle mae'n gorgyffwrdd â deinameg pŵer neu aflonyddu. Fodd bynnag, nid ydym yn credu ei bod yn fuddiol ceisio rhestru pob math neu enghraifft o gamwahaniaethu. Mewn gwirionedd, credwn y gallai hyn amharu ar ddisgresiwn y paneli a chael effaith andwyol ar degwch a chymesuredd.

4.194 Rydym yn cydnabod ceisiadau i ddiffinio gwahanol ffurfiau o wahaniaethu. Mae diffinio mathau o wahaniaethu y bydd paneli yn eu hasesu y tu hwnt i gwmpas y polisi hwn. Ar y cam hwn, bydd canfyddiad eisoes wedi'i wneud bod amhariad wedi bod ar ymarfer unigolyn cofrestredig. Mae'r adran hon yn tywys paneli wrth bwyso a mesur gwahaniaethu wrth benderfynu gosod, neu beidio â gosod, sancsiwn cymesur. Rydym yn hyderus bod ein polisi yn gyson â chyfraith cydraddoldeb y DU a nodweddion gwarchodedig. Atgoffir paneli yn y polisi y dylent gymhwyso'r egwyddorion hyn yn gyson ac yn gymesur, gan osgoi dehongliadau rhy eang neu oddrychol.

**C6 – Gwahaniaethu: Tegwch a chymesuredd**

4.195 Nodwyd gan sefydliad, er bod rhaid cymryd gwahaniaethu o ddifrif, y gall ei ddifrifoldeb a'i fwriad amrywio, er enghraifft, rhwng gelyniaeth agored a rhagfarn anfwriadol. Fe wnaethant argymell ymhellach hyfforddiant a chanllawiau cyd-destunol i sicrhau bod paneli'n gwahaniaethu rhwng ymddygiad gwahaniaethol bwriadol a chamgymeriadau sy'n deillio o ragfarn anymwybodol, diffyg ymwybyddiaeth, neu niwroamrywiaeth. Nododd un o'r unigolion cofrestredig hefyd y dylid ymgorffori addasiadau rhesymol ac ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth mewn asesiadau er mwyn atal canlyniadau annheg.

4.196 Teimlai rhai ymatebwyr y gallai'r polisi amharu ar ryddid barn neu gredoau unigolion cofrestredig, yn enwedig ynghylch materion sensitif fel hunaniaeth rhywedd neu grefydd. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng ymddygiad gwahaniaethol a chred a fynegir yn broffesiynol, gan gyfeirio

at amddiffyniadau cyfreithiol ar gyfer credoau athronyddol a chrefyddol dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

4.197 Anogodd pedwar ymatebydd yr HCPC i sicrhau nad yw ei brosesau ei hun yn ysgogi parhau â gwahaniaethu yn anfwriadol ac i barhau'n effro i ragfarn strwythurol neu sefydliadol

### Ymateb yr HCPC

4.198 Rydym yn cydnabod yr angen i wahaniaethu rhwng ymddygiad gwahaniaethol bwriadol a gweithredoedd sy'n deillio o ragfarn anymwybodol, diffyg ymwybyddiaeth, neu niwroamrywiaeth. Anogir paneli yn y polisi i ystyried cyd-destun, bwriad, a'r effaith ar unigolion yr effeithir arnynt, gan gynnwys unrhyw addasiadau neu fesurau lliniaru rhesymol. Bydd hyfforddiant a chanllawiau wedi'u targedu i aelodau'r paneli yn cefnogi asesiadau cyson a theg.

4.199 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd amddiffyn rhyddid mynegiant a chredoau cyfreithlon unigolion cofrestredig. Mae'r polisi sancsiynau yn ei gwneud yn glir bod gwerthoedd a chredoau personol, pan gânt eu harfer neu eu mynegi o fewn amddiffyniadau cyfreithiol fel Deddf Cydraddoldeb 2010, yn wahanol i ymddygiad gwahaniaethol. Cyfarwyddir paneli i asesu pob achos yn ofalus, gan sicrhau bod honiadau o wahaniaethu yn seiliedig ar dystiolaeth ac nad ydynt yn cael eu defnyddio'n flinderus. Mae canllawiau pellach i baneli wedi'u hamlinellu yn y Nodyn Ymarfer ar *Ryddid Mynegiant*.


4.200 Rydym yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod ein prosesau FTP yn asesu gwahaniaethu mewn achosion mewn modd cymesur ac yn gweithio mewn modd anwahaniaethol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo monitro rheolaidd, hyfforddiant EDI a rhagfarn anymwybodol, ac adolygiad o arferion sefydliadol gyda'r nod o gynnal tegwch, ecwiti a thryloywder ar draws pob cam o'r broses FTP.

### Cynnig 7: Anonestrwydd

4.201 Fe gynigiom ddarparu canllawiau cliriach i helpu paneli i asesu sut y gall ymddygiad anonest gan unigolion cofrestredig effeithio ar ymddiriedaeth ac achosi niwed er mwyn cefnogi penderfyniadau mwy cyson a gwybodus mewn achosion difrifol sy'n ymwneud ag anonestrwydd.

**Cwestiwn 7: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn ag anonestrwydd?**

4.202 Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom holi'r ymatebwyr am eu barn ynglŷn â'n cynnig ar gyfer anonestrwydd.




4.203 Roedd y mwyafrif (38 o 57 o ymatebwyr, 67%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r newidiadau arfaethedig, gan groesawu mwy o eglurder, strwythur a chysondeb wrth asesu anonestrwydd. Nid oedd lleiafrif sylweddol (12, 21%) yn cytuno nac yn anghytuno, gan gyfeirio'n aml at ddiffyg enghreifftiau manwl neu newid cyfyngedig o'r canllawiau presennol. Roedd lleiafrif bach (saith ymatebydd, 12%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, gan godi pryderon ynghylch tegwch, cymesuredd, a gorddefnydd o honiadau anonestrwydd.

### Dadansoddiad thematig o'r ymatebion ynglŷn ag anonestrwydd

**C7 – Anonestrwydd: Diffiniadau a chysondeb cyfreithiol**

4.204 Gofynnodd unigolyn cofrestredig am ddiffiniad a throthwy cliriach ar gyfer anonestrwydd a phrawf cyfreithiol cyson i'w asesu. Tynnwyd cymariaethau â chanllawiau'r GMC, sy'n darparu meini prawf strwythuredig i wahaniaethu rhwng anonestrwydd risg is (e.e., untro, bach, heb fod yn gysylltiedig â chleifion) a ffurfiau mwy difrifol. Pwysleisiodd o leiaf bum ymatebydd bwysigrwydd bwriad, ailadrodd ac effaith fel ffactorau gwahaniaethol craidd mewn achosion o anonestrwydd.

4.205 Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys sefydliadau, eisiau canllawiau cliriach ar sut y dylai paneli wahaniaethu rhwng anonestrwydd lefel isel a lefel uchel, neu anonestrwydd dan orfodaeth a sut mae pob lefel yn mapio i ganlyniadau posib fel gwaharddiad dros dro neu ddiarddel.

### Ymateb yr HCPC

4.206 Rydym yn cydnabod ceisiadau am ddiffiniad cliriach a throthwy cyfreithiol cyson ar gyfer asesu anonestrwydd. Rydym yn cytuno bod bwriad, ailadrodd ac effaith yn ystyriaethau allweddol wrth bennu difrifoldeb anonestrwydd ac maent eisoes wedi'u hadlewyrchu yn ein dull gweithredu. Mae'r prawf cyfreithiol ar

gyfer anonestrwydd wedi'i hen sefydlu mewn cyfraith achosion,[21] ac felly nid ydym yn cynnig cyflwyno diffiniad newydd nac amgen. Rydym yn nodi pryderon ynghylch cymhwyso anonestrwydd yn annheg heb ddiffiniad cyfreithiol clir na throthwy, yn enwedig mewn perthynas ag unigolion cofrestredig anabl, a byddwn yn sicrhau bod hyfforddiant a chanllawiau i baneli yn parhau i bwysleisio'r angen i gymhwyso'r prawf hwn yn deg ac yn gyson yn unol ag egwyddorion cyfreithiol perthnasol.

**C7 – Anonestrwydd: Tegwch a chymesuredd**

4.207 Mynegodd pump o ymatebwyr bryder bod anonestrwydd weithiau'n cael ei orddefnyddio neu ei gam-gymhwyso mewn achosion HCPC. Rhybuddiodd rhai yn erbyn trin pob anonestrwydd yn gyffredinol fel petai yn y ‘parth diarddel’, gan ddadlau dros fwy o gynildeb ac asesiad unigol.

### Ymateb yr HCPC

4.208 Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch y gor-ddefnydd neu gam-gymhwyso posibl ar anonestrwydd mewn achosion FTP. Rydym yn cytuno na ddylai anonestrwydd arwain yn awtomatig at ddiarddel a bod rhaid asesu pob achos ar sail ei ffeithiau a'i gyd-destun unigol. Mae'r polisi'n rhoi canllawiau i baneli ar sut i asesu pob achos a'r ffactorau perthnasol i'w hystyried. Ein nod yw hyrwyddo dull cytbwys a theg sy'n gwahaniaethu rhwng gwahanol lefelau o anonestrwydd a'u goblygiadau ar gyfer diogelu'r cyhoedd, hyder ac uniondeb proffesiynol.

4.209 Mae anonestrwydd yn gofyn am fwriad - nid yw ymddygiad camarweiniol anfwriadol neu ddamweiniol yn bodloni'r trothwy hwn. Mewn achosion lle mae cyflwr meddwl unigolyn cofrestredig yn berthnasol, megis hunanatgyfeiriadau neu wallau a wneir dan straen, bydd paneli'n cael eu harwain gan y Nodyn Ymarfer presennol ar *gyflwr meddwl unigolyn cofrestredig*. Ein nod yw hyrwyddo dull cytbwys a theg sy'n gwahaniaethu rhwng gwahanol lefelau o anonestrwydd a'u goblygiadau ar gyfer diogelu'r cyhoedd, hyder ac uniondeb proffesiynol.

**C7 – Anonestrwydd: Gwethredu a Hyfforddiant**

4.210 Pwysleisiodd o leiaf dri sefydliad y bydd hyfforddiant i baneli yn hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb wrth gymhwyso ac osgoi camddehongli. Galwodd eraill am gyfeirio cliriach rhwng canllawiau anonestrwydd, dull dadansoddi mwy strwythuredig tebyg i’r canllawiau camwahaniaethu, a chyfeirio at nodiadau ymarfer a pholisïau cysylltiedig i gefnogi paneli, fel y rhai ar ddifrifoldeb a bai.

[21] Ivey v Genting Casinos [2017] UKSC 67

### Ymateb yr HCPC

4.211 Rydym yn cytuno bod hyfforddiant yn hanfodol er mwyn sicrhau bod paneli yn cymhwyso'r canllawiau mewn modd cyson a chymesur. Byddwn yn atgyfnerthu'r egwyddorion hyn drwy hyfforddiant parhaus, gan gynnwys trafodaethau'n seiliedig ar achosion a chyfeirio at nodiadau ymarfer. Rydym wedi gwneud gwelliannau i gryfhau'r arwyddbostio rhwng y canllawiau anonestrwydd, adrannau difrifoldeb a bai, a pholisïau cysylltiedig eraill, gan sicrhau fframwaith cydlynus a hygyrch.

**C7 – Anonestrwydd: Eglurder a bwriad**

4.212 Teimlai un sefydliad fod yr adran yn rhy debyg i'r canllawiau presennol, heb fawr o newid sylweddol nac enghreifftiau ymarferol. Gofynnodd sefydliad arall am esboniad pellach o sut mae anonestrwydd yn effeithio ar ymddiriedaeth neu'n achosi niwed, a sut mae gwahanol fathau o anonestrwydd yn ymwneud â diogelu'r cyhoedd.

4.213 Roedd cefnogaeth gref hefyd i gydnabod graddau o anonestrwydd, o ddigwyddiadau untro i dwyll bwriadol, er mwyn sicrhau canlyniadau cymesur. Teimlwyd hefyd nad yw'r polisi'n caniatáu i unigolion cofrestredig gymryd camau cywiro effeithiol. Yn benodol, teimlai un ymatebydd y dylid ystyried anonestrwydd damweiniol, yn enwedig mewn perthynas â hunanatgyfeiriadau ar gyfer iechyd, yn ofalus. Roedd eraill yn teimlo y dylid gwneud cysylltiadau cliriach rhwng anonestrwydd, ymddiriedaeth, a risgiau trosglwyddadwy pan fydd anonestrwydd yn digwydd y tu allan i ymarfer proffesiynol.

4.214 Tynnodd tri ymatebydd sylw at yr angen i baneli ystyried bwriad, cymhelliant, a phwysau cyd-destunol, megis anonestrwydd dan straen, ofn, neu orfodaeth, yn hytrach nag er budd personol, pwysau diwylliannol, systemig, neu wahaniaethol sy'n dylanwadu ar ymddygiad, camliwio cymhwysedd proffesiynol, neu 'anonestrwydd deallusol,' fel math o gamymddygiad difrifol.

### Ymateb yr HCPC

4.215 Rydym yn cydnabod adborth y gallai'r adran ar anonestrwydd elwa o wahaniaethu mwy o'i gymharu â'r canllawiau presennol ac o gynnwys mwy o enghreifftiau ymarferol. Rydym wedi adolygu'r testun i sicrhau ei fod yn egluro'n glir sut mae anonestrwydd yn effeithio ar ymddiriedaeth ac yn achosi niwed, gan gynnwys ei berthnasedd i hyder y cyhoedd a safonau proffesiynol.

4.216 Rydym wedi dileu cyfeiriadau at gyfaddefiad cynnar o anonestrwydd ar ran yr unigolyn cofrestredig fel nad yw paneli'n tybio bod cyfaddef anonestrwydd ar ôl i'r digwyddiad gael ei ganfod yn awtomatig yn lliniaru difrifoldeb. Rydym hefyd yn cydnabod yr adborth ynghylch cydnabod gwahanol raddau o anonestrwydd, o ddigwyddiadau ynysig i dwyll bwriadol, a'r angen am ganlyniadau sy'n gymesur â'r amgylchiadau.

4.217 Mewn ymateb, rydym wedi ychwanegu eglurder pellach yn yr adran hon bod rhaid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, gan ystyried yn llawn y cyd-destun, cyflwr meddwl, ac unrhyw ffactorau lliniarol neu waethygol perthnasol. Credwn fod y polisi eisoes yn glir y gall anonestrwydd mewn ymarfer proffesiynol a thu allan iddo gael effaith ar ymddiriedaeth ac felly beri risg i ddiogelwch y cyhoedd a hyder yn y proffesiwn (gweler paragraff 88 y polisi diwygiedig). Rydym hefyd wedi cyfeirio at ganllawiau presennol ac wedi dileu'r enghreifftiau esboniadol o anonestrwydd i gyd-fynd yn well â'n dull o ymdrin â'r polisi ac i annog paneli i geisio enghreifftiau ac arweiniad pellach o'r Nodyn Ymarfer ar *gyflwr meddwl unigolyn cofrestredig*.

4.218 Rydym yn cytuno y dylai paneli ystyried ffactorau cyd-destunol fel straen, ofn, gorfodaeth, neu bwysau systemig wrth asesu anonestrwydd. Fodd bynnag, byddai'r ffactorau hyn eisoes wedi cael eu hasesu gan y paneli yng nghyfnod penderfynu ar amhariad y broses FTP cyn y cyfnod sancsiynu. Felly, nid ydym yn cytuno bod angen i ni wneud unrhyw newidiadau pellach i'r polisi. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu ein nodiadau ymarfer a fydd yn cael eu defnyddio gan baneli yng nghyfnodau cynharach y broses FTP, i ddarparu canllawiau ychwanegol i baneli lle bo angen.


4.219 Er bod rhai ymatebwyr wedi cynnig y dylid ehangu anonestrwydd i gynnwys 'anonestrwydd deallusol' neu gamliwio cymhwysedd, rydym yn ystyried bod hyn yn ddiangen, gan fod y canllawiau eisoes yn cwmpasu ystod eang o ymddygiad anonest, o fewn ac oddi allan i'r gweithle. Mae'r polisi'n glir nad yw'r enghreifftiau a ddarperir yn gynhwysfawr ond eu bod wedi'u bwriadu i gefnogi paneli wrth iddynt ddehongli ymddygiad o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol.

## Cynnig 8: Camymddygiad â chymhelliant rhywiol

4.220 Fe gynigiom y dylid cryfhau ein canllawiau ar gamymddwyn â chymhelliant rhywiol er mwyn sicrhau bod paneli’n ystyried yr ymddygiad a bwriad yr unigolyn cofrestredig. Bydd hyn yn helpu paneli i wneud penderfyniadau teg a chyson ac amddiffyn y cyhoedd yn well yn yr achosion difrifol hyn.

**Cwestiwn 8: I ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r newidiadau arfaethedig ynglŷn â chamymddygiad â chymhelliant rhywiol?**

4.221 Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom holi’r ymatebwyr am eu barn ynglŷn â’n cynnig ar gyfer camymddygiad â chymhelliant rhywiol.




4.222 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (44 o 57, 77%) yn cefnogi'n gryf gynnwys 'camymddwyn â chymhelliant rhywiol' yn benodol, gan ei weld fel eglurhad angenrheidiol sy'n cynnwys ymddygiadau nad ydynt yn gorfforol ond sy'n dal yn niweidiol. Nododd llawer y byddai'r ychwanegiad hwn yn helpu i sicrhau bod torri ffiniau rhywiol a chamymddwyn mewn cyd-destunau proffesiynol yn cael triniaeth ddifrifol a chyson. Roedd rhai hefyd yn croesawu'r gydnabyddiaeth i ymddygiad camdriniol anghorfforol neu gudd, a'r ymagwedd dim goddefgarwch ar gyfer achosion niwed uchel (e.e., cam-drin plant yn rhywiol, delweddau anweddus o blant).

4.223 Cawsom saith (12%) ymateb niwtral a oedd yn pwysleisio'r angen am eglurder, enghreifftiau, a chanllawiau ar asesu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd chwech (11%) o ymatebion yn gwrthwynebu'r cynnig yn canolbwyntio ar fylchau canfyddedig yng nghanllawiau'r polisi, gan gynnwys diffyg eglurder ar ddiffiniadau, trin camymddygiad difrifol yn anghyson, a phryderon y gallai asesiadau sy'n seiliedig ar fwriad gael eu camddefnyddio neu gosbi unigolion cofrestredig yn annheg.

## Dadansoddiad thematig o ymatebion camymddygiad â chymhelliant rhywiol

### C8 – Camymddwyn â chymhelliant rhywiol: Enghreifftiau a diffiniadau

4.224 Nododd dau sefydliad nad oedd testun y polisi yn adlewyrchu'n llawn y bwriadau a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Yn benodol, roedd pryder bod y diffiniad o gymhelliant rhywiol a'r cyfeiriad at asesiad yn seiliedig ar fwriad ar goll neu heb eu datblygu'n ddigonol yn y ddogfen bolisi. Fe wnaethant argymell croesgyfeirio at nodiadau ymarfer perthnasol i ddarparu'r eglurder angenrheidiol ac awgrymu ymhellach y dylid cynnwys diffiniad o gymhelliant rhywiol. Mynegodd un sefydliad, er bod y ddogfen ymgynghori yn tynnu sylw at asesu ymddygiad a chymhelliant, fod diffyg canllawiau yn y ddogfen bolisi ar asesu cymhelliant.

4.225 Argymhellodd sefydliad arall y dylid cryfhau'r canllawiau drwy ei gwneud yn eglur bod camymddygiad tuag at gydweithwyr yr un mor ddifrifol â thuag at ddefnyddwyr gwasanaeth.

4.226 Cyfeiriodd dau ymatebydd sefydliadol hefyd at ganllawiau'r PSA ar ffiniau rhywiol, gydag un yn awgrymu y dylem ddarparu dolenni i ganllawiau'r PSA o fewn y polisi.

### Ymateb yr HCPC

4.227 Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol i'r canllawiau estynedig ac yn nodi ceisiadau am gyfeiriadau cliriach at dorri ffiniau yn ddigidol.

4.228 Rydym yn cytuno y gallai'r polisi fod yn gliriach, ac felly, rydym wedi diwygio'r polisi i gynnwys cyfeiriad penodol at weithredoedd ar-lein a digidol, megis negeseuon amhriodol neu droseddau sy'n ymwneud â delweddau anweddus (gweler paragraff 118). Rydym hefyd wedi ychwanegu croesgyfeiriadau yn yr adran hon at y paragraffau ar bobl sy'n agored i niwed (paragraffau 114-116) ac ymddygiad ysglyfaethus (paragraffau 110-113) a'r Nodyn Ymarfer ar *gyflwr meddwl unigolyn cofrestredig* er mwyn hyrwyddo cysondeb a dealltwriaeth ar draws achosion ac i arwain paneli o ran asesu cymhelliant.

4.229 Rydym yn cydnabod y gallai testun y polisi adlewyrchu'n fwy penodol y bwriad a nodir yn yr ymgynghoriad, yn enwedig o ran y diffiniad o gymhelliant rhywiol a'r cyfeiriad at asesu ar sail bwriad. Rydym wedi diwygio'r testun er mwyn sicrhau bod egwyddorion cyfreithiol allweddol yn cael eu hadlewyrchu'n glir, gan dynnu ar egwyddorion cyfraith achosion sefydledig.

4.230 Rydym yn cytuno â'r awgrym y dylid egluro ein safbwynt ar gamymddygiad tuag at gydweithwyr ac wedi addasu'r polisi diwygiedig (gweler paragraff 120).

4.231 Rydym yn nodi ceisiadau rhanddeiliaid i gysylltu â dogfennau allanol megis canllawiau PSA ar ffiniau rhywiol. Er ein bod yn cydnabod gwerth adnoddau o'r fath, nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol ymgorffori canllawiau allanol yn uniongyrchol yn ein polisi, oherwydd y gallai'r deunyddiau hyn gael eu diwygio, eu harchifo, neu eu tynnu'n ôl dros amser. Yn hytrach, byddwn yn sicrhau bod ein canllawiau'n parhau i fod yn gyson ag egwyddorion rheoleiddio ehangach wrth gynnal ein safonau clir ac awdurdodol ein hunain.

### C8 – Camymddwyn â chymhelliant rhywiol: Tegwch, cysondeb a chymesuredd

4.232 Pwysleisiodd pump o ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yr angen i benderfyniadau barhau'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn gymesur, gan gydnabod difrifoldeb honiadau o'r fath.

4.233 Mynegodd o leiaf bedwar ymatebydd bryder ynghylch yr heriau o ran cadarnhau bwriad, yn enwedig ar gyfer unigolion niwroamrywiol neu achosion cymhleth a chymesuredd sancsiynau. Galwodd rhai am hyfforddiant i baneli ar werthuso cyflwr meddwl, bwriad, a gwahaniaethau cyfathrebu diwylliannol neu niwroamrywiol.

4.234 Roedd o leiaf un ymatebydd o'r farn bod yr adran (paragraff 95 y polisi drafft) yn cyfuno gwahanol senarios (e.e. cysylltu â defnyddiwr gwasanaeth v cydweithiwr) heb wahaniaethu digonol o ran difrifoldeb. Cytunodd dau ymatebydd arall fod pob camymddygiad rhywiol yn ddifrifol ond awgrymasant y dylai'r polisi wahaniaethu'n well rhwng graddau niwed a bwriad, gan sicrhau sancsiynau cymesur. Awgrymodd un arall nad oedd diogelwch dioddefwyr yn cael blaenoriaeth o fewn y polisi ac argymhellodd y dylid cynnwys gwybodaeth arbenigwyr mewn achosion o drais rhywiol, ac argymhellodd ymatebydd sefydliadol y dylid pwysleisio na ddylai paneli ystyried camymddygiad rhywiol yn erbyn cydweithwyr fel rhywbeth llai difrifol na chamymddygiad rhywiol yn erbyn defnyddwyr gwasanaeth.

4.235 Cwestiynodd tua phump o ymatebwyr a allai'r dull arfaethedig arwain at orymestyn neu oddrychedd, yn enwedig lle mae tystiolaeth o gymhelliant yn amwys.

4.236 Cododd o leiaf ddau ymatebydd bryderon y gallai paragraff 103 fod wedi awgrymu y gallai unigolion sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol aros mewn ymarfer cyfyngedig a bod hynny wedi arwain at anghysondeb yn nrafft y polisi.

### Ymateb yr HCPC

4.237 Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i sicrhau bod penderfyniadau yn yr achosion hyn yn parhau yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gymesur, gan adlewyrchu difrifoldeb yr honiadau dan sylw.

4.238 Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch yr heriau o ran cadarnhau bwriad, yn enwedig mewn achosion cymhleth neu lle gall niwroamrywiaeth fod yn ffactor. Mae ein prosesau wedi'u cynllunio i sicrhau tegwch gweithdrefnol, a byddwn yn parhau i ymgorffori mesurau diogelwch cadarn i amddiffyn unigolion cofrestredig rhag canlyniadau annheg, gan gynnwys trwy drothwyon tystiolaethol cyson, paneli sydd wedi’u hyfforddi’n dda, a phenderfyniadau clir sydd â rhesymeg gadarn. Rydym hefyd wedi atgyfnerthu yn y polisi yr angen i ystyried ffactorau cyd-destunol, gwahaniaethau cyfathrebu, a thystiolaeth o fwriad yn ofalus cyn dod i gasgliadau ar gymhelliant.

4.239 Yn ogystal, rydym wedi ychwanegu paragraff 120 at y polisi diwygiedig i egluro bod camymddygiad tuag at gydweithwyr yr un mor ddifrifol â chamymddygiad tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth, er mwyn sicrhau cydraddoldeb ac eglurder.

4.240 Rydym yn nodi'r pryderon ynghylch blaenoriaethu diogelwch dioddefwyr a'r posibilrwydd o gynnwys gwybodaeth arbenigwyr mewn achosion sy'n ymwneud â thrais rhywiol. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cymorth i ddioddefwyr, ac rydym wedi codi'r pryderon hyn gyda'n tîm FTP. Fodd bynnag, mae'r ystyriaethau hyn yn ymwneud â sut mae gwrandawiadau'n cael eu cynnal ac felly maent y tu allan i gwmpas y polisi hwn.

4.241 Rydym hefyd yn cytuno â'r adborth y dylai'r polisi wahaniaethu rhwng graddau o niwed, cyd-destun a bwriad gan gynnal hefyd yr egwyddor bod pob camymddygiad â chymhelliant rhywiol yn ddifrifol yn ei hanfod. Felly, rydym wedi ychwanegu croesgyfeiriadau at adrannau eraill yn y polisi i lywio paneli tuag at ystyried pa mor agored i niwed oedd rhywun ac ymddygiad ysglyfaethus wrth asesu camymddygiad rhywiol neu gamymddygiad â chymhelliant rhywiol. Bydd ein hadolygiadau a'n hyfforddiant parhaus yn atgyfnerthu'r cydbwysedd hwn er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n parhau yn gymesur ac yn amddiffyn hyder y cyhoedd.


4.242 Rydym yn deall pryderon y gallai paragraff 103 yn y polisi drafft fod wedi awgrymu y gallai unigolion sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol barhau mewn ymarfer cyfyngedig. Mae'r polisi diwygiedig wedi'i addasu i egluro bod achosion o'r fath yn debygol o arwain at ddiarddel, gan gysoni'r geiriad â'r paragraff ar droseddau sy'n gysylltiedig â delweddau anweddus o blant er mwyn sicrhau cysondeb (gweler paragraffau 124 a 127). Mae hyn yn sicrhau bod pob math o gam-drin rhywiol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â delweddau anweddus o blant, yn cael eu trin yn gyson ac yn gymesur.

**Cynnig 9: Ffiniau proffesiynol**

4.243 Fe gynigiom adran newydd ar ffiniau proffesiynol i helpu paneli i asesu pryderon ynghylch unigolion cofrestredig yn cynnal perthnasoedd priodol â defnyddwyr gwasanaethau a chydweithwyr. Mae hyn yn adlewyrchu diwygiadau diweddar i'n safonau a *Nodyn Ymarfer HCPTS ar Ffiniau Proffesiynol*, gan sicrhau dull cyson a theg o weithio. Bydd yr ychwanegiad newydd hwn yn cysoni'r polisi sancsiynau arfaethedig â'n safonau diwygiedig a'n nodiadau ymarfer, gan gynorthwyo paneli i wneud penderfyniadau clir, strwythuredig a rhesymegol yn yr achosion hyn.

**Cwestiwn 9: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â ffiniau proffesiynol?**

4.244 Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom holi'r ymatebwyr am eu barn ynglŷn â'n cynnig ar gyfer ffiniau proffesiynol.




4.245 Roedd 41 (72%) o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â chyflwyno adran bwrpasol ar ffiniau proffesiynol, gan groesawu'r eglurder y mae'n ei ddarparu i baneli ac i unigolion cofrestredig. Roedd llawer yn teimlo bod hyn yn cryfhau'r amddiffyniad i ddefnyddwyr gwasanaethau ac yn hyrwyddo prosesau gwneud penderfyniadau cyson ac yn gwbl gyson â'r Nodyn Ymarfer ar *Ffiniau Proffesiynol* a'n safonau. Fodd bynnag, mynegodd deg (18%) o'r ymatebwyr safbwyntiau niwtral, gan nodi'n aml fod angen enghreifftiau pellach neu ddiffiniadau cliriach cyn y gallent ffurfio barn.

4.246 Roedd pump (9%) o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf gan godi pryderon nad yw'r adran yn mynd yn ddigon pell i sicrhau tegwch, cysondeb, neu gymesuredd cyd-destunol ar draws gwahanol broffesiynau neu dynnu sylw at anghysondebau a bod angen gochel rhag gor-symleiddio achosion cymhleth.

### Dadansoddiad thematig o'r ymatebion ynglŷn ffiniau proffesiynol

**C9 – Ffiniau proffesiynol: Cymesuredd a gwahaniaethu cliriach**

4.247 Cymeradwyodd 41 (72%) o'r ymatebwyr yr adran newydd, gan ei disgrifio fel ychwanegiad angenrheidiol ac ystyriol i'r polisi sancsiynau. Ychwanegon nhw fod cynnwys enghreifftiau penodol a chanllawiau strwythuredig yn helpu paneli i osod sancsiynau cymesur, gan wahaniaethu rhwng mân-achosion neu achosion damweiniol o groesi'r ffiniau a chamymddygiad difrifol.

4.248 Fodd bynnag, tynnodd tua phump o ymatebwyr sylw at yr angen i wahaniaethu rhwng y mathau o ffiniau, er enghraifft rhwng torri ffiniau rhywiol, emosiynol, ariannol a chymdeithasol, yn ogystal â rhwng mân-lithriadau o ran ffiniau a chamymddygiad difrifol. Gofynnodd un ymatebydd am ddosbarthiad o'r math o ffiniau proffesiynol sy'n bodoli trwy ddefnyddio is-benawdau i ynmdrin

ag enghreifftiau a amlinellwyd eisoes ym mharagraff 92 y polisi drafft. Awgrymodd un arall y dylid ystyried yr ymddygiad ysglyfaethus ar draws mathau o honiadau, mewn modd tebyg i ddull y GMC. Anogodd dau ymatebydd yr HCPC i gynnwys sbectrwm difrifoldeb a chanllawiau ynglŷn â ffactorau lliniarol megis mewnwelediad, ailadrodd a niwed.

4.249 Beirniadodd o leiaf ddau gyfrannwr sefydliadol y polisi am fod naill ai'n rhy eang neu'n anghyson â Nodyn Ymarfer yr HCPTS ar *Ffiniau Proffesiynol*. Roeddent yn teimlo bod yr adran yn 'cydosod' gwahanol gyd-destunau, er enghraifft, cysylltu â defnyddiwr gwasanaeth v cydweithiwr drwy gyfryngau cymdeithasol, ac yn peri risg o ddryswch neu ddehongliad anghymesur.

4.250 Argymhellodd o leiaf dri ymatebydd y dylai'r canllawiau gynnwys camymddygiad tuag at gydweithwyr, myfyrwyr, hyfforddeion a rhai sydd dan oruchwyliaeth yn benodol, yn enwedig lle ceir anghydbwysedd pŵer neu gamddefnyddio awdurdod. Roedd eraill yn awyddus i weld cydnabyddiaeth i orymestyn proffesiynol (e.e. gweithredu y tu hwnt i gymhwysedd, camddefnyddio awdurdod arbenigwr) fel math o doriad ffiniau.

4.251 Teimlai un unigolyn cofrestredig y gellid cryfhau'r adran drwy gynnwys adran yn benodol ar dorri rheolau â chymhelliant rhywiol. Awgrymodd un arall y dylai'r canllawiau ei gwneud yn eglur bod yn rhaid i achos o dorri ffin fod yn gysylltiedig â rôl ac ymddygiad proffesiynol. Teimlai ymatebydd gwahanol nad oedd y polisi yn ddigon penodol i roi canllawiau i unigolion cofrestredig a phaneli, yn enwedig i weithwyr proffesiynol a allai fod yn gweithio yng nghartrefi pobl. Roedden nhw’n awyddus i gael canllawiau proffesiwn-benodol.

## Ymateb yr HCPC

4.252 Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gref gyffredinol i gynnwys yr adran hon ac yn falch bod yr ymatebwyr yn ystyried bod y canllawiau strwythuredig a'r enghreifftiau yn ddefnyddiol wrth hyrwyddo cysondeb a chymesuredd.

4.253 Rydym yn cydnabod yr awgrym y dylid gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o dorri ffiniau – rhywiol, emosiynol, ariannol, a chymdeithasol – neu fathau o honiadau. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod Nodyn Ymarfer yr HCPTS ar *Ffiniau Proffesiynol* sydd wedi’i gyhoeddi yn darparu enghreifftiau a chanllawiau cadarn i baneli eu deall, ac rydym wedi ailddrafftio'r adran i sicrhau y cyfeirir yn glir at y nodyn ymarfer yn yr adran hon.

4.254 Nodwn adborth sy'n awgrymu y gallai'r adran fod yn gliriach ac yn fwy cyson â'r nodyn ymarfer. Nid ydym yn cytuno nad yw'r polisi'n gyson â'r nodyn ymarfer ffiniau proffesiynol, ond rydym wedi cyfeirio'n fwy amlwg at y nodyn ymarfer i sicrhau y ceir cysondeb ac eglurder. Mae'n sylw teg nad yw'r nodyn ymarfer yn ymdrin ag ymddygiad ysglyfaethus yn y ffordd a amlinellir yn y polisi

drafft, felly byddwn yn datblygu'r nodyn ymarfer ymhellach yn unol â hynny yn hytrach na'i ddileu o'r polisi. Bwriad y canllawiau yw cynorthwyo paneli i osod sancsiynau sy'n amddiffyn y cyhoedd ac sy'n gymesur ac yn sensitif i gyd-destun, a chynnal safonau proffesiynol uchel ar yr un pryd.

4.255 Rydym yn cydnabod argymhellion i gynnwys camymddygiad tuag at gydweithwyr, myfyrwyr, a rhai sydd dan oruchwyliaeth yn benodol, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle ceir anghydbwysedd pŵer neu gamddefnyddio awdurdod. Rydym yn cytuno y gall achosion o dorri ffiniau godi yn y cyd-destunau hyn, felly rydym wedi diwygio'r canllawiau i gyfeirio'n well at y nodyn ymarfer sy'n adlewyrchu hyn yn fwy penodol. Mae achosion sy'n ymwneud â gorymestyn proffesiynol, megis camddefnyddio arbenigedd neu awdurdod, bellach wedi'u nodi'n glir fel pryderon ynglŷn â ffiniau o fewn y polisi diwygiedig. Rydym hefyd wedi cynnwys canllawiau pellach i helpu paneli i asesu anghydbwysedd pŵer posib gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr neu gydweithwyr (gweler paragraffau 105-116).

4.256 Gofynnwyd i ni gynnwys cyfeiriad penodol at doriadau â chymhelliant rhywiol yn yr adran hon. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried y byddai'r adran hon yn elwa o gael cofnod ychwanegol ar y mathau hyn o gamymddygiad, gan fod y pynciau hyn eisoes wedi'u trafod yn ddigon manwl mewn mannau eraill yn y polisi (gweler paragraffau 117-122). Er mwyn gwella eglurder, rydym wedi diweddaru'r polisi i ychwanegu croesgyfeiriadau at adrannau perthnasol.

4.257 O ran yr awgrym bod rhaid i doriadau ffiniau fod yn gysylltiedig â'r rôl broffesiynol, nid yw'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg yn cyfyngu ar dorri ffiniau yn y modd hwn. Gall fod amgylchiadau lle mae ymddygiad unigolyn cofrestredig y tu allan i'w rôl broffesiynol yn berthnasol i'w haddasrwydd i ymarfer, ac mae'n bwysig bod y polisi'n parhau i adlewyrchu hynny.

4.258 Rydym hefyd yn nodi'r adborth yn dweud y dylai'r polisi fod yn fwy penodol ar gyfer gwahanol broffesiynau a'r cyd-destun unigryw y maent yn ei wynebu, yn enwedig ar gyfer unigolion cofrestredig sy'n gweithio yng nghartrefi pobl. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd cyd-destun, nid ydym yn ystyried bod canllawiau proffesiwn-benodol yn briodol o fewn y polisi hwn. Bwriedir i'r polisi sancsiynau gael ei gymhwyso mewn modd cyson ar draws pob proffesiwn ar y Gofrestr. Yn ymarferol, mae paneli eisoes yn cynnwys aelodau cofrestredig o'r un rhan o'r Gofrestr a all ddod ag arbenigedd proffesiynol i'r broses FTP. Yn ogystal, gallai fod yn fwy priodol i rai o'r ystyriaethau cyd-destunol a godwyd gael eu trafod yn gynharach yn y broses, er enghraifft, wrth benderfynu ar amhariad, yn hytrach nag o fewn y polisi sancsiynau ei hun.

**C9 – Ffiniau proffesiynol: Bod yn agored i niwed, diwylliant, a chyd-destun**

4.259 Pwysleisiodd pedwar ymatebydd bwysigrwydd asesu cyd-destunol, cydnabod i ba raddau mae rhywun yn agored i niwed, normau diwylliannol, a deinameg y gweithle, er mwyn osgoi dyfarniadau annheg neu ragfarnllyd.

4.260 Dywedodd tri ymatebydd y dylai'r adran ddefnyddio iaith fwy cadarn (e.e. 'torri ffiniau proffesiynol' yn hytrach na 'chamddefnyddio safle proffesiynol') achyfeirio'n benodol at sancsiynau cyfyngol neu ddiarddel mewn achosion difrifol.

### Ymateb yr HCPC

4.261 Rydym yn cytuno bod yn rhaid i baneli ystyried i ba raddau mae rhywun yn agored i niwed, normau diwylliannol, a chyd-destun y gweithle wrth asesu materion ffiniau. Ein hymagwedd ni yw sicrhau bod y canllawiau'n helpu'r paneli i gymhwyso safonau cyson gan barhau'n sensitif i amgylchiadau unigol. Mae'r ystyriaethau hyn yn cael sylw drwy gydol y polisi sancsiynau. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol eu hail-ddatgan yn yr adran benodol hon.

4.262 Nodwn adborth sy'n argymell iaith fwy cadarn a dangos yn fwy eglur pryd y gallai sancsiynau mwy cyfyngol fod yn briodol. Mae'r canllawiau eisoes yn nodi bod torri ffiniau proffesiynol mewn modd difrifol neu gamfanteisiol yn debygol o arwain at sancsiynau mwy cyfyngol, ac rydym wedi adolygu'r derminoleg i sicrhau bod hyn yn cael ei ddatgan yn gyson ac yn ddiamwys drwy gydol yr adran.


## Cynnig 10: Gwelliannau strwythurol a golygyddol

4.263 Er mwyn gwneud y ddogfen yn haws ei darllen a helpu'r paneli i gymhwyso'r canllawiau'n gyson ac yn deg, cynigiom fân-ddiwygiadau strwythurol a golygyddol er mwyn gwneud y polisi sancsiynau arfaethedig yn fwy eglur ac yn haws ei ddilyn. Mae hyn yn cynnwys:

- esboniadau gwell o ble mae sancsiynau'n ffitio yn y broses FTP;
- canllawiau cliriach ar feysydd fel euogfarnau troseddol ac amodau ymarfer; a
- defnydd gwell o is-benawdau i amlygu pynciau allweddol fel mewnwelediad, edifeirwch, a'r rhesymau dros benderfyniadau.

### Cwestiwn 10: I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y newidiadau strwythurol a golygyddol yn eglur?

4.264 Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom holi'r ymatebwyr am eu barn ynglŷn â'n gwelliannau strwythurol a golygyddol arfaethedig.




4.265 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (36 allan o 57, 63%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y newidiadau strwythurol a golygyddol wedi gwella eglurder, darllenadwyedd a hygyrchedd y polisi sancsiynau. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu penawdau cliriach, gwell arwyddbostio, tôn symlach, a dilyniant mwy rhesymegol i’r pynciau. Roeddent yn credu y byddai'r diwygiadau hyn yn helpu paneli, unigolion cofrestredig, a'r cyhoedd i ddeall yn well sut mae penderfyniadau sancsiynau yn cael eu gwneud a'r rhesymeg sy’n sail iddynt.

4.266 Fodd bynnag, roedd tua chwarter yr ymatebwyr (14, 25%) yn niwtral neu nid oeddent yn gwybod, gan gyfeirio’n aml at anhawster o ran asesu'r newidiadau heb fersiwn gymharol o'r polisi, neu ansicrwydd ynghylch sut y bydd paneli'n eu rhoi ar waith yn ymarferol.

4.267 Roedd lleiafrif bach ond arwyddocaol (saith ymatebydd, 12%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, gan ddadlau bod y cynllun a'r strwythur yn ddryslyd, wedi'u fformatio'n wael, neu'n cynnwys gwallau teipograffig. Disgrifiodd rhai ymatebwyr proffesiynol a chyfreithiol y ddogfen fel un aneglur neu hyd yn oed gamarweiniol, gan rybuddio y gallai roi unigolion cofrestredig heb gynrychiolaeth dan anfantais.

### Dadansoddiad thematig o ymatebion gwelliannau strwythurol a golygyddol

**C10 – Gwelliannau strwythur a golygyddol: Hygyrchedd, defnyddioldeb a chynhwysiant**

4.268 Argymhellodd saith ymatebydd, gan gynnwys cyrff cynrychioliadol, y dylid mynd ymhellach i sicrhau hygyrchedd, er enghraifft, cynhyrchu fersiwn 'Hawdd ei Darllen', ychwanegu geirfaoedd neu siartiau llif, a darparu fformatau sy'n gydnaws â darllenwyr sgrin neu wedi'u cyfieithu i Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Fe wnaethant bwysleisio pwysigrwydd sicrhau eglurder i unigolion cofrestredig niwroamrywiol a'r rhai nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

4.269 Roedd chwech ymatebydd o blaid gwell arwyddbostio ond yn galw am esboniadau gwell o ble mae sancsiynau'n ffitio, hyperddolenni ychwanegol rhwng adrannau cysylltiedig (e.e., mewnwelediad, difrifoldeb, sancsiynau). Awgrymodd o leiaf bedwar y dylid ychwanegu cymhorthion gweledol fel siartiau llif penderfyniadau neu dablau crynodeb i helpu paneli i gymhwyso'r canllawiau'n gyson.

4.270 Canfu pump o ymatebwyr fod y strwythur diwygiedig yn ddryslyd, gan adrodd nad oedd pynciau wedi'u grwpio'n rhesymegol, nad oedd y mynegai o gymorth, a bod problemau fformatio yn llesteirio llywio. Cyfeiriodd dau ymatebydd at wallau teipio fel tystiolaeth o olygu annigonol.

4.271 Nododd pedwar ymatebydd nad oedd y gwelliannau yn y strwythur yn datrys amwysedd sylweddol, gan gyfeirio, er enghraifft, at iaith aneglur ynghylch camymddwyn dro ar ôl tro neu faterion cymhwysedd sy'n gysylltiedig ag iechyd. Dadleuasant na allai golygu gwell wneud iawn am yr hyn a deimlent oedd yn amwysedd cysyniadol yn y polisi sylfaenol.

### Ymateb yr HCPC

4.272 Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gref i wella hygyrchedd a defnyddioldeb. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein canllawiau mor glir a chynhwysol â phosibl i bob defnyddiwr. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig pwysleisio bod y polisi sancsiynau yn nodi'r egwyddorion a'r ffactorau y mae'n rhaid i baneli eu hystyried wrth osod sancsiwn. Nid yw wedi'i fwriadu i fod yn rhagnodol nac yn orfanwl, gan y gallai gwneud hynny beri risg o gyfyngu ar allu'r panel i ddefnyddio crebwyll proffesiynol yn wyneb amgylchiadau pob achos. Nod y polisi yw taro cydbwysedd rhwng darparu eglurder a chaniatáu hyblygrwydd er mwyn sicrhau prosesau gwneud penderfyniadau cymesur a theg.

4.273 Rydym yn croesawu'r awgrymiadau i gynhyrchu fersiynau hygyrch o'r ddogfen er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd ei darllen. Fodd bynnag, credwn fod hyn y tu hwnt i gwmpas y polisi. Mae'r polisi sancsiynau yn un mewnol, sy'n golygu ei fod wedi'i ysgrifennu fel canllaw i baneli, nid fel dogfen esboniadol ar ein proses. Ar ben hynny, mae'r polisi sancsiynau yn ddogfen gyfreithiol sy'n destun craffu barnwrol, sy'n golygu bod yr iaith yn y ddogfen wedi'i chynllunio'n fwriadol ac yn benodol.

4.274 Am y rhesymau hyn, ni fyddai'n briodol datblygu'r fersiynau hygyrch a awgrymir, megis fersiynau Hawdd eu Darllen, rhestrau termau neu siartiau llif. Fodd bynnag, mae gwefan HCPTS eisoes yn darparu nifer o adnoddau gweledol a hygyrch a gynlluniwyd i esbonio ein prosesau'n glir i unigolion cofrestredig a thystion. Byddwn yn parhau i archwilio ffyrdd o gefnogi unigolion sy'n ymgysylltu â'r broses FTP, gan gynnwys drwy gynhyrchu canllawiau a deunyddiau esboniadol hygyrch. Mewn ymateb i sylwadau am hygyrchedd,

rydym hefyd wedi ymgorffori brawddegu Saesneg plaen yn ein polisi lle bo modd.

4.275 Rydym yn nodi'r awgrymiadau i gryfhau'r cyfeirio a chynnwys mwy o hyperddolenni rhwng adrannau cysylltiedig. Mewn ymateb, rydym wedi ychwanegu is-benawdau, croesgyfeiriadau a hyperddolenni cliriach i wella llywio, gan sicrhau bod y canllawiau'n parhau i fod yn gryno ac yn hawdd eu defnyddio. Byddwn yn parhau i adolygu sut y gallwn wneud ein prosesau a'n canllawiau yn fwy hygyrch i bob grŵp rhanddeiliaid.


4.276 Rydym yn cydnabod bod rhai ymatebwyr wedi canfod bod y strwythur diwygiedig yn ddryslyd ac wedi nodi problemau gyda fformatio, grwpio pynciau, a gwallau teipograffeg. Rydym wedi mynd i'r afael â'r materion hyn fel rhan o'n proses olygu derfynol, gan sicrhau bod y strwythur yn rhesymegol, bod y mynegai yn ddefnyddiol, a bod y ddogfen yn rhydd o wallau teipograffeg.

4.277 Rydym yn cydnabod bod rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd gwelliannau strwythurol a golygyddol yn unig yn mynd i'r afael ag amwysedd polisi sylfaenol, megis y rhai sy'n ymwneud â chamymddwyn dro ar ôl tro neu faterion cymhwysedd sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae'r rhain yn bwyntiau pwysig sy'n mynd y tu hwnt i eglurder golygyddol ac yn ymwneud â sylwedd y polisi. Fodd bynnag, rydym yn hyderus bod y polisi'n mynd i'r afael â'r pryderon hyn yn ddigonol yn yr adran gymesuredd.

## <u>Cwestiynau atodol</u>

**Cwestiwn 11: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig i'n polisi sancsiynau yn gyffredinol?**

4.278 Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ar ein newidiadau arfaethedig i'n polisi sancsiynau yn gyffredinol.




4.279 Roedd mwyafrif (39 o 57 o ymatebwyr, 68%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r newidiadau arfaethedig i'r polisi sancsiynau yn gyffredinol. Roedd yr ymatebwyr yn ystyried y diwygiadau fel cam ystyrlon tuag at fwy o eglurder, cysondeb, tryloywder a chymesuredd wrth wneud penderfyniadau FTP. Croesawodd llawer o gyrff proffesiynol, undebau ac unigolion y canllawiau cliriach ar faterion fel ffiniau proffesiynol, anonestrwydd, gwahaniaethu a chamymddwyn â chymhelliant rhywiol, gan nodi y byddai'r diweddariadau hyn yn gwella tegwch i unigolion cofrestredig a'r cyhoedd. Croesawodd yr ymatebwyr hefyd gysondeb â safonau, cyfraith achosion ac arfer gorau diwygiedig, yn ogystal â'r ffocws ar ddiogelu'r cyhoedd.

4.280 Fodd bynnag, mynegodd deg (18%) o'r ymatebwyr safbwyntiau niwtral, gan ddatgan yn aml eu bod angen gweld y fersiwn derfynol neu enghreifftiau penodol cyn ffurfio barn bendant. Roedd yr ymatebwyr hyn yn tueddu i bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y gweithrediad yn gefnogol yn hytrach nag yn gosbol.

4.281 Roedd grŵp llai (wyth ymatebydd, 14%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, gan ddadlau naill ai nad yw'r newidiadau'n mynd yn ddigon pell i amddiffyn unigolion cofrestredig neu fod y polisi'n parhau i fod yn rhy gymhleth, yn ddryslyd, neu'n anghyson. Teimlai rhai fod y dull yn parhau i fod yn rhy gosbol ac nad yw'n canolbwyntio digon ar degwch, lles, a barnu fesul achos.

## Dadansoddiad thematig o safbwyntiau ar newidiadau arfaethedig yn gyffredinol

### C11 – Newidiadau arfaethedig yn gyffredinol: Strwythur, eglurder a thôn

4.282 Teimlai pedwar ymatebydd fod y diwygiadau yn arwynebol neu'n ddryslyd. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr hyn, er bod y ddogfen wedi ei diwygio, nad yw'n gwella canllawiau i baneli yn sylweddol nac yn sicrhau tegwch.

### Ymateb yr HCPC

4.283 Rydym yn croesawu adborth adeiladol ar strwythur, eglurder a thôn y polisi sancsiynau arfaethedig. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gweld y diweddariadau'n ddefnyddiol, nodwn fod nifer fach o'r farn nad oedd y diwygiadau'n mynd yn ddigon pell i wella canllawiau na sicrhau tegwch. Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, rydym wedi adolygu strwythur ac iaith y ddogfen i sicrhau ei bod yn darparu cefnogaeth glir ac ymarferol i baneli ac yn hyrwyddo cysondeb wrth wneud penderfyniadau.

**C11 – Newidiadau arfaethedig yn gyffredinol: Tegwch a chymesuredd**

4.284 Cytunodd pedwar ymatebydd â chyfeiriad y newidiadau ond pwysleisiodd fod eu llwyddiant yn dibynnu ar gymhwyso cyson, hyfforddiant cadarn ar gyfer paneli, a gwell amseroldeb trafodion FTP. Rhybuddion nhw efallai na fyddai manteision eglurder a thegwch yn cael eu gwireddu heb weithredu cryf.

4.285 Galwodd tua phump o ymatebwyr am fwy o ffocws ar degwch, lles ac adsefydlu. Gofynont i'r HCPC ystyried effaith emosiynol a seicolegol y broses FTP, yn enwedig ar unigolion cofrestredig o gefndiroedd ymylol neu niwroamrywiol, ac i ymgorffori egwyddorion rheoleiddio tosturiol.

### Ymateb yr HCPC

4.286 Rydym yn cytuno â'r ymatebwyr a bwysleisiodd y bydd effeithiolrwydd y polisi sancsiynau arfaethedig yn dibynnu ar ei gymhwyso cyson a'i weithredu'n gadarn. I gefnogi hyn, rydym yn datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer Partneriaid FTP, gan gynnwys aseswyr cyfreithiol, ochr yn ochr â deunyddiau ategol i atgyfnerthu dehongliad a chymhwyso cyson o'r canllawiau. Er bod hyn y tu allan i gwmpas y gwaith hwn, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gwella amseroldeb trafodion FTP ac yn parhau i flaenoriaethu gwaith yn y maes hwn.

4.287 Rydym yn croesawu'n arbennig yr adborth sy'n tynnu sylw at yr angen i ymgorffori tegwch, lles ac adsefydlu yn ein dull rheoleiddio. Mae'r HCPC wedi ymrwymo i ddatblygu gwaith ar reoleiddio tosturiol ac i ystyried effaith emosiynol a seicolegol ein prosesau, yn enwedig ar gyfer unigolion cofrestredig o gefndiroedd ymylol neu niwroamrywiol. Rydym wedi ymgorffori'r egwyddorion hyn drwy gydol y polisi.

**Cwestiwn 12: A oes unrhyw newidiadau pellach y dylem eu hystyried i'r polisi sancsiynau?**

4.288 Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd i ymatebwyr am newidiadau pellach y dylem eu hystyried i'r polisi sancsiynau. Cwestiynau testun rhydd oedd y rhain ac ni ofynnwyd i ymatebwyr nodi eu lefel o gytundeb gan ddefnyddio dewis lluosog.

4.289 Atebodd mwyafrif yr ymatebwyr ‘Na’, ‘Ddim yn berthnasol’, neu nid oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau pellach, gyda rhai yn nodi bod y polisi’n gyson ag anghenion rheoleiddio ac arfer gorau. Fodd bynnag, cynigiodd lleiafrif o ymatebwyr argymhellion manwl yn canolbwyntio ar degwch, hygyrchedd, cymesuredd a chynhwysiant. Defnyddiodd llawer o ymatebwyr eu hymateb i'r cwestiwn hwn i grynhoi eu hadborth ar draws gweddill yr ymgynghoriad, a oedd yn ddefnyddiol. Lle mae ymatebwyr wedi darparu adborth sydd eisoes wedi'i ystyried yn yr ymateb ymgynghori hwn, nid ydym wedi'i ailadrodd yn yr adran hon.

4.290 Croesawodd o leiaf bedwar ymatebydd y diweddariadau ond anogon nhw fwy o eglurder, tegwch a hygyrchedd gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd meddwl. Roedd y blaenoriaethau'n cynnwys canllawiau cliriach ar wrandawiadau adolygu a diweddaru adrannau sydd wedi dyddio'n gyfreithiol ar gollfarnau troseddol.

4.291 Hefyd, anogodd pedwar ymatebydd ehangu categorïau camymddwyn (i gwmpasu bwlio, aflonyddu, cam-drin seicolegol, camymddwyn digidol, ac anonestrwydd deallusol), a chydnabod atebolrwydd rheoli. Gofynnodd un ymatebydd am ganllawiau penodol ar unigolion cofrestredig yn gweithredu fel tystion arbenigol.

4.292 Hefyd, rhoddodd rhai ymatebwyr rai awgrymiadau gweithdrefnol gan gynnwys offer penderfynu, dangosfyrddau, prosesau FTP cyflymach ac archwilio mesurau arloesol fel sancsiynau addysgol neu fentora gwrthdro mewn achosion gwahaniaethu.

### Ymateb yr HCPC

4.293 Rydym yn croesawu'r adborth meddylgar a ddarparwyd gan ymatebwyr ar newidiadau pellach posibl i'r polisi sancsiynau. Nodwn, er na awgrymodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr welliannau ychwanegol, fod y rhai a roddodd sylwadau mwy manwl wedi codi pwyntiau gwerthfawr ynghylch tegwch, hygyrchedd, cymesuredd a chynhwysiant.

4.294 Rydym hefyd yn cydnabod adborth ar yr angen am degwch a thosturi, yn enwedig i unigolion cofrestredig sy'n profi afiechyd. Rydym yn cytuno y dylid ymdrin ag iechyd yn y polisi ac wedi cyfeirio'n benodol at ystyriaethau iechyd unigolyn cofrestredig drwy gydol y polisi diwygiedig. Mae'r polisi sancsiynau yn disgrifio'n fanwl y ffactorau lliniarol a gwaethygol y dylai panel eu hystyried, gan gynnwys unioni, cyn iddo drafod gwaharddiad dros dro neu ddiarddel, gan bwysleisio y dylai paneli ystyried cyd-destun llawn yr achos a pheidio â gosod sancsiwn cosbol yn unig.

4.295 Rydym yn cydnabod pryderon yr ymatebwyr ynghylch effaith y broses FTP ar unigolion cofrestredig, yn enwedig y rhai sydd â salwch. Mae gan unrhyw unigolyn cofrestredig sy'n mynd trwy'r broses FTP fynediad at y gwasanaeth cymorth FTP i unigolion cofrestredig. Rydym eisoes wedi datblygu canllawiau ar wahaniaethu rhwng camymddygiad, cymhwysedd ac amhariad ar iechyd. Mae hwn ar gael drwy'r *Nodyn Ymarfer Amhariad*, ac rydym wedi darparu dolen yn y polisi i sicrhau bod hwn yn hawdd ei gyrchu ac yn gyson â'n nod i fod yn dryloyw. Mae'r polisi'n parhau i adlewyrchu'r egwyddor y dylai sancsiynau fod yn gymesur â lefel y risg a achosir i'r cyhoedd.

4.296 Rydym wedi ein calonogi bod yr ymatebwyr wedi cydnabod bod y polisi diwygiedig yn gyson ag anghenion rheoleiddio ac arfer gorau. Rydym hefyd yn cydnabod yr adborth adeiladol sy'n tynnu sylw at feysydd lle gallai mwy o eglurder a hygyrchedd gryfhau'r polisi ymhellach. Yn benodol, rydym wedi penderfynu:

- Dileu'r manylion yn yr adran ar Wrandawiadau Adolygu. Mae Nodyn Ymarfer ar wahân ar *Adolygu Sancsiynau Erthygl 30* y mae'r polisi bellach yn cyfeirio paneli ato. Rydym bellach yn credu bod y manylion a gynhwyswyd yn flaenorol ar Wrandawiadau Adolygu y tu allan i gwmpas y polisi.
- Rhoi mwy o eglurder ynghylch sut rydym yn rhoi blaenoriaeth i ac yn cyflymu ein proses gwneud penderfyniadau.

4.297 Byddwn hefyd yn parhau i ymgorffori cymhwysedd diwylliannol, dulliau sy'n seiliedig ar drawma, ac sy'n ymwybodol o niwroamrywiaeth yn ein prosesau trwy grwpiau adolygu mewnol, adborth PSA, a hyfforddiant panel parhaus. Bydd unrhyw nodiadau ymarfer newydd neu ddiwygiedig yn parhau i gynnwys mewnbwn o safbwynt EDI.

4.298 Rydym yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol i'r panel gynnwys geiriad ar ymddygiad digidol, gan gynnwys torri cyfrinachedd neu aflonyddu ar-lein. Rydym hefyd wedi ychwanegu canllawiau ychwanegol at baneli ynghylch bwlio a pham y caiff hyn ei ystyried yn gamymddwyn difrifol. Mae pryderon ailadroddus neu luosog eisoes yn cael eu cydnabod fel ffactorau gwaethygol, ac mae ffactorau gwaethygol ychwanegol fel ymddygiad rheibus rhwng cydweithwyr bellach yn cael eu hadlewyrchu yn y polisi (gweler paragraffau 108-109).

4.299 Mewn ymateb i ddarparu canllawiau penodol ar unigolion cofrestredig sy'n gweithredu fel tystion arbenigol, nid ydym yn ystyried bod hyn yn dod o fewn cwmpas y polisi sancsiynau. Mae safonau ymddygiad ar gyfer tystion arbenigol yn fater i gyrff proffesiynol yn hytrach na'u cynnwys yn y polisi sancsiynau.

4.300 Rydym yn gwerthfawrogi'r awgrymiadau gweithdrefnol sydd â'r nod o wella cysondeb a thryloywder. Er nad yw ein proses FTP yn seiliedig ar gynsail a bod pob achos yn cael ei bennu ar ei rinweddau ei hun, rydym yn cyhoeddi data FTP blynyddol gan gynnwys data ar bryderon a chanlyniadau achosion ac ystadegau demograffig, ac rydym yn archwilio ffyrdd o rannu data mwy manwl yn y dyfodol.

**Cwestiwn 13: A ydych chi'n credu bod gan y newidiadau arfaethedig unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar grwpiau neu unigolion sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gyfatebol Gogledd Iwerddon? (Os felly, rhowch fanylion).**

4.301 Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ar effaith ein newidiadau arfaethedig ar grwpiau neu unigolion sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gyfatebol Gogledd Iwerddon. Cwestiynau testun rhydd oedd y rhain ac ni ofynnwyd i ymatebwyr nodi eu lefel o gytundeb gan ddefnyddio dewis lluosog.

4.302 Tynnodd naw ymatebydd sylw at y ffaith y gallai'r newidiadau arfaethedig wella tegwch, eglurder a chynhwysiant i unigolion cofrestredig. Ystyriwyd bod canllawiau cryfach ar wahaniaethu, ffiniau proffesiynol, camymddwyn rhywiol a chymhwysedd diwylliannol yn gwella amddiffyniad rhag gwahaniaethu yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig. Nodont fod disgwyl i eglurder a hygyrchedd gwell fod o fudd i bob unigolyn cofrestredig, yn enwedig gweithwyr proffesiynol anabl, niwroamrywiol a rhyngwladol, tra bod cydnabyddiaeth benodol o ffactorau diwylliannol ac arddulliau cyfathrebu gwahanol yn cael ei hystyried i fod yn hyrwyddo gwneud penderfyniadau tecach a mwy cynhwysol.

4.303 Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd o anfantais ar gyfer unigolyn cofrestredig hŷn, menywod beichiog neu fenywod sy'n dychwelyd o absenoldeb mamolaeth, a gweithwyr proffesiynol anabl, yn enwedig os yw mynediad cyfyngedig at adferiad yn cael ei drin fel nodwedd waethygol o'r achos. Teimlai un unigolyn cofrestredig y gall y pwyslais ar ‘hyder y cyhoedd’ roi’r rhai â chyflyrau iechyd meddwl neu anableddau dan anfantais annheg.

4.304 Tynnodd pedwar ymatebydd sylw at y risgiau o ragfarn a stereoteipio ar gyfer unigolion cofrestredig Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, unigolion cofrestredig niwroamrywiol, a'r rhai ble nad yw Saesneg eu hiaith gyntaf. Rhybuddiodd ymatebwyr hefyd am effeithiau anghymesur ar unigolion cofrestredig sy'n ddibynnol ar fisa a'r rhai â chyflyrau iechyd meddwl.

4.305 Er mwyn lliniaru risgiau a chryfhau'r polisi, galwodd rhai ymatebwyr am ymgorffori EDI fel egwyddor drawsbynciol yn hytrach na chyfeiriadau ar wahân. Galwon nhw hefyd am ganllawiau cryfach ar ffactorau lliniarol, cyfeiriadau at yr

Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb o fewn y polisi, a datganiadau mwy penodol ar yr angen i osgoi stereoteipiau, rhagfarn, neu gamddehongli diwylliannol.

4.306 Yn ogystal, awgrymodd yr ymatebwyr fonitro data FTP yn rheolaidd am anghymesuredd, hyfforddiant panel ar ragfarn anymwybodol a chymhwysedd diwylliannol, cyhoeddi ac adolygiadau rheolaidd o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â'r polisi, a fersiynau Saesneg plaen i sicrhau hygyrchedd i unigolion cofrestredig a'r cyhoedd.

### Ymateb yr HCPC

4.307 Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn yr ymgynghoriad o sut y gallai'r newidiadau arfaethedig gefnogi mwy o degwch, eglurder a chynhwysiant i unigolion cofrestredig â nodweddion gwarchodedig. Mae'r canllawiau cryfach ar wahaniaethu, ffiniau proffesiynol, camymddwyn rhywiol, a chymhwysedd diwylliannol yn gam pwysig tuag at sicrhau bod prosesau rheoleiddio yn fwy cyfartal ac yn ymatebol i amrywiaeth uniglion cofrestredig a defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

4.308 Rydym yn cefnogi'n benodol y pwyslais ar wella eglurder a hygyrchedd, sy'n debygol o fod o fudd i weithwyr proffesiynol anabl, niwroamrywiol, a gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi a'u recriwtio'n rhyngwladol. Rydym wedi ymgorffori cydnabyddiaeth benodol o ffactorau diwylliannol, niwroamrywiaeth ac arddulliau cyfathrebu gwahanol drwy gydol y polisi diwygiedig i helpu i feithrin gwneud penderfyniadau tecach a mwy cynhwysol.

4.309 Rydym hefyd yn nodi'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynghylch effeithiau anuniongyrchol posibl, gan gynnwys ar gyfer unigolion cofrestredig hŷn, menywod beichiog neu'r rhai sy'n dychwelyd o absenoldeb mamolaeth, a gweithwyr proffesiynol anabl. Rydym yn cytuno bod y rhain yn ffactorau pwysig i baneli eu hystyried, er enghraifft wrth bwyso a mesur adferiad yn gymesur. Mewn ymateb, rydym wedi cynnwys cyfeiriadau yn y polisi diwygiedig i arwain paneli ar ystyried nodweddion gwarchodedig (gweler paragraff 82, er enghraifft). Credwn y bydd hyn yn helpu lliniaru rhai o'r risgiau a nodwyd drwy'r ymgynghoriad.

4.310 Rydym wedi diwygio'r adrannau ar adferiad a diffyg adferiad i arwain paneli i ystyried yr amrywiaeth o dystiolaeth adferiad y gallai unigolyn cofrestredig ei chyflwyno (gweler paragraff 67 o'r polisi diwygiedig) ac i ystyried y rhwystrau i adferiad a allai fodoli i unigolion cofrestredig (paragraff 82). Fodd bynnag, mae gennym ddyletswydd statudol i osod sancsiynau lle maent yn angenrheidiol er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn ac yn y broses reoleiddio. Felly, ni fyddwn yn gwneud unrhyw olygiadau sy'n gysylltiedig â'r iaith hon yn y polisi.

4.311 Rydym wedi penderfynu darparu neu barhau i ddarparu:

- canllawiau cliriach ar ystyried ffactorau lliniarol, gan gynnwys iechyd, cyfrifoldebau gofalu, a chyd-destun y gweithle;
- mesurau diogelwch cryfach i atal stereoteipio neu gamddehongli diwylliannol;
- monitro parhaus o ddata FTP i nodi ac ymdrin ag unrhyw effeithiau anghymesur lle bo modd;
- hyfforddiant panel rheolaidd ar ragfarn anymwybodol a gwneud penderfyniadau teg; a
- cyfarwyddyd clir i baneli i ystyried iechyd ac anabledd a ffactorau cyd-destunol perthnasol eraill wrth asesu cymesuredd a gwneud penderfyniadau ynghylch pa sancsiwn, os o gwbl, i'w osod.

4.312 Rydym hefyd wedi cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb diwygiedig ochr yn ochr â'r polisi diwygiedig, wedi'i gefnogi gan fersiynau Cymraeg i hyrwyddo hygyrchedd i unigolion cofrestredig a'r cyhoedd. Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno y dylai'r polisi gyfeirio at y ddogfen Asesiad ei hun. Mae'r Asesiad yn ddogfen broses ar gyfer cyfnod y camau ymgynghori a datblygu polisi, ac felly ni fyddai'n fuddiol nac yn briodol cyfeirio ati mewn polisi.

**Cwestiwn 14. A oes unrhyw gamau ychwanegol y dylem eu cymryd er mwyn sicrhau nad yw'r newidiadau arfaethedig yn rhoi unrhyw grwpiau dan anfantais yn anfwriadol?**

4.313 Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd i ymatebwyr am gamau ychwanegol y dylem eu cymryd i sicrhau nad yw'r newidiadau arfaethedig yn rhoi unrhyw grwpiau dan anfantais yn anfwriadol. Cwestiynau testun rhydd oedd y rhain ac ni ofynnwyd i ymatebwyr nodi eu lefel o gytundeb gan ddefnyddio dewis lluosog.

4.314 Rhoddodd ymatebwyr sylwadau ynghylch ymwybyddiaeth y panel, hyfforddiant, a mesurau diogelwch gweithdrefnol i atal anfantais anfwriadol i unigolion cofrestredig â nodweddion gwarchodedig. Fe wnaethant hefyd nodi bod angen gwella hygyrchedd, gan argymell fformatau amgen (e.e., Braille, print bras, sain, canllawiau iaith glir). Yn ogystal, galwodd yr ymatebwyr am fonitro canlyniadau FTP yn rheolaidd yn ôl nodwedd warchodedig, archwiliadau cydraddoldeb, adolygiadau annibynnol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyd-gynhyrchu, yn enwedig gan gynnwys unigolion cofrestredig sydd â phrofiad byw o brosesau FTP.

### Ymateb yr HCPC

4.315 Rydym yn croesawu'r pwyslais cryf gan ymatebwyr ar bwysigrwydd cymryd camau rhagweithiol i sicrhau nad yw'r newidiadau arfaethedig yn rhoi unrhyw grwpiau dan anfantais yn anfwriadol ar sail unrhyw nodweddion gwarchodedig.

4.316 Rydym wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r pwyntiau a godwyd drwy gydol y ddogfen hon, felly dim ond y pwyntiau nad ydynt eisoes wedi'u trafod y byddwn yn eu cynnwys yma.

4.317 Rydym yn cymeradwyo'r pwyslais ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a chydgynhyrchu gyda'r rhai sydd â phrofiad byw o brosesau FTP, yn ogystal â sefydliadau cynrychioliadol, undebau llafur a grwpiau sy'n cefnogi gweithwyr proffesiynol niwroamrywiol, anabl, a hyfforddedig yn rhyngwladol.

4.318 I gefnogi hyn, rydym yn casglu ac yn adolygu adborth yn weithredol gan y PSA, aelodau Fforwm Partneriaeth FTP yr HCPC (sy'n cynnwys unigolion cofrestredig a'r cynrychiolwyr sy'n eu cefnogi mewn achosion FTP), ac aelodau ein Fforwm EDI sy'n cynnwys grwpiau amrywiol o unigolion cofrestredig. Rydym hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd â sefydliadau rhanddeiliaid sydd ag arbenigedd mewn EDI a phrofiadau bywyd a Fforwm y Cyrff Proffesiynol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'n sefydliadau cyrff proffesiynol.

4.319 Ar ben hynny, rydym wedi cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn am 13 wythnos ac wedi cynnal ymgysylltiad trylwyr â rhanddeiliaid i sicrhau bod cyfle gan randdeiliaid â diddordeb i ymateb. Cawsom ystod eang o randdeiliaid yn ymateb i'r ymgynghoriad o gyrff proffesiynol a chyrff rheoleiddio eraill i unigolion cofrestredig HCPC sydd wedi mynd trwy'r broses FTP. Rydym yn ystyried yr ymgynghoriad hwn yn rhan sylfaenol o'r broses gyd-gynhyrchu.

# ~~5~~ Crynodeb o'r penderfyniad

5.1 Rydym wedi ystyried yn ofalus yr holl sylwadau a dderbyniwyd gennym i'r ymgynghoriad ac wedi'u defnyddio i ddiwygio'r polisi sancsiynau. Yn unol â chanlyniadau'r ymgynghoriad, byddwn yn symud ymlaen â'r cynigion y gwnaethom ymgynghori arnynt fel yr amlinellir isod, gan ddarparu mân newidiadau ychwanegol i'r polisi yn deillio o adborth a dderbyniwyd drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

5.2 Yn unol ag ymatebion yr ymgynghoriad, rydym hefyd wedi diwygio'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n mynd i'r afael ag adborth rhanddeiliaid ac i gryfhau ystyriaeth o nodweddion gwarchodedig drwy gydol y polisi. Mae'r Asesiad diwygiedig yn nodi effeithiau posibl ac yn amlinellu lliniariadau i gefnogi tegwch a chynhwysiant ar draws pob cam o'r broses FTP. Rydym hefyd wedi cymryd camau i wneud y polisi'n gliriach ac yn fwy hygyrch.

5.3 Mae'r gwelliannau hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn nifer o newidiadau, gan gynnwys gwelliannau strwythurol a golygyddol i wella eglurder a defnyddioldeb; canllawiau cliriach i baneli ar ystyried ffactorau cyd-destunol a'r effaith bosibl ar unigolion cofrestredig â nodweddion gwarchodedig; iaith gryfach ynghylch camymddwyn tuag at gydweithwyr (gan bwysleisio parch, proffesiynoldeb a chydraddoldeb); esboniad ac eglurhad ychwanegol i gynorthwyo dealltwriaeth o egwyddorion a disgwyliadau allweddol; a mwy o gysondeb ar draws y polisi i sicrhau cysondeb ag amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Am ragor o wybodaeth am yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb terfynol, gweler yma.

5.4 Ein nod yw gweithredu'r diweddariadau i'r polisi sancsiynau erbyn dechrau 2026 yn dilyn cynllunio gweithredu a hyfforddiant panel cadarn.

**Penderfyniad ar gynnig 1: Gorchymyn gwahardd dros dro**

5.5 Rydym yn symud ymlaen â'n cynnig i egluro'r dull y dylai paneli ei fabwysiadu wrth ystyried pa sancsiwn i'w gymhwyso, gan sicrhau cysondeb â chyfraith achosion. Bydd y polisi'n egluro bod rhaid i baneli asesu a yw'r camymddwyn profedig yn dangos ymddygiad sy'n sylfaenol anghydnaws â pharhau i gofrestru. Os felly, ni ddylid gosod gorchymyn gwahardd dros dro ar y sail bod rhai neu'r cyfan o'r elfennau a restrir yn y polisi sancsiynau yn bresennol, ac ar y sail honno yn unig. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd gorchymyn diarddel yn dal i fod yn angenrheidiol os yw'n ofynnol i amddiffyn y cyhoedd a chynnal ystyriaethau lles y cyhoedd ehangach.

**Penderfyniad ar gynnig 2: Gorchymyn interim**

5.6 Rydym yn darparu canllawiau ychwanegol ar sut y dylai paneli ystyried gorchymyn interim blaenorol unigolyn cofrestredig wrth benderfynu ar hyd cymesur sancsiwn.

5.7 Gall paneli ystyried a yw unigolyn cofrestredig wedi bod yn destun gorchymyn interim fel ffactor perthnasol yn eu proses gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, ni ddylai paneli fynd ati'n syml i dynnu'r amser y bu unigolyn cofrestredig dan gyfyngiadau neu waharddiad yn flaenorol dan orchymyn interim o'r sancsiwn sylweddol. Dylai'r paneli asesu pob achos yn unigol, gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol.

**Penderfyniad ar gynnig 3: Ymddiheuriad**

5.8 Rydym yn cryfhau ein canllawiau ar ymddiheuriadau yn y polisi sancsiynau er mwyn eu cysoni'n well â chanllawiau a safonau presennol. Mae'r polisi'n egluro na fydd ymddiheuriad a gynigir gan unigolyn cofrestredig, ynddo'i hun, yn cael ei drin fel cyfaddefiad o euogrwydd.

5.9 Mae'r polisi hefyd yn nodi, er y gall ymddiheuriad fod yn ffactor lliniarol perthnasol wrth asesu mewnwelediad ac adferiad unigolyn cofrestredig, rhaid i baneli ystyried y rhesymau pam na ellid cynnig ymddiheuriad neu y gallai gael ei ohirio.

5.10 Rydym wedi gwahanu canllawiau ar fewnwelediad, edifeirwch ac ymddiheuriad er mwyn rhoi mwy o eglurder a sicrhau bod paneli gwneud penderfyniadau yn cael eu cefnogi gyda chanllawiau penodol.

**Penderfyniad ar gynnig 4: Diarddel**

5.11 Rydym yn mireinio'r geiriad yn y polisi ar ddiarddel er mwyn sicrhau mwy o eglurder. Yn ogystal â chael gwared ar y cyfeiriad at ddiarddel fel 'sancsiwn olaf', rydym yn egluro y gallai rhai achosion fod mor ddifrifol fel mai diarddel yw'r unig sancsiwn priodol.

**Penderfyniad ar gynnig 5: Asesu difrifoldeb ac euogrwydd**

5.12 Rydym yn symud ymlaen â'n newidiadau arfaethedig i asesu difrifoldeb ac euogrwydd. Rydym yn pwysleisio pwysigrwydd dull strwythuredig o werthuso difrifoldeb, gan sicrhau bod ffactorau gwaethygol, lliniarol, a phob ffactor cyd-destunol perthnasol arall yn cael eu hystyried yn llawn a'u cofnodi'n glir ym mhenderfyniad ysgrifenedig y panel. Cyfarwyddir paneli i asesu lefel y risg a achosir gan weithredoedd yr unigolyn cofrestredig, graddfa'r euogrwydd, a'r niwed posibl neu wirioneddol a achoswyd.

**Penderfyniad ar gynnig 6: Gwahaniaethu**

5.13 Rydym yn bwrw ymlaen ag ehangu ein canllawiau ar wahaniaethu. Mae'r polisi'n cyfarwyddo paneli ar sut i ymdrin ag achosion lle honnir bod gweithredoedd unigolyn cofrestredig yn seiliedig ar wahaniaethu. Ar ben hynny, rydym yn cyfeirio paneli at y Nodyn Ymarfer ar *Wneud penderfyniadau ar gyflwr meddwl unigolyn cofrestredig*. Bwriad y newidiadau hyn yw darparu amddiffyniad cadarn i bawb sy'n destun gwahaniaethu, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a chydweithwyr.

**Penderfyniad ar gynnig 7: Anonestrwydd**

5.14 Rydym yn ehangu ein canllawiau i'w gwneud hi'n haws i baneli asesu sut y gall gweithredoedd anonest unigolion cofrestredig effeithio ar ymddiriedaeth neu achosi niwed, er mwyn cefnogi penderfyniadau mwy gwybodus a chyson mewn achosion difrifol.

**Penderfyniad ar gynnig 8: Camymddwyn â chymhelliant rhywiol**

5.15 Rydym yn egluro ac yn cryfhau ein canllawiau ar gyfer paneli mewn perthynas â chamymddwyn â chymhelliant rhywiol. Rydym yn cynnwys camymddygiad â chymhelliant rhywiol yn benodol i sicrhau bod paneli yn ystyried natur yr ymddygiad a bwriad y unigolyn cofrestredig. Cyfarwyddir paneli i gyfeirio at y Nodyn Ymarfer ar *Wneud Penderfyniadau ynghylch cyflwr meddwl unigolyn cofrestredig* yn yr achosion hyn.

**Penderfyniad ar gynnig 9: Ffiniau proffesiynol**

*5.16* Rydym yn cyflwyno adran newydd ar ffiniau proffesiynol i sicrhau bod paneli yn mynd i'r afael yn briodol â phryderon ynghylch unigolion cofrestredig sy'n methu â chynnal perthnasoedd proffesiynol â defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chydweithwyr. Mae'r ychwanegiad hwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd cynnal safonau proffesiynol wrth sicrhau bod paneli'n deg yn eu hasesiad o achosion. Mae'r polisi bellach yn adlewyrchu'n well y canllawiau yn Nodyn Ymarfer HCPTS ar *Ffiniau Proffesiynol*.

**Penderfyniad ar gynnig 10: Gwelliannau strwythurol a golygyddol**

5.17 Rydym yn gwneud mân ddiwygiadau strwythurol a golygyddol i'r polisi i'w wneud yn gliriach ac yn haws i'w ddeall. Er enghraifft, rydym yn ychwanegu cyflwyniad i egluro'n well ble mae sancsiynau'n ffitio yn y broses FTP a rôl tystiolaeth a chyflwyniadau. Rydym hefyd yn darparu mwy o eglurder yn ein canllawiau ar gyfer collfarnau troseddol, rhybuddion ac amodau ymarfer.

5.18 Rydym yn gwella'r cyfeirio yn y ddogfen drwy wneud mwy o ddefnydd o is-benawdau a chroesgyfeirio.

## 6 Camau nesaf

6.1 Byddwn yn cynnal hyfforddiant trylwyr i'r panel ar y polisi diwygiedig, gyda phwyslais penodol ar ddileu rhagfarn anymwybodol a chydnabod gwahanol ystyriaethau EDI.

6.2 Byddwn yn parhau i ystyried diweddaru nodiadau ymarfer perthnasol i sicrhau bod gwahanol ddogfennau canllaw yn gyson.

6.3 Byddwn yn parhau i fonitro ein data FTP i nodi ac ymdrin ag unrhyw effeithiau anghymesur. Byddwn hefyd yn monitro unrhyw effeithiau o'r polisi sancsiynau newydd drwy'r Grŵp Adolygu Penderfyniadau.

6.4 Mae'r polisi sancsiynau, y ddogfen canlyniadau hon, a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg a'u cyhoeddi ar ein gwefan.

6.5 Cyhoeddir a gweithredir y polisi sancsiynau diwygiedig ddechrau 2026. Daw'r polisi i rym yn fuan ar ôl y dyddiad cyhoeddi. Bydd gwrandawiadau sy'n dechrau cyn y dyddiad gweithredu yn dilyn Polisi Sancsiynau 2019.

## 7 Atodiadau

7.1 Dogfen polisi sancsiynau

7.2 EIA wedi'r ymgynghoriad